# Polisi Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat Cyngor Dinas Casnewydd

# Cynnwys

Tabl Cynnwys


Cyflwyniad 6
Cymhwyso'r Polisi: 6
Nodau ac Amcanion y Polisi 8
Proses drwyddedu a dirprwyo swyddogaethau 8
Gwyro oddi wrth y Polisi 8
Ffioedd Trwyddedau 9
Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat 10
Gofynion trwydded 10
Hyd y Drwydded 10
Proses Ymgeisio 11
Addasrwydd a Phriodoldeb 11
Gwiriad GDG 12
Gwiriad cofnod troseddol tramor 13
Profiad a Safonau Gyrru 14
Gwiriadau meddygol 14
Dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb 15
Cŵn Cymorth 15
Polisi Eithrio Meddygol dan Ddeddf Cydraddoldeb 17
Polisi Gwybodaeth Dopograffyddol ac Amodau Trwyddedu (Profion Gwybodaeth Gyrwyr) 17
Hyfedredd a Chymwysterau Gyrru 18
Hyfforddiant diogelu 18
Ymwybyddiaeth o Anabledd 19
Ymgeiswyr sy'n siarad Saesneg fel ail iaith 20
Gwiriad hawl i weithio 20
Gwiriadau treth gorfodol (o fis Ebrill 2022) 21
Ymddygiad Gyrwyr 21
Amodau Gyrwyr Hurio Preifat 21
Cofrestr genedlaethol o ddiddymu a gwrthod trwyddedau cerbyd hacni a hurio preifat (NR3) 21
Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat 24
Proses ymgeisio 24
Addasrwydd a Phriodoldeb y Perchennog 24
Gwiriad GDG 25

Gwiriad Cofnod Troseddol Tramor 25
Gwneuthuriad Cyffredinol y Cerbyd 26
Addasiadau/cyfarpar ychwanegol 26
Manyleb y cerbyd 27
Amodau Trwydded y Cerbyd 28
Hyd y Drwydded 28
Oed y Cerbyd 28
Allyriadau'r Cerbyd / Polisi Amgylcheddol 28
Profi'r Cerbyd ac Amlder Profi'r Cerbyd 30
Yswiriant 31
Tystysgrif Gofrestru V5 31
Adrodd am Ddamweiniau 31
Prisiau 32
Clociau Tacsi 33
Mesuryddion GPS/systemau rheoli ac anfon 34
Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CTCC) 34
Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (SFPG) 34
Eiddo Coll 35
Lifrai ac Arwyddion 35
Hysbysebu 36
Taliadau â Cherdyn 36
Hygyrchedd 37
Amodau Trwydded Cerbyd Hacni 38
Amodau Trwydded Cerbyd Hurio Preifat 38
Llogi Arbennig (Hurio Preifat yn Unig) 38
Cerbydau Hurio Preifat Anarferol/i Ddigwyddiadau Arbennig gan gynnwys Limousines 39
Darpariaethau ychwanegol ar gyfer Cerbydau Hacni yn unig: 39
Cyfyngiadau ar Niferoedd 39
Rhesi Tacsis (y cyfeirir atynt yn gyfreithiol fel standiau Cerbydau Hacni) 40
Gweithredwyr Hurio Preifat 41
Proses ymgeisio 41
Hyd y Drwydded 41
Cyfrifoldebau ac Addasrwydd/Priodoldeb y Gweithredwr 41
Gwiriad GDG 42
Gwiriad Cofnod Troseddol Tramor 43
Amod y Drwydded 43
Cydymffurfio Cyffredinol a Gorfodaeth 44
Hunan-Adrodd gan Ddeiliad y Drwydded 45
Gweithdrefn Ddisgyblu 45
Apeliadau 47
Gweithio mewn Partneriaeth 47
Ceisiadau a Chwynion am y Gwasanaeth 47
Gorfodaeth Drawsffiniol 48

……………………………………………………………………………………………………………………………………

Atodiad 1 49
Gweithdrefn Ymgeisio i Yrwyr/canllaw 49
Atodiad 2 50

'Canllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat' y Sefydliad Trwyddedu Ebrill 2018. 50
Tabl dirprwyo 79
Atodiad 3 81
Tacsis a cherbydau hurio preifat: polisi eithrio meddygol y Ddeddf Cydraddoldeb 81
Atodiad 4 86
Canllaw yr Hawl i Weithio 86
Atodiad 5 87
Cod Ymddygiad Gyrwyr Cerbydau Hacni/Hurio Preifat. 87
Atodiad 6. 91
Cod Gwisgo Gyrwyr Cerbydau Hacni/Hurio Preifat 91
Atodiad 7 92
**Amodau Gyrwyr Hurio Preifat** 92
Atodiad 8 95
Is-ddeddfau Cerbydau Hacni 95
Atodiad 9. 96
Proses Ymgeisio am Gerbydau 96
Atodiad 10 97
Amodau Cerbydau Hacni 97
Amodau Trwydded Cerbydau Hacni 97
Manyleb 97
Math o Gerbyd 98
PLAT, ARWYDDION, HYSBYSEBU, A LIFRAI 98
NEWID AMGYLCHIADAU 99
DYCHWELYD PLAT 99
YSWIRIANT 100
CYNLLUN SEDDI A LLE I FAGIAU 100
NEWID Y CERBYD 100
FFENESTRI GYDAG ARLLIW 101
PROFION AR Y CERBYD 101
CYFARPAR Y CERBYD 101
HYSBYSEBU 101
SYSTEMAU SAIN, FIDEO A RECORDIO 102
DIM SMYGU YN Y CERBYD 102
MESURYDDION A PHRISIAU 102
EIDDO COLL 102
**Atodiad 11** 104
**AMODAU TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT** 104
MANYLEB 104
PLATIAU, ARWYDDION, HYSBYSEBU A LIFRAI 105
NEWID AMGYLCHIADAU 105
DYCHWELYD PLAT 106
YSWIRIANT 106
CYNLLUN SEDDI A LLE I FAGIAU 107
NEWID Y CERBYD 107
FFENESTRI GYDAG ARLLIW 108
PROFION AR Y CERBYD 108
CYFARPAR Y CERBYD 108
SYSTEMAU SAIN, FIDEO NEU GADW GOLWG 108
DIM SMYGU YN Y CERBYD 108
MESURYDDION A PHRISIAU 108
EIDDO COLL 109

**Atodiad 18.** 110
Polisi CTCC ....................................................................................................................................110
**Atodiad 19.** 128
Polisi Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (SFPG) "Dash Cams" 128
**Atodiad 20.** 130
Polisi Lifrai'r Cerbyd 130
**Atodiad 21** 131
Lifrai Hurio Preifat Cyngor Dinas Casnewydd 131
**Atodiad 22.** 132
Polisi Hysbysebu mewn Cerbydau 132
**Atodiad 23.** 132
Polisi Trwyddedau Cerbydau Limousine 132
**Atodiad 24.** 133
Polisi Trwyddedau Cerbydau Anarferol/Digwyddiadau Arbennig 133
Cerbydau Contract 133
POLISI AR GERBYDAU DIGWYDDIADAU ARBENNIG: GAN GYNNWYS LIMOUSINES, CERBYDAU CLUDO CADEIRIAU OLWYN A CHERBYDAU O FRI 133
AMODAU LIMOUSINE 134
AMODAU CERBYDAU "O FRI" 136
**Atodiad 26.** 137
Proses ymgeisio GHP 137
**Atodiad 27** 138
Amodau Trwydded GHP 138

# Cyflwyniad

Mae tacsis a CHP yn ffurf hollbwysig o gludiant cyhoeddus. Maent yn fath ymarferol ac uniongyrchol o deithio ac yn rhoi gwasanaeth hanfodol i'r canlynol: pobl sy'n byw mewn cymunedau gwledig lle gall mathau eraill o gludiant cyhoeddus fod yn annigonol, economi hwyr y nos, teithwyr ag anableddau, ac y mae ganddynt rôl bwysig hefyd o ran hwyluso cynhwysiant cymdeithasol.

Mae'n bwysig fod cerbydau hacni a hurio preifat yn cwrdd â safonau rheoleiddio ac yn gallu cludo teithwyr yn ddiogel ac yn gyfforddus, gan wneud yn siŵr fod profiad y cwsmer yn un cadarnhaol.

Bydd y polisi hwn a'r gweithdrefnau cysylltiedig yn rhoi gwybod i ymgeiswyr am y safonau a'r gofynion y mae'n rhaid cwrdd â hwy, ac yn cyfarwyddo'r Cyngor yn y dull y mae'n gweithredu ei swyddogaethau trwyddedu. **Adolygir y polisi hwn bob 5 mlynedd, ond gellir ei adolygu yn y cyfamser pe cyfyd yr angen.**

## Cymhwyso'r Polisi:

Cyngor Dinas Casnewydd yw'r Awdurdod Trwyddedu dan Ddeddf Darpariaethau Amrywiol Llywodraeth Leol 1976 (fel y'i diwygiwyd) a Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847. Mae ganddo ddyletswydd i gyflawni ei swyddogaethau trwyddedu yng nghyswllt yr isod:

- Trwyddedau Cerbydau Hacni
- Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni
- Trwyddedau Cerbydau Hurio Preifat
- Trwyddedau Gyrwyr Hurio Preifat
- Trwyddedau Gweithredwyr Hurio Preifat

Bydd y Polisi hwn yn gymwys i'r mathau o drwydded a restrir uchod. Yn y Polisi hwn drwyddo draw, mae unrhyw gyfeiriad at y termau cyffredinol isod yn golygu:

- 'gyrrwr' - yn cyfeirio at yrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat
- 'vehicle' –yn cyfeirio at gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat
- 'tacsi' -yn cyfeirio at gerbyd hacni
- 'CHP' yn cyfeirio at gerbyd hurio preifat
- 'gweithredwr' –yn cyfeirio at weithredwr hurio preifat
- 'perchennog' –yn cyfeirio at berchennog cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat
- 'Deiliad trwydded' yn cyfeirio at ddeiliad trwydded gyrrwr cerbyd hacni/cerbyd hurio preifat, trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, neu drwydded gweithredwr hurio preifat.

- 'Y cyngor' yw Cyngor Dinas Casnewydd
- 'Swyddog Awdurdodedig y Cyngor' yw unrhyw swyddog o'r Cyngor a awdurdodwyd dan Gynllun Dirprwyo'r Cyngor fel y nodir yn y Cyfansoddiad
- Ystyr 'plât trwydded' neu 'y plât' yw'r plât trwydded cerbyd a roddir i bob cerbyd ac sy'n gorfod cael ei arddangos y tu allan ar gefn pob cerbyd trwyddedig, onid yw'r cerbyd wedi ei eithrio
- 'Y Pwyllgor' yw Pwyllgor Trwyddedu/Is-Bwyllgor Trwyddedu y Cyngor

Wrth weithredu ei swyddogaeth drwyddedu, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cadw mewn cof y ddeddfwriaeth isod:

- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- Deddf (Darpariaethau Amrywiol) Llywodraeth Leol 1976,
- Deddf Trafnidiaeth1985
- Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990
- Deddf Iechyd 2006
- Y Rheoliadau Di-fwg (Mangreoedd a Gorfodi)
- Y Rheoliadau Di-fwg (Gweithredwyr Cerbydau a Rhybuddion Cosb) 2007
- Deddf Cydraddoldeb 2010 a Deddf Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (Pobl Anabl) 2022
- Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998
- Deddf Diogelu Data 2018
- Deddf Mewnfudo 2016
- Deddf Hawliau Dynol 1998
- Gorchymyn Deddf 1974 (Eithriadau) (Diwygio) 2002
- Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Rhoddwyd ystyriaeth i ddeddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill, gan gynnwys:

- Canllaw ar Ddeddf Adsefydlu Troseddwyr 1974 (Mawrth 2014)
- Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG)
- Canllaw ar y Cod Rheoleiddwyr Cymhwyster 2014
- "Canllaw Arferion Gorau Trwyddedu Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat" yr Adran Drafnidiaeth (Mawrth 2010)
- "Safonau Statudol Tacsis a Hurio Preifat" yr Adran Drafnidiaeth, Gorffennaf 2020
- Llywodraeth Cymru – "Tacsis a cherbydau hurio preifat: Canllaw Trwyddedu" Mawrth 2021

## Nodau ac Amcanion y Polisi

Nod cyffredinol trwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat yw gwarchod y cyhoedd a hyrwyddo diogelwch cyhoeddus.

Mae trwyddedu tacsis a CHP yn swyddogaeth wedi ei ddatganoli yng Nghymru. Yn "Tacsis a cherbydau hurio preifat: Canllaw Trwyddedu " Llywodraeth Cymru, yr isod yw nod y Llywodraeth fel rhan o'u datganiad gweledigaeth:

'Ein nod yw cyfoesi system drwyddedu tacsis a Cherbydau Hurio Preifat Cymru i'w gwneud yn addas i Gymru fodern. Yr ydym eisiau creu un safon sydd yn gyson ac a gymhwysir ledled Cymru ac sy'n hyrwyddo diogelwch, yn cyfrannu at amgylchedd glanach, yn gwella profiad y cwsmer, ac sy'n hygyrch i bawb.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cytuno â'r weledigaeth hon a byd dyn gweithio tuag at y nod a'r pedwar amcan a ganlyn:

- **Diogelwch** - Bydd gweithredwyr, cerbydau a gyrwyr yn ddiogel ac yn addas i'w trwyddedu
- **Amgylchedd** - Dylai cerbydau trwyddedig gyfrannu at dargedu am amgylchedd glanach
- **Cydraddoldeb** - Dylai pob teithiwr allu cyrchu cerbyd addas. Dylai gyrwyr a gweithredwyr ddarparu gwasanaeth sy'n cyd-fynd ag anghenion y cwsmeriaid
- **Profiad y cwsmer** – Dylai pob cwsmer gael safon dda o wasanaeth gan dacsis/CHP.

Wrth hyrwyddo'r nodau a'r amcanion trwyddedu hyn, bydd y Cyngor yn disgwyl i ddeiliaid trwyddedau ac ymgeiswyr ddangos yn gyson eu bod yn cwrdd â'r safonau a osodir gan y Cyngor fel sydd wedi eu gosod allan yn y polisi hwn, neu'n gwneud yn well na hynny.

## Proses drwyddedu a dirprwyo swyddogaethau

Mae Cyfansoddiad y Cyngor yn rhoi manylion am bwy sy'n gyfrifol am wneud penderfyniadau ar faterion yn ymwneud â thrwyddedu tacsis.

Mae gan y Cyngor gynllun dirprwyo lle mae rhai pwerau'n cael eu dirprwyo i Swyddogion Awdurdodedig ac Aelodau Etholedig sy'n eistedd ar y Pwyllgor Trwyddedu/is-bwyllgor Trwyddedu. Mae copi o'r Cyfansoddiad sy'n cynnwys y cynllun dirprwyo ar gael ar wefan y Cyngor neu o wneud cais. Mae tabl o ddirprwyo ynghylch a yw ymgeisydd neu ddeiliad trwydded yn "addas a phriodol" neu beidio yn Atodiad 2.

## Gwyro oddi wrth y Polisi

Gan arfer disgresiwn wrth gyflawni ei swyddogaethau, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cadw mewn cof y Polisi hwn a'r amcanion a ddatgenir ynddo.

Lle bo angen i'r Awdurdod Trwyddedu wyro'n sylweddol oddi wrth y Polisi hwn, rhoddir rhesymau clir a chadarn dros wneud hynny, gan gynnwys unrhyw ganllawiau statudol a gyhoeddir gan y llywodraeth.

## Ffioedd Trwyddedau

Caiff ffioedd trwyddedau eu gosod fel y gall yr Awdurdod Trwyddedu adennill y costau sy'n gysylltiedig â gweinyddu, cyhoeddi a gorfodi pob trefn drwyddedu, i'r graddau y mae statud yn caniatáu hynny. Adolygir y ffioedd o bryd i'w gilydd, a chymerir unrhyw warged neu ddiffyg i ystyriaeth y tro nesaf y gosodir y ffioedd.

Gallwch weld y ffioedd trwyddedu cyfredol ar wefan y Cyngor

www.newport.gov.uk/taxis

# Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat

## Gofynion trwydded

Rhaid i unrhyw un sy'n gyrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat feddu ar y drwydded briodol.

Rhoddir trwyddedau gyrwyr cerbydau hacni yn unol ag adran 46 Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847.

Rhoddir trwyddedau gyrwyr cerbydau hurio preifat yn unol ag adran 51 Deddf (Darpariaethau Amrywiol) Llywodraeth Leol 1976.

Bydd Cyngor Dinas Casnewydd yn rhoi "Trwydded Ddeuol" i bob gyrrwr cerbyd hacni; beth yw hyn mewn egwyddor yw Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat, sy'n caniatáu iddynt yn gyfreithlon yrru Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Cyngor Dinas Casnewydd.

Bydd unrhyw gyfeiriad at 'drwydded gyrrwr' yn yr adran hon yn cyfeirio at drwyddedau gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi trwydded gyrrwr i ymgeiswyr a ystyrir yn 'addas a phriodol' i ddal trwydded, a bydd hyn yn caniatau iddynt yrru cerbydau hacni a hurio preifat.

## Hyd y Drwydded

Rhoddir trwyddedau gyrwyr am gyfnod o 3 blynedd; fodd bynnag, mae gan yr Awdurdod Trwyddedu ddisgresiwn i roi trwydded am gyfnod byrrach pan ystyrir bod hyn yn briodol yn amgylchiadau'r achos unigol, neu ar gais yr ymgeisydd.

## Proses Ymgeisio

Mae manylion am y weithdrefn ymgeisio a chanllawiau am sut i gael trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat yn **Atodiad 1**.

## Addasrwydd a Phriodoldeb

Pwrpas y rhagofynion trwyddedu a ganlyn yw cynorthwyo'r Awdurdod Trwyddedu i bennu a yw ymgeisydd/gyrrwr yn berson 'addas a phriodol' i ddal trwydded, neu i barhau i ddal trwydded.

Yn niffyg diffiniad cyfreithiol o 'addas a phriodol', bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn defnyddio'r prawf isod:

***Heb ragfarnu o gwbl, ac ar sail y wybodaeth sydd gerbron, a fyddai'r Swyddog sydd â'r gallu i roi trwydded yn caniatau i'w f/mab, merch, priod neu gymar, mam neu dad, ŵyr neu wyres, neu unrhyw berson arall sydd dan ei g/ofal, fynd i gerbyd trwyddedig gyda'r ymgeisydd ar ei b/phen ei hun ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos.***

Er mwyn helpu i ddeall dehongliad y diffiniad hwn yn well, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried materion fydd yn eu cynorthwyo i bennu a yw ymgeiswyr yn yrwyr diogel ai peidio, gyda record dda o yrru, a ydynt yn feddyliol a chorfforol iach, yn onest, ac a ydynt yn bobl na fyddai'n cymryd mantais o'u sefyllfa i gam-drin, ymosod ar neu dwyllo aelodau o'r cyhoedd.

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded gyrrwr, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol ymgeiswyr yn ei gyfanrwydd, ynghyd â phob tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys eu hanes (e.e. cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd, cydymffurfio ag amodau'r drwydded a pharodrwydd i gydweithredu gyda swyddogion trwyddedu) tra'u bod yn dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Rhoddir sylw arbennig i batrymau ymddygiad, waeth dros ba gyfnod bynnag o amser y maent wedi digwydd, o ran troseddau a brofwyd ac ymddygiad arall a all fod yn arwydd y gall diogelwch a lles y cyhoedd fod mewn perygl o du'r ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob hanes troseddol ac ymddygiad, boed yr hanes neu'r ymddygiad penodol wedi digwydd pan oedd ymgeiswyr yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat trwyddedig ar y pryd neu a ddigwyddodd yn ystod amser personol yr ymgeiswyr. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod unigolyn sydd â thuedd i droseddu a/neu ymddwyn yn annerbyniol ar adegau pan nad oedd yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat yr un mor ddifrifol â throseddau a/neu ymddygiad annerbyniol a ddigwyddodd pan oedd yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn rhoi ystyriaeth arbennig i'r ffaith y gall y gyrwyr hynny fod yn cludo aelodau bregus o'r cyhoedd megis pobl oedrannus, plant heb oedolyn gyda hwy, pobl anabl, menywod ar eu pennau eu hunain, ymwelwyr o dramor a phobl sy'n analluog oherwydd alcohol neu sylweddau eraill.

Er mwyn asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadw mewn cof y '*Canllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat'* y Sefydliad Trwyddedu Ebrill 2018.

Mae manylion y canllaw yn **Atodiad 2**, ochr yn ochr â Thabl Dirprwyo'r Cyngor.

## Gwiriad GDG

Er mwyn bodloni'r awdurdod eu bod yn 'addas a phriodol', rhaid i bob ymgeisydd am rôl gyrrwr cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat (CHP) gael gwiriad Lefel Uwch y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG), sydd yn cynnwys gwirio'r rhestrau gwaharddedig plant ac oedolion. I yrwyr trwyddedig, ailadroddir y gwiriad hwn bob 6 mis gan yr Awdurdod Trwyddedu trwy ddefnyddio Gwasanaeth Cyfoesi GDG.

Rhaid i bob ymgeisydd/deiliad trwydded naill ai ymrestru gyda'r Gwasanaeth Cyfoesi GDG (argymhellir hyn yn gryf) a chynnal eu tanysgrifiad tra pery eu trwydded. Rhaid i ddeiliad y drwydded roi caniatâd i'r Awdurdod Trwyddedu gynnal gwiriadau ar eu statws GDG. Bydd methu â darparu gwybodaeth GDG bob 6 mis yn golygu y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn atal trwydded gyrrwr hyd nes y darperir y cyfryw wybodaeth neu ei gyrchu.

Bydd gofyn i yrwyr sydd yn dymuno cyflwyno GDG bob chwe mis yn hytrach na defnyddio'r "Gwasanaeth Cyfoesi GDG" gymryd cyfrifoldeb personol am wneud apwyntiad gyda'r Awdurdod Trwyddedu ddim hwyrach na 4 wythnos cyn bod angen gwneud y Gwiriad GDG 6 mis (Unwaith eto, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn argymell yn gryf y dylai gyrwyr ymrestru â'r Gwasanaeth Cyfoesi GDG). Os methir â gwneud yr apwyntiad, bydd Trwydded y Gyrrwr yn cael ei atal hyd nes y cwblheir gwiriad GDG a'i ddychwelyd i'r Awdurdod gan y GDG. O'r herwydd, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori gyrwyr yn gryf i ddefnyddio'r "Gwasanaeth Cyfoesi GDG."

Mae'r Cyngor yn gorff cydnabyddedig y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Felly, gall ymgeiswyr wneud cais am wiriad GDG (SCT) trwy'r Cyngor. Dylid nodi na fydd yr Awdurdod yn hwyluso cludo Gwiriadau GDG o un Corff Cyhoeddus i un arall.

Caiff gyrwyr sy'n methu â chadw taliadau i'r Gwasanaeth Cyfoesi GDG yn gyfoes yn cael eu hatal hyd nes y cyflenwir GDG i'r Awdurdod Trwyddedu.

Derbynnir tystysgrifau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn unig os bydd y datgeliad wedi eid dyddio o fewn un mis calendr cyn y cais. I gynhorthwy gydag asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadw mewn cof '**Ganllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat**' y Sefydliad Trwyddedu Ebrill 2018.

Dylid nodi y bydd ceisiadau unigolion sy'n ymddangos ar y naill restr waharddedig neu'r llall yn cael eu gwrthod fel mater o drefn, onid oes amgylchiadau eithriadol lle'r ystyria'r awdurdod trwyddedu, yn ôl pwysau tebygolrwydd, fod yr unigolyn yn 'addas a phriodol'.

## Gwiriad cofnod troseddol tramor

Bydd angen i bob ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni neu CHP ac sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn ddi-dor y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers eu degfed pen-blwydd roi i'r Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hwy sydd yn ymdrin â'r cyfnod yr oedd yr ymgeisydd dramor.

Yr ymgeisydd fydd yn gorfod talu costau unrhyw wiriadau o'r fath.

I ddinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU) dylai gwiriadau addas fod ar gael. I'r gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael, bydd ar yr Awdurdod Trwyddedu angen tystysgrif ymddygiad da wedi ei dilysu gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif fod wedi ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o nifer o wledydd ar gael o: **GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants**.

Os na all ymgeisydd gael tystysgrif ymddygiad da, ni ddylai fwrw ymlaen â'i gais a dylai gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu am fwy o wybodaeth.

Rhaid bod wedi cael gwiriadau hanes troseddol tramor o fewn y cyfnod o 6 mis cyn gwneud y cais.

Bydd yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gael unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da fydd gan yr ymgeisydd waeth beth fydd oed y ddogfen.

Bydd angen i Dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith ar wahân i'r Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar gost yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a rhaid gwirio'r cyfieithiad.

## Profiad a Safonau Gyrru

Rhaid i bob ymgeisydd fod ag o leiaf un flwyddyn o brofiad gyrru, h.y., rhaid iddynt fod â thrwydded yrru lawn y DU, trwydded yrru a gyhoeddwyd gan aelod-wladwriaeth o'r Undeb Ewropeaidd neu "drwydded gyfnewidiadwy" arall fel y'i diffinnir yn Neddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 am o leiaf un flwyddyn cyn dyddiad y cais.

Adeg gwneud y cais, rhaid i bob ymgeisydd fod wedi dal trwydded yrru y DU am gerbydau Categori B am 12 mis. Mae modd dod o hyd i fanylion am sut i drosi trwydded yrru tramor i drwydded yrru y DU yn: https://www.gov.uk/exchange-foreign-driving-licence

I sicrhau bod safon gyrru'r ymgeisydd yn addas, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn cynnal gwiriad o statws trwydded gyrru DVLA yr ymgeisydd er mwyn gweld beth yw

hanes gyrru'r ymgeisydd. Cynhelir y gwiriad hwn cyn y drwydded gyntaf, cyn adnewyddu trwydded gyrrwr, ac ar unrhyw adeg yr ystyria'r Awdurdod Trwyddedu sy'n angenrheidiol.

## Gwiriadau meddygol

Mae'r awdurdod trwyddedu yn cydnabod y dylai gyrwyr trwyddedig fod â safonau meddygol llymach na'r rhai sy'n gymwys i yrwyr ceir normal am eu bod yn cludo aelodau'r cyhoedd sy'n disgwyl cael siwrne saff; maent ar y ffordd yn hwy na'r rhan fwyaf o yrwyr ceir; ac efallai y bydd yn rhaid iddynt gynorthwyo teithwyr anabl a thrin bagiau. Felly, mae gofyn i bob ymgeisydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat gwrdd â safonau meddygol Grŵp 2 y DVLA o ran addasrwydd i yrru. Rhaid i'r archwiliad meddygol gael ei gynnal gan feddyg teulu'r ymgeisydd ei hun neu feddyg arall ym mhractis cofrestredig yr ymgeisydd neu bractis cysylltiedig sy'n gallu cyrchu ei holl gofnodion meddygol.

Dan amgylchiadau eithriadol iawn, a dim ond gyda chytundeb yr Awdurdod Trwyddedu ymlaen llaw, gall asesiad meddygol gael ei gynnal gan bractis meddyg teulu cofrestredig arall, cyhyd â bod hanes meddygol llawn yr ymgeisydd wedi ei weld a'i asesu gan y meddyg teulu hwnnw.

Gall yr awdurdod trwyddedu gyfarwyddo unrhyw ddeiliad trwydded i gyflenwi tystiolaeth foddhaol ar ffurf tystysgrif feddygol, sy'n datgan fod deiliad y drwydded yn ateb safonau angenrheidiol Grŵp 2, pe cyfyd cwestiwn am ei ffitrwydd  meddygol.

Ni fydd unrhyw ymgeisydd am gael neu adnewyddu trwydded sy'n methu a bodloni'r awdurdod trwyddedu ei b/fod yn cwrdd â'r safon feddygol angenrheidiol yn cael trwydded , neu ni adnewyddir y drwydded, neu fe gaiff ei thynnu'n ôl.

Dyma'r gofyniad am i ymgeiswyr/gyrwyr trwyddedig cwblhau archwiliad meddygol:

- Pan wneir cais, bob 5 mlynedd rhwng 45 a 65 oed
- Bob blwyddyn pan fo'r gyrrwr yn 65 oed neu'n hŷn
- Neu ar unrhyw adeg ar gais yr awdurdod trwyddedu neu'r meddyg.

Mae'r ffurflen feddygol yn ddilys am 4 mis o ddyddiad ei llofnodi gan y meddyg, optegydd neu optometrydd a wnaeth yr archwiliad.

Mae gofyn i bob deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod trwyddedu am unrhyw salwch neu gyflwr sy'n effeithio ar eu gallu i yrru.

Yr ymgeisydd/deiliad y drwydded sydd i dalu'r holl gostau cysylltiedig â chael y dystysgrif feddygol berthnasol.

Dod o hyd i'r ffurflen feddygol: **Medical report for taxi or hurio preifat vehicle gyrwyr: application form**

## Dyletswyddau dan Ddeddf Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod nifer o ddyletswyddau cyfreithiol ar yrwyr trwyddedig pan fyddant yn cludo teithwyr ag anableddau.

## Cŵn Cymorth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat i gludo cŵn tywys, clywed a chŵn cymorth eraill sydd gyda phobl anabl, ac i wneud hynny heb godi tâl ychwanegol.

Mae'r dyletswyddau hyn yr un mor gymwys i gŵn a ddarperir gan elusennau yn y DU sy'n gysylltiedig â Chŵn Cymorth y DU, sefydliadau tramor cyfatebol, neu gŵn cymorth a hyfforddwyd gan eu perchenogion; a boed y ci yn gwisgo harnais neu siaced hawdd ei hadnabod neu beidio, neu ei fod wedi ei ardystio'n swyddogol. Lle dywed darpar-deithiwr wrth yrrwr fod ci y mae'n dymuno teithio gydag ef yn gi cymorth, dylid derbyn hyn.

Mae cŵn cymorth wedi eu hyfforddi i deithio gyda'u perchennog ym mhrif ran y cerbyd ar gyfer teithwyr, gan orwedd wrth eu traed fel arfer, a bydd y perchennog yn cyfarwyddo'r ci i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd. Dylid gofyn i deithwyr â chŵn cymorth a oes ganddynt sedd yr hoffent eistedd ynddi yn y cerbyd - efallai y bydd yn well gan rai eistedd yn sedd flaen y teithiwr mewn cerbyd salŵn, gan y gall fod mwy o le wrth y traed i'r ci eistedd. Dylai gyrwyr fod yn barod i roi unrhyw gymorth rhesymol arall y gofynna'r teithiwr amdano; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd ar gŵn cymorth angen help i fynd i mewn ac allan o'r rhan fwyaf o gerbydau, ar wahân i agor drws y teithiwr. Ni ddylai gyrwyr geisio gwahanu cŵn cymorth oddi wrth eu perchenogion trwy fynnu bod y ci yn teithio mewn rhan arall o'r cerbyd - gall gwneud hynny beri loes i'r ci a'i berchennog fel ei gilydd. Gall cŵn cymorth deithio yn rhan gefn car stad, os bydd perchennog y ci yn cytuno.

Mae cŵn cymorth yn cael eu magu a'u dewis am eu natur dawel, a byddant yn cael cryn lawer o hyfforddiant arbenigol cyn cychwyn ar eu gwaith. Maent yn derbyn gofal ac yn cael gwiriadau iechyd milfeddygol rheolaidd. Er ein bod yn cydnabod y gall rhai gyrwyr nad ydynt yn gyfarwydd â chŵn deimlo'n anghyfforddus o fod mor agos at un, nid yw hyn yn sail ddilys dros wrthod cludo teithiwr gyda chi cymorth.  Yn yr un modd, nid yw credoau crefyddol chwaith yn sail dros wrthod cludo cŵn cymorth mewn tacsis a cherbydau hurio preifat, nac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill dan gyfraith y DU.

### Cadeiriau olwyn

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar Yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat sy'n rhedeg Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn i gludo teithwyr mewn cadair olwyn a darparu cymorth er mwyn sicrhau diogelwch a chysur rhesymol, ac i wneud hynny heb godi tâl ychwanegol.

Gall y mathau o gymorth fydd ei angen gynnwys:

- Os yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, rhaid i'r gyrrwr helpu'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd, a gwneud y gadair olwyn yn ddiogel yn unol â manyleb y cerbyd.
- Os yw'r teithiwr eisiau trosglwyddo i sedd, rhaid i'r gyrrwr ei helpu i ddod allan o'r gadair olwyn ac i sedd ac yn ôl i'r gadair olwyn; rhaid i'r gyrrwr hefyd lwytho'r gadair olwyn i'r cerbyd, ynghyd ag unrhyw baciau.

Bydd gyrrwr sydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r dyletswyddau uchod heb amddiffyniad dilys yn cyflawni trosedd a gall dderbyn dirwy o hyd at £1,000 am bob trosedd o'i g/chael yn euog. Gall troseddau hefyd arwain at dynnu'n ôl neu atal trwyddedau tacsi.

Diffinnir 'cadair olwyn y cyfeirir ati' mewn statud fel un â'r dimensiynau canlynol: Hyd: 1200mm (tua. 48") gan gynnwys platiau traed. Lled: 700mm (28") Cyfanswm uchder wrth eistedd: 1350mm (54") Uchder gorffwysfa'r traed: 150mm (6")

Rhagwelir y bydd y dimensiynau uchod am gadair olwyn y cyfeirir ati yn cynnwys y rhan fwyaf o gadeiriau olwyn a weithredir â llaw – fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod y gall rhai cadeiriau olwyn gyda nodweddion arbenigol, neu gadeiriau olwyn a redir â pheiriant, a sgwteri symudedd, fod yn fwy na'r dimensiynau hyn ac na fydd modd eu llwytho a'u cludo'n ddiogel ym mhob tacsi dynodedig. Mewn achosion o'r fath, bydd disgwyl i yrwyr asesu a oes modd cludo'r teithiwr yn ddiogel yn ei g/cherbyd, a chludo'r teithiwr os oes modd sicrhau ei d/ddiogelwch a chysur rhesymol, neu ei helpu i ddod o hyd i gerbyd arall addas, lle bo hyn yn ymarferol. Gall amgylchiadau o'r fath fod yn amddiffyniad i drosedd a grybwyllir uchod.

Ym mhob achos, rydym yn disgwyl i yrwyr drin teithwyr gyda pharch a sensitifrwydd, a rhoi esboniad clir pam nad oes modd eu cludo.

## Polisi Eithrio Meddygol dan Ddeddf Cydraddoldeb

Er mwyn gwella cydymffurfio â gofynion Deddf Cydraddoldeb, ac i gefnogi gyrwyr sydd â chyflyrau meddygol go-iawn sy'n eu hatal rhag llawn gyflawni'r dyletswyddau dan y Ddeddf a ddisgrifir uchod, mae'r Cyngor wedi mabwysiadu'r **Tacsis a cherbydau hurio preifat: polisi eithrio meddygol y Ddeddf Cydraddoldeb** y ceir manylion amdano yn **Atodiad 3.**

## Polisi Gwybodaeth Dopograffyddol ac Amodau Trwyddedu (Profion Gwybodaeth Gyrwyr)

Mae ar yrwyr Cerbydau Hacni angen gwybodaeth dda am yr ardal y trwyddedir hwy ar ei chyfer, oherwydd gall cerbydau gael eu hurio'n syth, yn uniongyrchol gyda'r gyrrwr, wrth stondiau Cerbydau Hacni neu ar y stryd. Er mwyn cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan yrwyr, ni roddir trwydded i yrru Cerbyd Hacni neu gerbyd Hurio Preifat oni fydd yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod yr ymgeisydd yn berson addas a phriodol. Yn y cyd-destun hwn, mae'r gallu i ddod o hyd i gyrchfannau a darllen mapiau yn sylfaenol er mwyn darparu gwasanaeth o safon i deithwyr.

Er mwyn pennu'r cyfryw addasrwydd, bydd gofyn i ymgeiswyr gymryd prawf o'u gwybodaeth o'r isod:

- Saesneg sylfaenol
- Rhifedd sylfaenol
- Sut i ddefnyddio Map A-Z
- Lleoliad mannau penodol yng Nghasnewydd.
- Mae gyrwyr Cerbydau Hacni yn cael eu profi am lwybrau penodol heb help map na Sat Nav.
- Y gyfraith ar Drwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat.
- Rheolau'r Ffordd Fawr.
- Ymddygiad Gyrwyr (gan gynnwys adran am ddiogelu wrth gludo plant ac Oedolion Bregus, 'County lines'.)
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o anabledd.

Os na all gyrrwr gwblhau'r prawf yn foddhaol oherwydd anawsterau gyda Saesneg llafar, cynigir cefnogaeth i geisio cyfleoedd am hyfforddiant yn yr iaith Saesneg. Bydd gofyn i ymgeiswyr sy'n methu'r prawf gwybodaeth ail-eistedd y prawf a hefyd dalu ffi ychwanegol.

## Hyfedredd a Chymwysterau Gyrru

Cred y Cyngor ar hyn o bryd fod y prawf gyrru car safonol yn dystiolaeth ddigonol o fedrusrwydd gyrru i yrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat. Cyn hyn, mae wedi ystyried na fyddai cyflwyno gofyniad i yrwyr basio prawf yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau, neu yn wir unrhyw gymhwyster medrusrwydd arall, ar hyn o bryd yn rhoi buddion sy'n gymesur a'r costau y byddai hyn yn olygu, er y caiff hyn ei adolygu. Fodd bynnag, y teimlad yw y dylai pob ymgeisydd newydd sydd wedi "cronni" hyd at 6 phwynt cosb am fân drosedd(au) traffig ddilyn a phasio Cwrs Pass Plus neu gwrs a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu a hefyd ddarparu tystysgrif basio (ni ddylai'r dystysgrif fod yn hŷn na 12 mis, a bydd ar draul yr ymgeisydd).

## Hyfforddiant diogelu

Mae gan yrwyr cerbydau hacni a hurio preifat gyfrifoldeb pwysig o ran cludo teithwyr am dâl yn ddiogel. Mae disgwyl i yrwyr ymddwyn mewn dull proffesiynol bob amser, a rhoi gwasanaeth rhagorol i'w cwsmeriaid.

Gall gyrwyr trwyddedig yn aml fod yn llygaid a chlustiau'r gymuned. Gall hyfforddi fod yn bwysig i helpu gyrwyr trwyddedig i sylweddoli pryd y maent yn cludo teithwyr sydd mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hecsploetio.

Rhaid i bob ymgeisydd newydd am drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat ddilyn hyfforddiant diogelu. Mae'r hyfforddiant yn canolbwyntio ar adnabod yr hyn sy'n gwneud oedolion a phlant yn fregus, arwyddion o drais, cam-fanteisio rhywiol, 'county lines' a masnachu mewn pobl. Mae'n cynnwys enghreifftiau o deithiau amheus yn ogystal â gwybodaeth am sut i gadw at ffiniau proffesiynol.

Bydd gofyn i bob gyrrwr (gan gynnwys deiliaid trwydded presennol nad ydynt eto wedi dilyn hyfforddiant o'r fath) fynychu sesiwn hyfforddi ar ddiogelu plant a phobl fregus.

Bydd y sesiwn hyfforddi yn ymdrin ag ymddygiad a chyfrifoldebau'r sawl a drwyddedwyd. Yn benodol, bydd yn rhoi hyfforddiant ar adnabod pryd y mae ar bobl fregus angen eu hamddiffyn, a sut i wneud yn siwr y cymerir hwy i le diogel, ac os digwydd bod angen gweithredu fel hyn, yr angen i roi adroddiad am y cyfryw ddigwyddiad yn syth wrth yr Heddlu a/neu y gwasanaethau cymdeithasol.

Rhaid i ddarparwr yr hyfforddiant gael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod Trwyddedu (ar hyn o bryd, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynnal ei hyfforddiant ei hun). Rhaid cyflwyno tystysgrif i Gyngor Dinas Casnewydd i gadarnhau y dilynwyd yr hyfforddiant. Dim ond tystysgrifau gan ddarparwyr hyfforddiant a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu gaiff eu derbyn.

Bydd gofyn i ymgeiswyr newydd fynychu'r hyfforddiant ar eu traul eu hunain cyn cyflwyno cais.

Rhaid i bob gyrrwr sydd am adnewyddu trwydded gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat ddilyn hyfforddiant gloywi o ran Diogelu ar eu traul eu hunain cyn cyflwyno cais neu o fewn 3 mis o adnewyddu'r drwydded. Os methir â mynychu cwrs diogelu o fewn 3 mis o roi'r drwydded, caiff y drwydded Cerbyd Hacni/Hurio Preifat ei hatal. (Dylid nodi nad oes arholiad gydag unrhyw hyfforddiant gloywi).

## Ymwybyddiaeth o Anabledd

Mae'r Cyngor yn mynnu bod pob gweithredwr a gyrrwr yn cydymffurfio â darpariaethau Deddf Cydraddoldeb 2010, sydd ag adrannau penodol am Yrwyr Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni a'u cyfrifoldebau statudol yng nghyswllt eu gwasanaeth i bobl anabl, gan gynnwys y rhai sy'n cael help cŵn cymorth, a pheidio â chamwahaniaethu yn erbyn pobl o'r fath.

Mae'r Cyngor yn cefnogi cerbydau a all roi gwasanaeth i bobl anabl, ac y mae'n annog gweithredwyr a gyrwyr i ddarparu gwasanaeth 24-awr i bobl anabl. Mae'r Cyngor yn annog yn gryf ddarparu cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn ym masnach Hurio preifat Casnewydd, yn ychwanegol at y gofynion polisi penodol i holl Gerbydau Hacni Casnewydd fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn.

Mae disgwyl i yrwyr a gweithredwyr fod â gwybodaeth o ddulliau diogel o gludo pobl anabl, boed hwy mewn cadair olwyn neu beidio.

Mae'r Cyngor yn annog pob gyrrwr i fynychu hyfforddiant ar helpu gyda phobl anabl; mae hyn yn golygu nid yn unig bobl mewn cadeiriau olwyn, ond hefyd anghenion pobl ag amrywiaeth o anableddau.

Mae anableddau yn cynnwys diffyg neu gyfyngu ar symud, anableddau golwg neu glyw, anawsterau dysgu, a nam meddyliol. Nid rhestr gyflawn mo hon; cymerir darpariaethau'r Ddeddf Gydraddoldeb gyfredol i ystyriaeth wrth bennu a yw rhywun yn anabl ai peidio.

Cynghorir gyrrwr cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn fynychu cwrs hyfforddi cydnabyddedig er mwyn gwneud yn siwr eu bod yn cydymffurfio â'r gofynion iechyd a diogelwch o ran trin cadeiriau olwyn a'u gwneud yn ddiogel.

Gall y Cyngor adolygu trwydded unrhyw yrrwr/gweithredwr a ganfyddir yn ddiffygiol mewn ymwybyddiaeth o anabledd. Ni chaiff diffyg hyfforddiant/gwybodaeth ar ran y gyrrwr/gweithredwr ei dderbyn fel amddiffyniad i honiad o berfformiad/ymddygiad annigonol neu gamwahaniaethu.

Bydd gofyn i bob gyrrwr sy'n ymgeisydd newydd ddilyn hyfforddiant Ymwybyddiaeth o Anabledd a hydd hyn yn rhan o'r prawf Gwybodaeth.

Rhaid i bob gyrrwr sydd eisiau adnewyddu trwydded gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat hefyd ddilyn hyfforddiant gloywi mewn Ymwybyddiaeth o Anabledd ar ei d/thraul ei hun cyn cyflwyno cais neu o fewn 3 mis o adnewyddu'r drwydded. Os methir â mynychu'r cwrs o fewn 3 mis o roi'r drwydded, caiff y drwydded Cerbyd Hacni/Hurio Preifat ei hatal. (Dylid nodi nad oes arholiad gydag unrhyw hyfforddiant gloywi, a lle bo modd, bydd yn cael ei ymgorffori gyda'r hyfforddiant diogelu)

## Ymgeiswyr sy'n siarad Cymraeg / Saesneg fel ail iaith

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn croesawu ymgeiswyr o bob cefndir ethnig. Fodd bynnag, mae'n bwysig i yrwyr allu cyfathrebu'n effeithiol gyda theithwyr yn Gymraeg / Saesneg a bod ganddynt y gallu i ddarllen a deall y gofynion statudol a osodir arnynt.

Lle daw'n amlwg i Swyddogion Trwyddedu yn ystod y broses ymgeisio na all ymgeisydd ddeall na chyfathrebu yn effeithiol yn Saesneg, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddilyn Cwrs Sgiliau Bywyd Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL), neu gymhwyster cyfatebol ar lefel mynediad 3, ar ei g/chost ei hun, cyn bwrw ymlaen a'r broses ymgeisio.

## Gwiriad hawl i weithio

Mae'n ofyniad dan Ddeddf Mewnfudo 2016, cyn rhoi trwydded, fod yn rhaid i bob ymgeisydd ddangos fod ganddo/i yr hawl i weithio yn y DU.

Unwaith y bodlonir y gofyniad hwn, ni fydd angen prawf pellach onid oes cyfyngiad amser ar yr hawl i weithio; os felly, bydd angen prawf pellach er mwyn dangos parhad yr hawl i weithio.

Mae rhestr o ddogfennau derbyniol am yr hawl i drwydded yn **Atodiad 4**

Ni roddir trwydded i ymgeiswyr sy'n methu a dangos fod ganddynt yr hawl i weithio yn y DU.

Lle bo deiliad trwydded yn torri deddfau mewnfudo, bydd hyn yn sail i adolygu, atal neu ddiddymu trwydded.

Os cwtogir caniatâd mewnfudo, bydd deiliad y drwydded yn cyflawni trosedd os na fydd yn dychwelyd y drwydded gyrrwr cerbyd hacni, gyrrwr neu weithredwr cerbyd hurio preifat i'r awdurdod trwyddedu, a gallant fod yn agored i ddirwy.

## Gwiriadau treth gorfodol

O 1 Ebrill 2022 ymlaen, mae rheidrwydd statudol ar Awdurdodau Trwyddedu i gyfeirio gyrwyr newydd at ganllawiau CThEF am eu rhwymedigaethau treth posib, a chael cadarnhad fod yr ymgeisydd yn ymwybodol o'r canllawiau cyn ystyried y cais. Lle bo'r cais yn gais am adnewyddu trwydded, mae dyletswydd ar yr awdurdod trwyddedu, cyn ystyried y cais, i gael cadarnhad gan CThEF fod yr ymgeisydd wedi cwblhau gwiriad treth.

Bydd ymgeisydd yn cynnal gwiriad treth trwy ddarparu gwybodaeth i alluogi CThEF i fodloni eu hunain fod yr ymgeisydd wedi cydymffurfio â rhwymedigaeth i hysbysu y gellir codi treth arni/o, lle'r oedd y fath rwymedigaeth yn gymwys. Bydd y gwiriad yn cynnwys cwestiwn ynghylch a ddatganwyd incwm o'r gweithgaredd trwyddedig wrth CThEF, lle gellid codi treth ar yr ymgeisydd. Bydd y gwiriad wedi ei gwblhau pan fo CThEF yn fodlon fod yr ymgeisydd wedi darparu'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdano.

## Ymddygiad Gyrwyr

Disgwylir i yrwyr trwyddedig ymddwyn mewn modd proffesiynol a darparu gwasanaeth o ansawdd uchel bob amser.

Datblygwyd y Cod Ymddygiad Gyrrwr y manylir arno yn **Atodiad 5** er mwyn amlinellu'r safonau a ddisgwylir o yrwyr trwyddedig, ac y mae'n rhan annatod o'r asesiad 'addas a phriodol'.

Mae'r Cod hefyd yn cynghori darpar-deithwyr am y lefel o wasanaeth y dylent ddisgwyl wrth hurio cerbyd trwyddedig.

## Gyrrwr Hurio Preifat

Mae amodau'r drwydded sy'n gymwys i yrwyr cerbydau hurio preifat yn **Atodiad 6** y Polisi.

## Cofrestr genedlaethol o ddiddymu a gwrthod trwyddedau cerbyd hacni a hurio preifat (NR3)

Mae'r awdurdod trwyddedu yn rhoi gwybodaeth i'r Gofrestr Genedlaethol o Wrthod a Diddymu Trwyddedau Tacsis (NR3), mecanwaith sy'n galluogi awdurdodau trwyddedu i rannu manylion am unigolion y diddymwyd eu trwydded cerbyd hacni neu Gerbyd Hurio Preifat (CHP), neu y gwrthodwyd eu cais am un. Mae hyn yn angenrheidiol er mwyn cyflawni tasg er budd y cyhoedd neu wrth arfer swyddogaeth awdurdod swyddogol a freiniwyd yn yr awdurdod trwyddedu - hynny yw, asesu a yw unigolyn yn berson addas a phriodol neu beidio i ddal trwydded cerbyd hacni neu CHP.

Felly:

- Lle diddymir trwydded cerbyd hacni/ CHP neu y gwrthodir cais am un, bydd yr awdurdod yn awtomatig yn cofnodi'r penderfyniad hwn ar NR3.
- Bydd pob cais am drwydded newydd neu adnewyddu trwydded yn cael ei wirio'n awtomatig ar NR3. Os bydd chwiliad o NR3 yn dangos cyfatebiaeth gydag ymgeisydd, bydd yr awdurdod yn ceisio mwy o wybodaeth am y cofnod ar y gofrestr gan yr awdurdod a'i cofnododd. Bydd unrhyw wybodaeth a dderbynnir o ganlyniad i chwiliad NR3 yn cael ei ddefnyddio'n unig yng nghyswllt y cais benodol am drwydded ac ni chaiff ei gadw unwaith i'r cais hwnnw gael ei bennu.

Bydd y wybodaeth a gofnodir ar NR3 ei hun wedi ei gyfyngu i:

- enw
- dyddiad geni
- cyfeiriad a manylion cyswllt
- rhif yswiriant gwladol
- rhif trwydded yrru

- penderfyniad a gymerwyd
- dyddiad y penderfyniad
- dyddiad y daw'r penderfyniad i rym

Cedwir gwybodaeth ar NR3 am gyfnod o 25 mlynedd.

Mae hyn yn rhan orfodol o wneud cais a chael trwydded gyrrwr cerbyd hacni / CHP. Cyhoeddodd yr awdurdod bolisi am ei agwedd at geisiadau gan awdurdodau eraill am fwy o wybodaeth am gofnodion ar NR3, ac am y defnydd a wnaiff o unrhyw wybodaeth bellach a roddir iddo. Gallwch ddarllen y polisi hwnnw ar <https://www.newport.gov.uk/en/Business/Licences--permits/Taxi-Licensing/NR3.aspx>

Caiff gwybodaeth ei brosesu yn unol â Deddf Diogelu Data (DDD) a'r Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data (GDPR). Mae unrhyw chwiliadau, darparu neu dderbyn gwybodaeth am neu dan NR3 yn angenrheidiol ar gyfer swyddogaethau trwyddedu statudol yr awdurdod o sicrhau bod pob gyrrwr yn addas a phriodol i ddal y drwydded berthnasol. Ni fwriedir trosglwyddo unrhyw ddata NR3 allan o'r Deyrnas Unedig. Os dymunwch godi unrhyw fater cysylltiedig â'r ddeddfwriaeth diogelu data, gan gynnwys trwy ddibynnu ar unrhyw rai o'r hawliau a roddir i wrthrychau data dan y GDPR, gallwch wneud hynny gyda Swyddog Diogelu Data yr awdurdod. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno cais mynediad gan wrthrych.

Mae gennych hawl yn wastad i wneud cwyn wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG). Mae cyngor am sut i leisio pryder ynghylch trin data ar wefan y SCG: <https://ico.org.uk/make-a-complaint/>

# Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

## Proses ymgeisio

Pennir pob cais yn ôl ei haeddiant ei hun. Mae manylion am y drefn ymgeisio am drwydded cerbyd yn **Atodiad 9.**

## Addasrwydd a Phriodoldeb y Perchennog

Er na fydd perchenogion cerbydau, efallai, yn cael cyswllt uniongyrchol â theithwyr, mae'n bwysig gwneud yn siwr eu bod yn cael eu hystyried yn 'addas a phriodol' i ddal trwydded, er mwyn sicrhau bod cerbydau wedi eu trwyddedu'n briodol er mwyn cynnal manteision diogelwch y drefn drwyddedu.

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded cerbyd, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol ymgeiswyr yn ei gyfanrwydd, ynghyd â phob tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys eu hanes (e.e. cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd, cydymffurfio ag amodau'r drwydded a pharodrwydd i gydweithredu gyda swyddogion trwyddedu) tra'u bod yn dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Rhoddir sylw arbennig i batrymau ymddygiad, waeth dros ba gyfnod bynnag o amser y maent wedi digwydd, o ran troseddau a brofwyd ac ymddygiad arall a all fod yn arwydd y gall diogelwch a lles y cyhoedd fod mewn perygl o du'r ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob hanes troseddol ac ymddygiad, boed yr hanes neu'r ymddygiad penodol wedi digwydd pan oedd ymgeiswyr yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat trwyddedig ar y pryd neu a ddigwyddodd yn ystod amser personol yr ymgeiswyr. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod unigolyn sydd â thuedd i droseddu a/neu ymddwyn yn annerbyniol ar adegau pan nad oedd yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat yr un mor ddifrifol â throseddau a/neu ymddygiad annerbyniol a ddigwyddodd pan oedd yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadw mewn cof '*Ganllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat' Ebrill 2018* y Sefydliad Trwyddedu. Mae manylion am y canllaw yn **Atodiad 2**.

## Gwiriad GDG

Bydd gofyn i bob ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni a CHP gyflwyno datgeliad sylfaenol gan y GDG er mwyn bodloni'r awdurdod eu bod yn berson 'addas a phriodol'. Ailadroddir y gwiriadau hyn i ddeiliaid trwyddedau cerbyd bob blwyddyn. Yr ymgeisydd/deiliad y drwydded fydd yn talu cost y gwiriadau hyn.

Ni fydd gofyn i ymgeiswyr sydd eisoes â thrwydded gyrrwr cerbyd hacni neu hurio preifat gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded cerbyd hacni/hurio preifat.

Er mwyn helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadw mewn cof '*Ganllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat' Ebrill 2018* y Sefydliad Trwyddedu. Mae manylion am y canllaw yn **atodiad 2**.

Ni fydd troseddau gyrru fel arfer yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad i ddeiliaid trwyddedau cerbyd.

Ni fydd gwybodaeth sydd mewn Gwiriad Lefel Uwch GDG na fyddai'n cael ei ddatgelu ar wiriad sylfaenol yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad am drwydded cerbyd.

## Gwiriad Cofnod Troseddol Tramor

Bydd angen i bob ymgeisydd am drwydded cerbyd hacni neu CHP ac sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn ddi-dor y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers eu degfed pen-blwydd roi i'r Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hwy sydd yn ymdrin â'r cyfnod yr oedd yr ymgeisydd dramor.

Yr ymgeisydd fydd yn gorfod talu costau unrhyw wiriadau o'r fath.

I ddinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU) dylai gwiriadau addas fod ar gael. I'r gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael, bydd ar yr Awdurdod Trwyddedu angen tystysgrif ymddygiad da wedi ei dilysu gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif fod wedi ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o nifer o wledydd ar gael o: **GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants**.

Os na all ymgeisydd gael tystysgrif ymddygiad da, ni ddylai fwrw ymlaen â'i gais a dylai gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu am fwy o wybodaeth.

Rhaid bod wedi cael gwiriadau hanes troseddol tramor o fewn y cyfnod o 6 mis cyn gwneud y cais.

Bydd yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gael unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da  fydd gan yr ymgeisydd waeth beth fydd oed y ddogfen.

Bydd angen i Dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith ar wahan i'r Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar gost yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a rhaid gwirio'r cyfieithiad.

## Gwneuthuriad Cyffredinol y Cerbyd

Rhaid i bob cerbyd a ystyrir ar gyfer ei drwyddedu gydymffurfio â'r isod:

a. Pob agwedd o ofynion y Rheoliadau Cerbydau Modur (Cymeradwyo math) 1980

b. Rheoliadau Cerbydau Modur (Cymeradwyo Math) (Prydain Fawr 1984).

c. Rheoliadau Cerbydau Modur (Cymeradwyo Math y GE) 1998 a chydag unrhyw ddeddfwriaeth genedlaethol neu ryngwladol bellach a all fod yn gymwys.

d. Rheoliadau Cerbydau'r Ffordd (Gwneuthuriad a Defnydd) 1986 (G & D).

e. Pob agwedd o reoliadau cerbydau Prydeinig ac Ewropeaidd a bod o 'fath wedi ei gymeradwyo' yn ôl gofynion **categori M1** Cyfarwyddeb Cymeradwyo Math Cyfan y Gymuned Ewropeaidd 2007/46/EC fel y'i diwygiwyd.
http://www.dft.gov.uk/vca/vehicletype/index.asp

f. Yn niffyg Cymeradwyaeth Math Cyfan y Gymuned Ewropeaidd, neu os addaswyd cerbyd mewn unrhyw ffordd ers ei wneud, gall cerbydau gael eu hystyried ar gyfer eu trwyddedu sydd:

â chategori Cymeradwyaeth Math Cyfres Fechan Genedlaethol a nas newidiwyd ers cymeradwyo'r math. Cymeradwyaeth Math Cyfres Fechan Genedlaethol <http://www.dft.gov.uk/vca/vehicletype/index.asp>.

## Addasiadau/cyfarpar ychwanegol

Ni ellir gwneud unrhyw addasiad i'r cerbyd na ffitio cyfarpar ychwanegol heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod trwyddedu. Gyda chais ysgrifenedig yn esbonio'n llawn natur yr addasiad neu'r cyfarpar, rhaid rhoi'r wybodaeth briodol a chadarnhad gan wneuthurwr y cerbyd na fydd yr addasiad/cyfarpar yn peryglu diogelwch na manyleb y cerbyd.

## Manyleb y cerbyd

Er mwyn sicrhau diogelwch a chysur y cyhoedd sy'n teithio, gosododd yr awdurdod trwyddedu isafswm manyleb i gerbydau trwyddedig y mae'n rhaid ei gwrdd cyn y gellir trwyddedu cerbyd. Mae manyleb Cerbyd Hacni yn **Atodiad 10**, a'r fanyleb am gerbydau hurio preifat yn **Atodiad 11.**

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gynhwysiant cymdeithasol ac er mwyn sicrhau hynny, fod amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gael i drigolion anabl fel y gallant fwynhau ansawdd bywyd uchel. Mae'n llwyr gefnogi barn y Comisiwn Hawliau Anabledd fod:

"G*wneud siwrneiau llwyddiannus yn hanfodol i gynhwysiant cymdeithasol pobl anabl. Heb y gallu i deithio, ni all pobl anabl gyrchu cyfleoedd mewn bywyd. Mae eu mynediad at addysg, siopa, gwaith, gofal iechyd yn ogystal â bywyd cymdeithasol a theuluol yn cael ei wella'n sylweddol pan fydd siwrneiau yn hygyrch."*

Oherwydd hyn, mae'r Cyngor yn ei hystyried yn bwysig i drigolion anabl allu cyrchu pob math o gludiant cyhoeddus. Yn ychwanegol at yr amodau cyffredinol, mae hygyrchedd i bobl anabl gan gynnwys pobl sydd yn gorfod teithio mewn cadair olwyn, ond nid hwy yn unig, yn ystyriaeth bwysig.

Dylai ystyriaethau hygyrchedd gwahanol fod yn gymwys i Gerbydau Hacni yn hytrach na cherbydau Hurio Preifat. Mae hyn oherwydd bod modd hurio Cerbydau Hacni yn syth yn y stryd neu ar stand Cerbyd Hacni gan y cwsmer sy'n delio'n uniongyrchol â gyrrwr, tra gellir defnyddio cerbydau Hurio Preifat yn unig trwy archebu ymlaen llaw, trwy weithredwr. Ar y sail bod yn rhaid i bobl ag anableddau allu cael yr un mynediad at wasanaethau cludiant, ystyrir ei bod yn arbennig o bwysig i berson anabl allu hurio Cerbyd Hacni yn y fan a'r lle heb fawr ddim oedi nac anghyfleustra, ac y mae gallu cael Cerbydau Hacni hygyrch yn helpu i wneud hynny'n bosib.

O ganlyniad, o fis Ebrill 2007 ymlaen, penderfynodd y Cyngor y byddai ond yn trwyddedu fel Cerbydau Hacni gerbydau "dull Llundain" a Adeiladwyd i Bwrpas sy'n hollol hygyrch i gadeiriau olwyn. Rhaid i'r Cerbyd Hacni fod yn hygyrch yn ddiogel i berson anabl mewn cadair olwyn a rhaid iddo allu cludo'r unigolyn yn ddiogel ac yn rhesymol gysurus tra bydd yn ei ch/gadair olwyn.  Gall y gadair olwyn fynd i mewn naill ai o ochr y cerbyd neu'r cefn. Rhaid i'r cerbyd gydymffurfio â rheoliadau cerbydau Prydeinig ac Ewropeaidd, bod o fath a gymeradwywyd i safon cerbyd-cyfan M1, categori M1 Math Cyfres Fechan Genedlaethol  (Cyfaint Isel), a heb fod wedi ei newid ers i'r math gael ei gymeradwyo.

## Amodau Trwydded y Cerbyd

Mae gan yr awdurdod trwyddedu y grym i osod amodau y tybia sy'n rhesymol angenrheidiol yng nghyswllt caniatau trwydded cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat.

Mae manylion amodau'r drwydded yng nghyswllt cerbydau hacni yn **Atodiad 12** ac amodau trwydded cerbydau hurio preifat yn **Atodiad 13.**

## Hyd y Drwydded

Bydd y Cyngor yn rhoi Trwyddedau Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat am gyfnod o 12 mis. Mae gan yr Awdurdod y grym i osod amodau ar drwyddedau Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

## Oed y Cerbyd

Mae Canllawiau blaenorol yr Adran Drafnidiaeth yn atgoffa Awdurdodau Trwyddedu ei bod yn berffaith bosib i gerbyd hŷn fod mewn cyflwr da, ac y gall gosod terfyn oed na fyddant yn trwyddedu cerbydau y tu hwnt iddo fod yn fympwyol ac anghymesur. Serch hynny, derbynnir y gall profi'n amlach fod yn briodol i gerbydau hŷn; er enghraifft, profion ddwywaith y flwyddyn i gerbydau sydd dros bum mlwydd oed.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y cyngor a roddir gan yr Adran Drafnidiaeth, ac ar hyn o bryd, nid yw'n bwriadu gosod unrhyw gyfyngiadau oed llym am gerbydau trwyddedig. Fodd bynnag, unwaith y bydd cerbyd yn 15 mlwydd oed, bydd yn rhaid ei archwilio gan yr Awdurdod Trwyddedu ynghyd â chael prawf cerbyd y Cyngor, i bennu a yw'r cerbyd yn addas i'w drwyddedu neu ai ail-drwyddedu ai peidio.

## Allyriadau'r Cerbyd / Polisi Amgylcheddol

Mae canllaw blaenorol yr Adran Drafnidiaeth yn gofyn i Awdurdodau Trwyddedu ystyried i ba raddau y gall ac y dylai eu Polisïau Trwyddedu gefnogi unrhyw bolisïau amgylcheddol lleol y gallasant fod wedi eu mabwysiadu, gan gadw mewn cof yr angen i sicrhau bod y buddion yn gorbwyso'r costau.

Nod y Cyngor yw sicrhau y bydd Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat yn helpu mewn modd addas i wella ansawdd aer; mae'r Cyngor felly wedi mabwysiadu'r safonau allyriadau canlynol i Gerbydau Hacni a Hurio Preifat.

- Rhoddir trwyddedau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat newydd a rhai a drosglwyddwyd yn unig i gerbydau sy'n cwrdd â Safon Euro 6, oni fydd y cerbyd yn ateb polisi hygyrchedd cadeiriau olwyn yr awdurdod, sy'n golygu bod yn rhaid i'r cerbyd gwrdd â'r safon is, Euro 5.

  Caniateir i gerbydau a drwyddedwyd cyn cyflwyno'r Polisi hwn i gymryd lle cerbyd ar drwydded sy'n bodoli eisoes cyhyd â bod y cerbyd yn cwrdd â safon Euro 5.

| Safon Euro | Dyddiad cyflwyno’r safon |
|---|---|
| Euro 2 | Ionawr 1996 |
| Euro 3 | 1 Ionawr 2000 tan 31 Rhagfyr 2004 |
| Euro 4 | 1 Ionawr 2005 tan 31 Awst 2009 |
| Euro 5 | 1 Medi 2009 tan 31 Awst 2014 |
| Euro 6 | 1 Medi 2014 |

Mae’n bwysig hefyd nodi bod rhai gwneuthurwyr cerbydau wedi cyflwyno’r Cyfraddau Euro i’w cerbydau cyn y dyddiadau uchod. Mae manylion cyfraddau Euro ar lyfr log V5 neu V5C cerbydau)

- Dylid nodi, o 1 Ionawr 2027 ymlaen, y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhoi trwyddedau cerbyd “**newydd sbon neu Drosglwyddedig”** yn unig os yw’r cerbyd yn un trydan llawn, neu wedi ei bweru â hydrogen neu unrhyw danwydd adnewyddol arall a gymeradwywyd gan yr Awdurdod Trwyddedu. Rhagwelir y bydd gofyn i bob Cerbyd Hacni a Cherbyd Hurio Preifat fod yn rhai trydan neu yn rhedeg ar danwydd adnewyddol a gymeradwywyd erbyn tua 2030 yn unol â strategaethau’r Llywodraeth.

  Brasamcan o’r dyddiad yw 2030, yn amlwg ond mae’n bwysig gwneud hyn yn glir i’r fasnach fel y gallant baratoi cynlluniau busnes tymor hir i gyd-fynd â thacsis mwy “gwyrdd”.

## Profi’r Cerbyd ac Amlder Profi’r Cerbyd

Felly, cynigir y gofynion canlynol o ran profi:

1. Caiff Cerbydau Hacni a Hurio Preifat heb fod dros 5 oed (o ddyddiad eu cofrestru gyntaf) eu profi'n flynyddol, ac o basio'r prawf, cânt drwydded cerbyd fydd mewn grym am 12 mis/1 flwyddyn.*

2. Caiff Cerbydau Hacni a Hurio Preifat hŷn na 5 oed (o ddyddiad eu cofrestru gyntaf) drwydded 12 mis/blynyddol (er y caiff y cerbyd drwydded am 12 mis, bydd gofyn iddo basio prawf cerbydau'r Cyngor cyn i 6 mis ers dyddiad rhoi'r drwydded 12mis/blynyddol.) Os bydd perchenogion yn methu â chyflwyno'r cerbyd i'w brofi cyn i 6 mis fynd heibio, atelir trwydded eu cerbyd yn syth gan yr Awdurdod Trwyddedu a bydd y cyfryw atal yn dal mewn grym hyd nes i'r cerbyd lwyddo i basio prawf y Cyngor *
.

(Gall cerbydau gael eu profi 31 diwrnod cyn dyddiad y cyfnod o 6 mis)

**(Mewn achosion lle bo gan y Perchennog hanes gwael o gynnal cerbydau, gall y Rheolwr Trwyddedu benderfynu bod angen i gerbyd(au) a drwyddedir sy'n eiddo i'r perchennog hwnnw gael ei brofi/eu profi bob chwarter. Cyn rhoi'r amod hwn ar waith, rhoddir rhybudd ysgrifenedig a chynhelir cyfarfod cyfryngu rhwng y Perchennog a'r Rheolwr Trwyddedu/Swyddog Trwyddedu.)*

3. Mae profion cerbydau ar hyn o bryd yn cael eu trefnu trwy orsaf brofi leol enwebedig, lle rhoddir prawf ar gydymffurfio â gofynion, a chadarnhau hyn trwy roi tystysgrif. Mae gan unrhyw Swyddog awdurdodedig o'r Cyngor neu unrhyw Gwnstabl y pŵer ar unrhyw adeg resymol i archwilio a phrofi er mwyn canfod addasrwydd unrhyw Gerbyd Hacni neu gerbyd Hurio Preifat a drwyddedwyd gan y Cyngor. Os teimla'r Swyddog nad yw'r cerbyd yn addas i'w ddefnyddio fel Cerbyd Hacni neu Gerbyd Hurio Preifat, neu nad yw'r cerbyd yn cydymffurfio â Deddfwriaeth Tacsis neu Bolisi ac Amodau Trwyddedu'r Cyngor, gall trwydded y cerbyd' gael ei atal, ei ddiddymu neu beidio â'i adnewyddu. Gall y Swyddog Trwyddedu gyfeirio achosion diddymu ac adnewyddu at y Panel trwyddedu er mwyn pennu a yw'r cerbyd yn addas at y diben. Dylid nodi na fydd perchenogion sydd yn fwriadol yn gorchuddio breciau/partiau symudol etc. gyda chynnyrch tan-selio, cynnyrch tebyg neu unrhyw ddull arall i atal gwirio rhannau o'r cerbyd, yn pasio prawf cerbydau'r Cyngor.

## Yswiriant

Mae angen tystysgrifau yswiriant yn unol â'r gofynion isod:

- Rhaid i'r cerbyd fod â thystysgrif yswiriant ddilys am hurio a thâl yng nghyswllt Cerbydau Hacni, and hurio preifat a thâl yng nghyswllt cerbydau hurio preifat.
- Gyda thystysgrifau yswiriant neu nodiadau diogelu a roddwyd am "unrhyw gerbyd" neu "unrhyw yrrwr" rhaid cael atodlen yn dangos yr holl

gerbydau a'r gyrwyr sy'n dod dan yr yswiriant fel y manylir arnynt yn y dystysgrif yswiriant.

- O ran cerbyd trwyddedig, os metha perchennog a chyflwyno i'r Cyngor dystysgrif yswiriant ddilys pan gaiff gais i wneud hynny, gall yr awdurdod trwyddedu atal y drwydded a mynnu bod perchennog y cerbyd hacni neu'r Cerbyd Hurio Preifat hwnnw yn dychwelyd yr holl blatiau at yr awdurdod trwyddedu yn amodol ar unrhyw gyfnod apêl.

## Tystysgrif Gofrestru V5

Mae'r awdurdod trwyddedu yn derbyn na fydd tystysgrif gofrestru V5 lawn yn enw'r perchennog newydd yn wastad ar gael pan drwyddedir am y tro cyntaf ; fodd bynnag, rhaid dangos adran werdd V5/2 y ffurflen V5 a phrawf o brynu. Lle bo modd, dylid cael copi llawn o dystysgrif gofrestru V5 y perchennog blaenorol, a'i chyflwyno gydag adran werdd y V5/2.

Rhaid dangos tystysgrif gofrestru V5 lawn a phrawf o brynu pan drosglwyddir trwydded cerbyd. Lle bo modd, dylid cael copi llawn o dystysgrif gofrestru V5 y perchennog blaenorol a'i chyflwyno gydag adran werdd y V5.

Lle cynhyrchwyd yr adran werdd pan drwyddedwyd y cerbyd am y tro cyntaf, rhaid dangos tystysgrif gofrestru V5 lawn yn enw'r perchennog newydd i'r Cyngor ymhen 7 diwrnod calendr o dderbyn y ffurflen gan berchennog y cerbyd.

## Adrodd am Ddamweiniau

Yn unol ag Adran 50(3) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1976, dylid rhoi adroddiad am unrhyw ddamwain i gerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat a achosodd ddifrod a effeithiodd yn sylweddol ar:

(i) ddiogelwch, perfformiad neu olwg y cerbyd, neu
(ii) gysur neu hwylustod y teithwyr,

wrth yr awdurdod trwyddedu cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, a sut bynnag ymhen **saithdeg dwy (72) awr** o'r amser y digwyddodd y ddamwain.

Yn dilyn damwain neu ddifrod i gerbyd trwyddedig, os mai bwriad y perchennog neu'r gweithredwr yw parhau â'r defnydd trwyddedig, rhaid i'r cerbyd gael ei archwilio'n syth yng nghyfleuster profi enwebedig yr awdurdod trwyddedu i bennu a yw'n addas i barhau ei ddefnyddio. Cyfrifoldeb deiliad y drwydded yw hysbysu'r awdurdod trwyddedu y bodlonwyd y gofyniad hwn. Os bydd cyfleuster profi enwebedig yr awdurdod trwyddedu yn pennu bod y cerbyd yn addas i barhau i gael ei ddefnyddio, rhaid cytuno gyda Swyddog awdurdodedig o'r awdurdod trwyddedu ar yr amserlen am waith trwsio cosmetig.

Gall yr awdurdod trwyddedu atal y defnydd o gerbyd trwyddedig hyd nes ei fod wedi ei drwsio'n addas ac yn cydymffurfio â gofynion profi yr awdurdod trwyddedu.

Gall cerbyd trwyddedig a ddioddefodd ddifrod mawr mewn damwain neu sydd angen gwaith trwsio mecanyddol sylweddol gael ei amnewid dros dro gan gerbyd llog, ar yr amodau isod:

(i) yr adroddwyd am y difrod i'r cerbyd, neu ddiffyg ynddo, wrth yr awdurdod trwyddedu,
(ii) y gwneir cais yn y dull a ragnodwyd am drwydded cerbyd dros dro,
(iii) fod y cerbyd a roddwyd yn ei le yn ateb gofynion y Polisi hwn, a'i fod yn addas i'w ddefnyddio at ddibenion hurio.

## Prisiau

Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn gosod uchafswm cyfradd y prisiau y gellir eu codi am siwrneiau cerbyd hacni sy'n digwydd yn ardal yr awdurdod lleol. Rhaid arddangos copi ym mhob cerbyd.

Mae'n drosedd codi mwy na'r tâl ar y mesurydd am siwrneiau sy'n dechrau ac yn diweddu yn ardal yr awdurdod lleol. Gellir codi ffî is na'r tâl a ddangosir ar y mesurydd, ond ni ellir fyth codi mwy.

Gall gyrwyr sy'n gwneud siwrneiau sy'n dechrau neu'n diweddu y tu allan i ffin yr awdurdod lleol gytuno ar dâl gyda'r teithiwr cyn i'r siwrne gychwyn, neu gallant ddewis defnyddio cloc y tacsi.

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu o bryd i'w gilydd yn adolygu'r tabl prisiau. Bydd unrhyw newidiadau yn destun proses o ymgynghori â'r cyhoedd.

Gall cynrychiolwyr y fasnach cerbydau hacni wneud cais i'r Awdurdod Trwyddedu i ystyried newid i'r tabl taliadau.

Ni all yr awdurdod lleol osod taliadau am gerbydau hurio preifat. Yr arfer gorau fyddai cytuno ar y tâl cyn dechrau'r daith gyda'r Gweithredwr Hurio Preifat.

Os bydd y teithiwr yn gofyn, rhaid i yrwyr ddarparu derbynebion ysgrifenedig am bob tâl a dalwyd. Rhaid i'r dderbynneb gynnwys y wybodaeth a ganlyn: -

- y tâl a ddangoswyd ac a weithiwyd allan gan y mesurydd, ynghyd â thaliadau eraill a gymeradwywyd yn unol â'r siart taliadau
- rhif trwydded y cerbyd

Nid oes rhaid cynhyrchu derbynneb ffisegol Yr ydym yn derbyn, lle gall technoleg wneud hyn, fod llawer o deithwyr yn hapus i dderbynneb gael ei anfon trwy destun neu e-bost. Fodd bynnag, dylai'r modd i allu argraffu derbynneb fod yn wastad ar gael.

## Clociau Tacsi

Mae i 'gloc tacsi' yr un ystyr ag yn Adran 80 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol)1976, sef:

*'…unrhyw ddyfais i weithio allan y tâl a godir am unrhyw siwrne mewn cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat trwy gyfeirio at y pellter a deithiwyd neu'r amser a aeth heibio ers dechrau'r daith, neu gyfuniad o'r ddau;'*

**Rhaid** gosod Clociau Tacsi ar bob Cerbyd Hacni ac fe **ellir** eu gosod ar gerbydau hurio preifat.

Lle mae cloc tacsi wedi ei osod, rhaid iddo gadw at yr amodau isod:

- Cydymffurfio'n llawn â Rheoliadau Offerynnau Mesur (Clociau Tacsi) 2006 a chael ei ardystio'n llawn gan gorff a hysbyswyd yn unol â'r Gyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID) (2004/22/EC), yn benodol Atodiad 007.
- Yn achos tacsis, eu ffitio â dyfais y bydd ei defnyddio/throi ymlaen yn rhoi'r cloc tacsi ar waith ac yn peri i'r gair 'HIRED' ymddangos ar wyneb y cloc, a rhaid i ddyfais o'r fath allu cael ei chloi fel nad yw mecanwaith y cloc tacsi ar waith ac na chofnodir unrhyw dâl ar wyneb y cloc tacsi;
- Yn achos tacsis, eu graddnodi yn erbyn safon briodol er mwyn sicrhau nad yw'r tâl a godir yn uwch nag uchafswm y taliadau a bennir gan yr awdurdod trwyddedu.
- Wedi eu rheoli â chalendr.
- Wedi ei gosod ar y cerbyd gyda seliau/teclynnau priodol sy'n atal unrhyw un rhag ymyrryd â'r mesurydd ac eithrio trwy dorri, difrodi'r seliau/teclynnau neu eu symud yn barhaol.
- Bod â'r gair 'FARE' wedi ei brintio ar wyneb y mesurydd mewn llythrennau plaen fel ei bod yn amlwg yn cyfeirio at y tâl a gofnodwyd arno; ac
- Wedi ei gefnogi gan dystysgrif/adroddiad am gydymffurfio a gyhoeddwyd trwy gloc tacsi a gymeradwywyd gan yr awdurdod trwyddedu (bydd yr awdurdod trwyddedu ond yn derbyn tystysgrif a gyhoeddwyd yn ystod y 10 diwrnod gwaith a aeth heibio).
- Yng nghyswllt tacsi, os digwydd i berchennog fethu â rhoi i'r awdurdod trwyddedu dystysgrif/adroddiad cydymffurfio dilys (oni chafodd ei oedi neu ei atal am reswm a dderbyniwyd ac y cytunwyd arno gan yr awdurdod trwyddedu), gall yr awdurdod trwyddedu atal y drwydded a mynnu bod perchennog y tacsi hwnnw yn dychwelyd yr holl blatiau i'r awdurdod trwyddedu yn amodol ar unrhyw gyfnod apêl.

## Mesuryddion GPS/systemau rheoli ac anfon

Mae ‘mesuryddion’ GPS yn defnyddio systemau safleoli byd-eang (GPS) yn hytrach na’r dull ‘curiad’ a ddefnyddir gan glociau tacsi safonol i weithio allan bellteroedd. Nid yw mesuryddion GPS ar hyn o bryd yn cydymffurfio â’r Gyfarwyddeb Offerynnau Mesur (MID) (2004/22/EC) ar glociau tacsi, ac o’r herwydd ni ellir eu defnyddio fel dewis arall yn lle cloc tacsi curiad traddodiadol mewn Cerbydau Hacni trwyddedig.

Caniateir denfyddio mesuryddion GPS, a systemau anfon/rheoli mewn tacsis a cherbydau hurio preifat; fodd bynnag, mewn Cerbyd Hacni, ni ddylai gymryd lle’r cloc tacsi a gymeradwywyd ac ni ddylai guddio’r cloc tacsi na thynnu sylw oddi wrth yr hyn a ddangosir arno. Rhaid gwneud yn glir i deithwyr fod y tâl a delir ganddynt yn cael ei arddangos ar y cloc tacsi a gymeradwywyd. I osgoi unrhyw ddryswch i deithwyr, rhaid i unrhyw dâl a arddangosir ar y system GPS fod wedi ei guddio o olwg y teithiwr.

Rhaid i unrhyw system GPS gael ei gosod yn unol â chyfarwyddiadau’r gwneuthurwr.

## Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CTCC)

Mae diogelwch i yrwyr a theithwyr yn hollbwysig, a gall camerâu CTCC mewn cerbydau fod yn atalydd gwerthfawr.

Nid yw’r awdurdod trwyddedu hwn wedi dweud fod defnyddio CTCC mewn cerbydau trwyddedig yn orfodol; serch hynny, maent yn cydnabod y budd i yrwyr a theithwyr fel ei gilydd, ac yn argymell yn gryf y dylai gyrwyr gael CTCC yn eu cerbydau. Efallai y bydd mwy o ymgynghori yn y dyfodol ar orfodi defnyddio CTCC, ond yn y cyfamser, bydd yr awdurdod trwyddedu yn caniatau defnyddio systemau CTCC ar sail wirfoddol.

Rhaid i berchenogion sydd yn penderfynu gosod systemau CTCC yn eu cerbydau sicrhau eu bod yn cydymffurfio’n llawn â Pholisi CTCC yr Awdurdod Trwyddedu a welir yn **Atodiad 18.**

## Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (Dash Cam)

Mae’r awdurdod trwyddedu yn caniatau defnyddio systemau SFPG mewn cerbydau hacni a cherbydau hurio preifat. Rhaid i berchennog unrhyw gerbyd lle mae system SFPG wedi ei gosod gydymffurfio â’r amodau a osodir allan yn **Atodiad 19.**

## Eiddo Coll

Rhaid i yrrwr y cerbyd fwrw golwg yn ofalus ar derfyn pob cyfnod hurio, neu mor fuan ag sy’n ymarferol wedi hynny, i weld a adawyd unrhyw eiddo personol yn y cerbyd.

O fewn 48 awr o ddod o hyd i eiddo coll, rhaid i’r gyrrwr naill ai fynd â’r eitem(au) i orsaf heddlu neu roi adroddiad am yr eiddo coll trwy ddefnyddio systemau ffôn neu ar-lein yr Heddlu.

## Lifrai ac Arwyddion

Nid yw rhai aelodau o’r cyhoedd yn gwahaniaethu rhwng Cerbydau Hurio Preifat a Cherbydau Hacni, ac nid ydynt yn sylweddoli na yw cerbydau Hurio Preifat ar gael i’w hurio yn y fan a’r lle ac na ellir eu galw ar y stryd. Mae’n bwysig, felly, i’r cyhoedd allu gwahaniaethu’r rhwydd rhwng y ddau fath o gerbyd. Mae creu lifrai amlwg a phenodol i Gerbydau Hacni yn helpu i ddatrys yr anhawster hwn.

Nid yw arwyddion ar do cerbydau Hurio Preifat yn cael eu hystyried fel yr arfer gorau hyd yn oed os ydynt yn dangos ‘archebu ymlaen llaw yn unig’. Y rheswm am hyn yw y gall rhywun dybio mai cerbyd Hacni yw un ag arwydd ar y to gan eu bod hwythau hefyd ag arwydd ar y to.

Mae cerbydau a drwyddedir gan Gyngor Dinas Casnewydd, yn Gerbydau Hacni a Hurio Preifat, yn gorfod arddangos plât adnabod 'Cyngor' ar gefn y cerbyd ac arwyddion wedi eu glynu ar ddau ddrws blaen y cerbydau. Ar hyn o bryd, mae’r arwyddion sydd i’w glynu ar ddrysau yn grwn ac o liw gwyrdd yn bennaf i Gerbydau Hacni ac ar ffurf triongl ac yn felyn yn bennaf i Gerbydau Hurio Preifat. Bwriedir parhau i ddefnyddio’r lliwiau hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau fath gwahanol o gerbyd.

O 1 Mehefin 2001 ymlaen, yr oedd gofyn i Gerbydau Hacni fod yn ddu, neu o liw a gymeradwywyd gan y Cyngor.  Gall cerbydau Hurio Preifat fod yn unrhyw liw onid yw’r cerbyd o’r un dyluniad a golwg â cherbydau a “Adeiladwyd i Bwrpas” sydd wedi eu trwyddedu ar gyfer y fasnach Cerbydau Hacni yng Nghasnewydd. Ni chaiff cerbydau sy’n debyg o ran golwg a lliw i gerbydau a “Adeiladwyd i Bwrpas neu Gerbydau Hacni a gymeradwywyd" eu trwyddedu fel cerbydau Hurio Preifat er mwyn osgoi unrhyw ddryswch rhwng Cerbyd Hurio Preifat a Cherbyd Hacni.

Rhaid i Gerbydau Hacni a drwyddedwyd gan y Cyngor fod ag arwydd wedi ei oleuo ar y to. Rhaid i’r arwydd ar y to ddynodi Tacsi a rhaid iddo fod wedi ei oleuo pan fydd ar gael i’w hurio.

Rhaid i Gerbydau Hacni lynu ar y ddau ddrws blaen arwyddion cydnabyddedig a ddarparwyd yn unig gan y  Cyngor a rhaid eu gosod yn yr orsaf brofi a gymeradwywyd. Mae dyluniad (lifrai) yr arwyddion i’w weld yn Atodiad 20.

## Hysbysebu

Ni cheir arddangos unrhyw arwyddion na hysbysebion ar gerbydau trwyddedig heb ganiatâd ysgrifenedig blaenorol yr awdurdod trwyddedu.

Lle rhoddwyd caniatâd ysgrifenedig, caniateir hysbysebu ar gerbydau hacni yn unig yn unol â’r polisi hysbysebu.

Rhaid i bob hysbyseb gydymffurfio â gofynion y Cyngor Safonau Hysbysebu ym mhob mater sy’n ymwneud a chwaeth, o ran cynnwys a golwg, ac ni ddylent ymwneud â

materion cysylltiedig â thybaco, hapchwarae, alcohol, gwleidyddiaeth, crefydd, materion o natur rywiol, nac unrhyw gynnwys arall sy'n debygol o beri tramgwydd.

## Taliadau â Cherdyn

Gall cerbydau trwyddedig gael eu ffitio â dyfais talu â chardiau credyd a debyd. Rhaid i'r ddyfais allu cynhyrchu derbynneb wedi ei phrintio.

Lle bo cerbyd wedi ei ffitio â dyfais thalu â chardiau, rhaid arddangos dau arwydd dwyochrog, naill ai yn nodi logos cwmnïau cardiau neu arwydd dwyieithog (Cymraeg a Saesneg) yn nodi 'Mae'r cerbyd trwyddedig hwn yn awr yn derbyn taliadau â chardiau credyd a debyd gan gynnwys digyswllt.'

Rhaid i'r arwydd fod wedi ei osod ar ben uchaf ochrau mewnol dwy ffenestr y teithiwr.

Os cyfyd problem gyda thaliad cerdyn, dylai'r gyrrwr ddilyn y cyngor isod:

- Gofyn i'r teithiwr drio'r cerdyn talu eto
- Os bydd y broblem yn parhau, gofyn i'r teithiwr a oes ganddo/i gerdyn arall neu arian parod
- Cynnig mynd â
- 'r teithiwr at yr ATM agosaf (twll yn y wal)
- Os bydd y teithiwr yn gwrthod talu, ystyried galw'r heddlu.

Dylai gyrwyr wneud yn siwr fod eu system talu â cherdyn yn gweithio cyn iddynt gychwyn ar eu gwaith, gan gynnwys gwneud yn siwr y gall brintio derbynebion.

Gall taliadau â cherdyn a wneir trwy ddarparu systemau apiau Gweithredwyr Hurio Preifat hefyd gael eu defnyddio gan deithiwr. Dylid nodi, os yw Gweithredwr Hurio Preifat yn cynnig systemau o'r fath, mai mater i'r teithiwr, nid y gyrrwr, fydd dewis defnyddio arian parod, ap, neu system talu â cherdyn.

## Hygyrchedd

Rhaid i gerbydau a ddynodwyd fel rhai hygyrch i gadeiriau olwyn (CHGA) allu hwyluso cludo pobl anabl a bod â lle i berson anabl mewn cadair olwyn(*y cyfeirir ati) yn rhan y teithiwr o'r cerbyd.

*Diffinnir cadair olwyn y cyfeirir ati yn Atodlen 1 Rheoliadau Hygyrchedd Cerbydau Gwasanaethau Cyhoeddus 2000.

http://www.legislation.gov.uk/uksi/2000/1970/schedule/1/made

Mae Adran 167 Deddf Cydraddoldeb 2010 yn caniatau i Awdurdodau Lleol gynnal rhestr ddynodedig o gerbydau sy'n hygyrch i gadeiriau olwyn. Cymerodd yr awdurdod trwyddedu hwn y penderfyniad i gynnal rhestr o'r fath, ac fe'i cyhoeddir ar wefan yr awdurdod trwyddedu.

Mae gan berchenogion gyfrifoldeb i sicrhau bod unrhyw yrrwr trwyddedig sy'n gyrru un o'u cerbydau hygyrch i gadeiriau olwyn yn ymwybodol o'i d/ddyletswyddau parthed cludo pobl anabl mewn cadeiriau olwyn pan fydd yn gyrru cerbyd hygyrch i gadeiriau olwyn.

Rhaid i berchennog cerbyd trwyddedig hygyrch i gadeiriau olwyn ddangos i bob gyrrwr sy'n gyrru'r cerbyd sut i gynorthwyo teithiwr mewn cadair olwyn i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd a gwneud yn gadair olwyn yn sownd a diogel yn y cerbyd. Bydd hyn yn cynnwys dangos i'r gyrrwr sut i ddefnyddio'r ramp(iau) a sut i ddefnyddio ac addasu'r strapiau cyfyngu. Rhaid i'r perchennog gadw cofnod o'r arddangos hwn a chynnwys y canlynol:

a. Dyddiad yr arddnagos
b. Enw a rhif trwydded y gyrrwr
c. Cydnabyddiaeth wedi'i lofnodi a'i ddyddio gan y gyrrwr fod yr arddnagos wedi digwydd a'i fod ef/hi yn deall yn glir sut i gludo teithiwr mewn cadair olwyn yn y cerbyd

Rhaid i'r perchennog gadw'r cofnod hwn cyhyd ag y bydd y gyrrwr yn defnyddio'r cerbyd. Os bydd y gyrrwr yn rhentu'r cerbyd eto yn y dyfodol, rhaid i'r perchennog ail-adrodd yr arddnagos a'r cofnod.

Os mai'r perchennog yw gyrrwr trwyddedig y cerbyd hefyd, bydd y perchennog yn cofnodi cydnabyddiaeth wedi'i lofnodi i ardystio y gall ddilyn cyfarwyddiadau gwneuthurwr y cerbyd am sut i gludo teithiwr mewn cadair olwyn yn ddiogel i mewn ac allan o'r cerbyd a sut i wneud y gadair olwyn yn ddiogel.

## Amodau Trwydded Cerbyd Hacni

Mae gan yr awdurdod trwyddedu y pwer i osod y cyfryw amodau ar drwydded cerbyd hacni ag yr ystyria'n rhesymol, angenrheidiol a chymesur. Mae manylion amodau'r drwydded yn **Atodiad 22.**

## Amodau Trwydded Cerbyd Hurio Preifat

Mae gan yr awdurdod trwyddedu y pwer i osod y cyfryw amodau ar drwydded cerbyd hurio preifat ag yr ystyria'n rhesymol, angenrheidiol a chymesur. Mae manylion amodau'r drwydded yn **Atodiad 23.**

## Llogi Arbennig (Hurio Preifat yn Unig)

Gall cerbydau a ddefnyddir yn unig i'w llogi yn arbennig gael eu heithrio o nifer o amodau safonol megis arddangos lifrai a phlât trwydded allanol.

Caiff cerbyd ei ystyried ar gyfer ei eithrio yn unig os bydd yn gwneud gwasanaeth arbennig i gontractau corfforaethol neu fusnes. Ni fydd proms/dyddiau ras na theithiau corfforaethol i feysydd awyr yn cael eu hystyried yn ddefnydd arbennig ac felly byddant yn dod dan amodau cerbyd hurio preifat safonol.

Mae'r math o waith a ystyrir yn 'llogi arbennig' yn cynnwys yr isod, ond nid hynny yn unig:

- Contractau busnes i fusnes yn unig, h.y., i gludo gweithwyr a chleientiaid ar siwrneiau cysylltiedig â busnes dan gontract ysgrifenedig i gwmni neu berson.
- Archebion ar gyfer rhai cleientiaid (er enghraifft, gwleidyddion ac enwogion) na fyddai, am resymau diogelwch neu ddiogelwch personol, am i'r cerbyd gael ei adnabod fel cerbyd hurio preifat.

Bydd y cerbyd, tu mewn a thu allan, o'r ansawdd uchaf oll o ran dyluniad a'r deunyddiau sydd ar gael, a dylai fod mewn cyflwr eithriadol.  Rhaid i'r trim ar gerbydau a ystyrir yn rhai 'arbennig' fod o'r fanyleb uchaf i fath penodol o gerbyd. Ymysg ystyriaethau perthnasol ynglŷn ag a yw cerbyd yn cwrdd â safon arbennig y mae cost, enw da, manyleb, golwg, canfyddiad, lefelau uwch o gysur a manyleb seddi, e.e., a yw'r cerbyd yn cynnig mwy o le i bob teithiwr o gymharu â cherbydau arferol, ond nid y rhain yw'r unig ystyriaethau.

Rhaid i unrhyw berchennog sydd am drwyddedu cerbyd i'w logi'n arbennig wneud cais i'r awdurdod trwyddedu yn rhoi cadarnhad gan ei weithredwr hurio preifat y defnyddir y cerbyd ar gyfer ei logi'n arbennig yn unig.

Rhaid i hysbysiad ysgrifenedig gan yr awdurdod trwyddedu sy'n nodi pa amodau trwydded cerbyd a eithriwyd gael ei gludo yn y cerbyd bob amser.

Rhaid i gerbydau a drwyddedwyd ar gyfer llogi arbennig gael eu gyrru gan yrrwr hurio preifat trwyddedig.

## Cerbydau Hurio Preifat Anarferol/i Ddigwyddiadau Arbennig gan gynnwys Limousines

Mae cerbydau hurio preifat anarferol yn cael eu trwyddedu yn unol â darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Ni ddylai cerbydau hurio preifat anarferol edrych fel cerbyd hacni a rhaid iddynt fod wedi eu cynllunio i gludo 8 neu lai o deithwyr.

Dylai perchenogion sydd am drwyddedu limousines gadw mewn cof 'Ganllaw Gweithredwyr Limousines Ymestynnol' VOSA (2011)

https://assets.publishing.service.gov.uk/government/uploads/system/uploads/attachment_data/file/147836/Guidance_for_Gweithredwyr_of_Stretch_Limousines__2_.pdf

Mae’r manylebion a’r amodau am limousines yn **Atodiad 24.**

Gall cerbydau anarferol megis ceir hynafol, injans tân wedi eu datgomisiynu, a rickshaws modur hefyd gael eu hystyried at ddefnydd hurio preifat. Mae’r manylebion a’r amodau am gerbydau o’r fath yn **Atodiad 24.**

## Darpariaethau ychwanegol ar gyfer Cerbydau Hacni yn unig:

## Cyfyngiadau ar Niferoedd

Mae gan awdurdodau trwyddedu y pwer i gyfyngu ar nifer y trwyddedau cerbyd hacni maent yn roi, ar yr amod eu bod yn fodlon nad oes galw sylweddol nas atebir am wasanaeth cerbydau hacni.

I asesu lefel y galw nas atebir yn yr ardal, dylai awdurdodau trwyddedu gomisiynu arolwg annibynnol. Yn unol â Chanllaw Arfer Gorau’r Adran Drafnidiaeth (https://www.gov.uk/government/publications/tacsi-and-private-hire-cerbyd-licensing-best-practice-guidance) lle mae cyfyngiadau ar niferoedd, dylid ailadrodd arolygon o leiaf bob 3 blynedd.

Penderfynodd Cyngor Dinas Casnewydd beidio â chyflwyno Cyfyngiadau ar Niferoedd

Nid yw’r ddeddfwriaeth ar hyn o bryd yn caniatau awdurdodau trwyddedu i osod cyfyngiadau ar niferoedd y trwyddedau cerbydau hurio preifat.

## Rhesi Tacsis (y cyfeirir atynt yn gyfreithiol fel standiau Cerbydau Hacni)

Nid yw’n ofyniad gorfodol ar yr awdurdod lleol i ddarparu rhesi i’r fasnach cerbyd hacni. Lle mae rhesi yn cael eu darparu, caiff lleoliad a defnydd y rhesi hyn eu hadolygu o bryd i’w gilydd gan yr awdurdod lleol ac adran Priffyrdd y Cyngor.

Bydd unrhyw newidiadau i resi presennol neu ychwanegu rhai newydd yn destun ymgynghori. Mae adran briffyrdd y Cyngor yn croesawu sylwadau ac awgrymiadau ynghylch lleoliad rhesi newydd.

Darperir rhesi tacsis i gerbydau hacni yn unig. Ni chaniateir i gerbydau hurio preifat aros, codi na gollwng teithwyr mewn rhesi tacsis dynodedig.

Mae gofyn i bob Cerbyd Hacni fod yn hygyrch i gadeiriau olwyn fel yr amlygwyd yn y Polisi ac yn amodau'r cerbyd.

# Gweithredwyr Hurio Preifat

## Proses ymgeisio

Pennir pob cais yn ôl ei haeddiant. Mae manylion y drefn o gael trwydded gweithredwr hurio preifat yn **Atodiad 26.**

## Hyd y Drwydded

Rhoddir trwyddedau gweithredu am gyfnod o 5 mlynedd; fodd bynnag, mae gan yr awdurdod trwyddedu ddisgresiwn i roi trwyddedau am gyfnod byrrach, os bydd yn ystyried bod hyn yn briodol i amgylchiadau'r achos.

## Cyfrifoldebau ac Addasrwydd/Priodoldeb y Gweithredwr

Mae'r gweithredwr yn gyfrifol am bob person (a cherbyd) a gyflogir, sydd dan gontract neu a ddefnyddir fel arall wrth redeg y busnes. I'r perwyl hwnnw, rhaid i'r gweithredwr gynnal gwiriadau digonol i'w b/fodloni ei hun mai dim ond gyrwyr, staff gweinyddol a cherbydau addas a ddefnyddir (ac y parheir i'w denfyddio) wrth redeg y busnes. Gall methiant gweithredwr i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal godi cwestiwn am addasrwydd a phriodoldeb y gweithredwr. Hefyd, gall methiant i gymryd y camau priodol yng nghyswllt gyrwyr sydd yn gyson yn torri amodau trwydded fod yn andwyol i barhad addasrwydd a phriodoldeb y gweithredwr.

Mae'r canlynol yn enghreifftiau o amgylchiadau a all effeithio ar addasrwydd a phriodoldeb gweithredwr Hurio Preifat:

- Gyrwyr trwyddedig neu berchenogion cerbydau yn gyson (naill ai'n unigol neu fel grŵp) yn torri amodau eu trwydded tra'n gweithio / dan gyfarwyddyd gweithredwr penodol.
- Rhedeg cerbydau sydd mewn cyflwr anaddas.
- Methiant ar ran y gweithredwr i ymdrin yn foddhaol â phryderon ynghylch gyrwyr trwyddedig / perchenogion cerbydau (gan gynnwys materion yn ymwneud a diogelu plant / oedolion).
- Cyflogi staff ategol lle na chwblhawyd gwiriad GDG sylfaenol ar yr unigolyn, neu lle gall canlyniad y cyfryw wiriad olygu risg i'r cyhoedd.
- Colli/camddefnyddio data personol.

Mae'r awdurdod trwyddedu yn disgwyl i weithredwyr trwyddedig gefnogi ei amcanion o godi ymwybyddiaeth o faterion diogelu plant ac oedolion, a mynd i'r afael ag unrhyw broblemau ynghylch hyn. Rhaid i weithredwyr fod yn effro i'r materion hyn a rhai tebyg; bydd methu â gwneud hyn yn codi cwestiynau am addasrwydd a phriodoldeb y gweithredwr.

Wrth asesu addasrwydd ymgeisydd i ddal trwydded gweithredwr hurio preifat, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried hanes troseddol ymgeiswyr yn ei gyfanrwydd, ynghyd â phob tystiolaeth a gwybodaeth berthnasol arall gan gynnwys eu hanes (e.e. cwynion a chanmoliaeth gan y cyhoedd, cydymffurfio ag amodau'r drwydded a pharodrwydd i gydweithredu gyda swyddogion trwyddedu) tra'u bod yn dal trwydded gan yr Awdurdod Trwyddedu neu unrhyw awdurdod arall. Rhoddir sylw arbennig i batrymau ymddygiad, waeth dros ba gyfnod bynnag o amser y maent wedi digwydd, o ran troseddau a brofwyd ac ymddygiad arall a all fod yn arwydd y gall diogelwch a lles y cyhoedd fod mewn perygl o du'r ymgeisydd.

Rhaid cydnabod hefyd y bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried pob hanes troseddol ac ymddygiad, boed yr hanes neu'r ymddygiad penodol wedi digwydd pan oedd ymgeiswyr yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat trwyddedig ar y pryd neu a ddigwyddodd yn ystod amser personol yr ymgeiswyr.Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried bod unigolyn sydd â thuedd i droseddu a/neu ymddwyn yn annerbyniol ar adegau pan nad oedd yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat yr un mor ddifrifol â throseddau a/neu ymddygiad annerbyniol a ddigwyddodd pan oedd yn gweithio gyda cherbydau hacni neu hurio preifat.

I helpu i asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cadw mewn cof 'G*anllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat' Ebrill 2018* y Sefydliad Trwyddedu*.* Mae'r canllaw i'w weld yn **Atodiad 2**.

## Gwiriad GDG

Rhaid i bob ymgeisydd am gael neu adnewyddu trwydded Gweithredwr Hurio Preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol (wedi ei ddyddio o fewn un mis o'r cais) y gellir ei gael gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd er mwyn bodloni'r awdurdod ei b/fod yn berson 'addas a phriodol'. Yn achos ceisiadau gan gwmni neu sefydliad, rhaid i holl gyfarwyddwyr y cwmni/sefydliad ddarparu datgeliad sylfaenol. Yr ymgeisydd/deiliad y drwydded fydd yn talu cost y gwiriadau hyn.

Nid oes gofyn i ymgeiswyr sydd eisoes â thrwydded gyrrwr cerbyd hacni neu CHP gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded gweithredwr hurio preifat.

Ni fydd troseddau gyrru fel rheol yn cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad am ddeiliaid trwydded gweithredwr hurio preifat. Ni fydd gwybodaeth sydd mewn gwiriad GDG lefel uwch na fyddai'n cael ei ddatgelu ar wiriad sylfaenol yn cael ei ystyried fel rhan o'r asesiad am drwydded gweithredwr hurio preifat.

## Gwiriad Cofnod Troseddol Tramor

Bydd angen i bob ymgeisydd am drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat ac sydd wedi treulio 6 mis neu fwy yn ddi-dor y tu allan i'r Deyrnas Unedig ers eu degfed penblwydd roi i'r Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth o wiriad cofnod troseddol o'r wlad/gwledydd yr ymwelwyd â hwy sydd yn ymdrinâ'r cyfnod yr oedd yr ymgeisydd dramor.

Yr ymgeisydd fydd yn gorfod talu costau unrhyw wiriadau o'r fath.

I ddinasyddion yr UE (gan gynnwys dinasyddion y DU) dylai gwiriadau addas fod ar gael. I'r gwledydd hynny lle nad oes gwiriadau ar gael, bydd ar yr Awdurdod Trwyddedu angen tystysgrif ymddygiad da wedi ei dilysu gan y llysgenhadaeth berthnasol. Rhaid i'r dystysgrif fod wedi ei dilysu, ei chyfieithu a'i selio gan y Llysgenhadaeth neu'r Uchel Gomisiwn. Mae gwybodaeth am dystysgrifau ymddygiad da neu ddogfennau tebyg o nifer o wledydd ar gael o: **GOV.UK Criminal records checks for overseas applicants**.

Os na all ymgeisydd gael tystysgrif ymddygiad da, ni ddylai fwrw ymlaen â'i gais a dylai gysylltu â'r Awdurdod Trwyddedu am fwy o wybodaeth.

Rhaid bod wedi cael gwiriadau hanes troseddol tramor o fewn y cyfnod o 6 mis cyn gwneud y cais.

Bydd yn rhaid i'r Awdurdod Trwyddedu gael unrhyw Dystysgrif Ymddygiad Da fydd gan yr ymgeisydd waeth beth fydd oed y ddogfen.

Bydd angen i Dystysgrifau Ymddygiad Da sydd mewn iaith ar wahan i'r Saesneg gael eu cyfieithu i'r Saesneg ar gost yr ymgeisydd gan wasanaeth cyfieithu annibynnol a rhaid gwirio'r cyfieithiad.

## Amod y Drwydded

Mae gan yr awdurdod trwyddedu y pwer i osod y cyfryw amodau ar drwydded gweithredwr cerbyd hurio preifat ag yr ystyria'n rhesymol, angenrheidiol a chymesur. Mae manylion amodau'r drwydded yn **Atodiad 27.**

# Cydymffurfio Cyffredinol a Gorfodaeth

Prif bwrpas trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat yw gwarchod y cyhoedd a hyrwyddo diogelwch y cyhoedd.

Cydnabyddir bod gweithgaredd gorfodi wedi ei gyfeirio'n gywir gan yr Awdurdod Trwyddedu o les nid yn unig i'r cyhoedd ond hefyd i aelodau cyfrifol y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat. Wrth gyflawni ei amcan o annog busnesau cerbyd hacni a hurio preifat cyfrifol, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn rhedeg trefn ddisgyblu a gorfodi sydd yn gymesur. Er mwyn cydbwyso hyrwyddo diogelwch y cyhoedd gyda'r angen i atal ymyrraeth ddiangen ym musnes deiliad trwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymyrryd yn unig lle mae'n angenrheidiol ac yn gymesur gwneud hynny. Lle mae diffygion yn gyfryw fel bod angen gwahardd defnyddio cerbyd yn y fan a'r lle, mae'n anorfod y terfir ar fywoliaeth.

Nod asesiadau cydymffurfio yw sicrhau bod deiliaid trwydded yn dal yn 'addas a phriodol'. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau a phwerau i adnabod diffyg cydymffurfio; gall hyn gynnwys y canlynol, ond nid y rhain yn unig: archwiliadau rhagweithiol ac ymatebol, ymarferion 'siopwr cudd', ymarferion wedi eu rhaglennu gyda phartneriaid perthnasol, gwaith gorfodi wedi ei dargedu, ymchwilio i gwynion/ceisiadau am wasanaeth.

Bydd camau gorfodi yn gymesur, cyson a rhesymol, ac yn sicrhau ar yr un pryd y gwarchodir y cyhoedd. Gall pennu'r dull gorfodi ystyried y canlynol:

- Difrifoldeb y drosedd
- Hanes blaenorol y troseddwr o ran cydymffurfio
- Canlyniadau'r diffyg cydymffurfio
- Y risg i'r cyhoedd
- Tebygolrwydd y bydd y diffyg cydymffurfio yn digwydd eto
- Effeithiolrwydd dulliau cydymffurfio/gorfodi eraill

## Hunan-Adrodd gan Ddeiliad y Drwydded

Mae gofyn i bob deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod cyhoeddi ymhen 48 awr o unrhyw arést a rhyddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd o anonestrwydd neu drais, ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r awdurdod trwyddedu ymhellach ymhen 48 awr o unrhyw gyhuddiad ac euogfarn. Gall methiant i ddatgelu arést y caiff yr awdurdod cyhoeddi wybod amdano wedyn gael ei weld fel ymddygiad sy'n codi cwestiwn am onestrwydd a thrwy hynny addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fydd canlyniad yr honiad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol a gynhaliwyd gan yr Heddlu ymhen 48 awr.

## Gweithdrefn Ddisgyblu

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymchwilio'n llawn i unrhyw gŵyn a wneir yn erbyn deiliaid trwydded gan aelodau'r cyhoedd, swyddogion heddlu, swyddogion cyngor, neu unrhyw berson perthnasol arall.

Yn dilyn ymchwilio i gŵyn am ymddygiad deiliad trwydded neu hysbysu am drwydded, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried y cosbau disgyblu canlynol:

a. **Peidio â gweithredu** – Os yw'n gŵyn weddol ddibwys a dim hanes o ymddygiad gwael neu amgylchiadau lliniarol posib.

b. **Llythyr rhybuddio** –am gwynion/troseddau mân/cymedrol neu os oes patrwm o ymddygiad gwael yn amlwg. Gall llythyr rhybuddio gael ei gyhoeddi lle nad yw difrifoldeb y gŵyn/drosedd yn haeddu atal neu ddiddymu. Bydd llythyr rhybuddio yn aros ar ffeil deiliad y drwydded am 6 blynedd (neu gyfnod a bennir yn briodol gan yr Awdurdod Trwyddedu). Nid oes terfyn ar nifer y llythyrau rhybuddio y gall gyrrwr eu derbyn; fodd bynnag, os bydd gyrrwr yn derbyn 2 neu fwy o lythyrau rhybuddio ymhen 3 blynedd am gwynion tebyg, efallai y dymuna'r Awdurdod Trwyddedu ystyried camau mwy difrifol fel rhybudd ysgrifenedig terfynol neu atal.

c. **Rhybudd ysgrifenedig terfynol** – am gwynion/troseddau mân/cymedrol y derbyniodd deiliad trwydded lythyr(au) rhybuddio am fater tebyg.

d. **Mynnu bod gyrrwr yn dilyn hyfforddiant pellach**. Gall yr Awdurdod Trwyddedu ddod i'r casgliad fod y gŵyn neu'r adroddiad yn erbyn deiliad trwydded wedi codi oherwydd diffyg gwybodaeth ac fe allant argymell bod deiliad y drwydded yn dilyn hyfforddiant pellach i gywiro'r ymddygiad ac atal unrhyw gamymddwyn pellach.

e. **Erlyn** – lle bo tystiolaeth glir a'i bod er budd y cyhoedd, gellir erlyn deiliad trwydded am droseddau dan y ddeddfwriaeth berthnasol.

f. **Atal** -am gwynion/troseddau mwy difrifol neu achosion lle derbyniodd deiliad trwydded rybudd yn flaenorol am gŵyn/drosedd gyffelyb yn ystod y 2 flynedd a aeth heibio. Pennir hyd yr atal fesul achos. Gall atal gael ei ystyried yn ddewis

lle na roddwyd unrhyw rybudd blaenorol os yw'r Awdurdod Trwyddedu yn teimlo bod hyn wedi ei warant oherwydd difrifoldeb y mater.

g. **Atal cerbyd (Rhybudd Stopio)** – gall trwydded cerbyd gael ei atal lle nad yw'r cerbyd yn cwrdd ag amodau trwydded neu os nad yw mewn cyflwr digon da i fod ar y ffordd. Mae'r rhybudd yn mynnu na ddylid defnyddio'r cerbyd fel cerbyd trwyddedig hyd nes y cywirwyd y diffyg a bod y rhybudd wedi ei godi gan yr Awdurdod Trwyddedu

h. **Diddymu** – am batrymau cyson o ymddygiad gwael lle cyhoeddwyd rhybudd(ion) neu atal(iadau) eisoes. Am faterion difrifol lle'r ystyria'r Awdurdod Trwyddedu nad yw'r gyrrwr bellach yn berson addas a phriodol i ddal trwydded.

i. **Atal/diddymu yn y fan a'r lle** – pan fo'n fater o ddiogelwch y cyhoedd, gall yr Awdurdod Trwyddedu fynnu bod yr atal/diddymu yn dod i rym yn syth.

j. **Gwrthod adnewyddu trwydded** – fel am ddiddymu uchod

k. **Ychwanegu amodau pellach i drwydded –** Efallai y byddai ychwanegu amodau pellach i drwydded yn atal yr awdurdod rhag atal neu ddiddymu trwydded.

## Apeliadau

Gall unrhyw unigolyn sy'n teimlo iddo/i gael ei th/dramgwyddo gan atal/gwrthod/diddymu trwydded apelio yn erbyn penderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i'r Llys Ynadon lleol ymhen 21 diwrnod o'r penderfyniad. Rhaid cyflwyno hyn i'r Llys yn unol â'r darpariaethau statudol perthnasol. Mae'r Awdurdod Trwyddedu yn cynghori partïon yn gryf i geisio cyngor cyfreithiol priodol rhag blaen dan amgylchiadau o'r fath.

Mater i Lys y Goron yw hawl pellach i apelio yn erbyn penderfyniad y Llys Ynadon.

## Gweithio mewn Partneriaeth

Er mwyn i orfodi a chydymffurfio fod mor effeithiol ag sydd modd, mae angen yn aml i'r Awdurdod Trwyddedu weithio mewn partneriaeth ag asiantaethau eraill. Ymysg enghreifftiau o bartneriaethau mae'r heddlu, yr Asiantaeth Safonau Gyrwyr a Cherbydau (DVSA), Cyllid a Thollau Ei Fawrhydi (CThEF), awdurdodau lleol cyfagos, timau diogelu oedolion a phlant.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu hefyd am weithio'n agos gyda'r fasnach Cerbydau Hacni a Hurio Preifat trwyddedig er mwyn parhau i wneud y diwydiant yn fwy proffesiynol a gwella safonau gwasanaeth.

## Ceisiadau a Chwynion am y Gwasanaeth

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ymchwilio i bob cais am wasanaeth a chwynion a wnaed yn erbyn deiliaid trwyddedau, ar yr amod y derbynnir manylion fydd yn caniatau gwybod pwy yw deiliad y drwydded. Byddai manylion yn cynnwys enw deiliad y drwydded, rhif y drwydded, neu rif cofrestru'r cerbyd.

Dylid nodi y gall ymchwilio i'r gŵyn olygu gofyn i'r achwynydd roi datganiad tyst ysgrifenedig. Hefyd, efallai y gofynnir i'r achwynydd roi tystiolaeth yn bersonol mewn Pwyllgor disgyblu neu yn y Llys.

Gall datganiadau gael eu cymryd hefyd gan ddeiliad y drwydded ac unrhyw dystion eraill.

Wrth ddod i benderfyniad ynghylch pa gamau i'w cymryd, os o gwbl, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ystyried yr holl dystiolaeth a'r amgylchiadau lliniarol.

Mae manylion am sut i wneud cwyn ar wefan y Cyngor.

## Gorfodaeth Drawsffiniol

Lle daw'n amlwg naill ai bod nifer o gerbydau a drwyddedwyd gan yr awdurdod hwn yn gwneud y mwyafrif (h.y., dros 50%) o waith hurio preifat yn ardal awdurdod lleol arall, neu lle mae'n amlwg fod nifer o gerbydau a drwyddedwyd gan awdurdod lleol arall yn gwneud y rhan fwyaf o waith hurio preifat yn yr ardal hon, fe wnaiff yr awdurdod trwyddedu ei orau i ddatblygu protocolau gorfodi gyda'r awdurdodau lleol hynny.

Dan yr amgylchiadau hyn, dilynir y protocol a ganlyn (fel y'i disgrifir yn *Trwyddedu Tacsis a CHP y Gymdeithas Llywodraeth Leol – Llawlyfr i Gynghorwyr*):

- Pob awdurdod i gytuno ar ba lefel o arbenigedd/cymwysterau/sgiliau yw'r lleiafswm ar gyfer cymeradwyo awdurdodi pob unigolyn.
- Pob awdurdod i sefydlu, trwy eu cynlluniau dirprwyo eu hunain, pa gamau trefniadol sydd angen eu cymryd i awdurdodi'n ddilys (e.e., adroddiad prif swyddog, penderfyniad is-bwyllgor neu bwyllgor llawn).
- Pob awdurdod i gytuno ar ffurf a geiriad y 'llythyr awdurdodi' a'r 'cerdyn swyddogol gyda llun' a roddir.
- Pob 'cyngor sy'n gwneud cais' i ofyn yn ffurfiol am awdurdod swyddogion unigol a enwir.
- Pob 'cyngor sy'n gwneud cais' i gael awdurdod a darparu 'llythyr awdurdodi' yng nghyswllt swyddogion yr awdurdod arall.
- Pob awdurdod cyflogi yn rhoi i'w swyddogion ei hunain gerdyn swyddogol gyda llun sy'n datgan, at ddibenion [nodwch Ddeddfau Seneddol] fod [enw] y swyddog yn swyddog awdurdodedig [rhestrwch bob cyngor sy'n awdurdodi].
- Pob awdurdod i roi i bob swyddog gopïau o is-ddeddfau, amodau a methodolegau/dulliau adrodd priodol ar gyfer ymdrin â cherbydau diffygiol a phroblemau eraill o ardaloedd eraill.
- Pob awdurdod i geisio caniatad gwleidyddol ac ariannol am waith ar y cyd y cytunwyd arno ymlaen llaw gyda'i gilydd a chyda'r heddlu /CThEF.
- Sefydlu protocolau rhannu data yn ôl yr angen rhwng awdurdodau, gan gynnwys templedi safonol adrodd am ddigwyddiadau/cofnodion gwaith i'w defnyddio gan bawb er mwyn cysondeb a chofnodi cynlluniau.

**Gelir gweld unrhyw gynllun neu ystyriaeth leol ar <u>www.Newport.gov.uk/taxis</u>**

# Atodiad 1

## Gweithdrefn Ymgeisio i Yrwyr/canllaw/

Rhaid gwneud cais am drwydded gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat ar y ffurflen benodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn anfon gohebiaeth at yrwyr trwy e-bost, er y dylid nodi mai cyfrifoldeb y gyrrwr yw gofalu bod ceisiadau am adnewyddu yn cael eu gwneud mewn pryd.

Er mwyn rhoi digon o amser i ddogfennau gael eu prosesu, dylai ymgeiswyr wneud yn siwr fod yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn y cais cyflawn, gan gynnwys y ffî ac unrhyw ddogfennau angenrheidiol eraill, e.e., GDG, o leiaf bythefnos cyn y dyddiad y daw trwydded gyrrwr i ben. Ni ellir adnewyddu trwydded wedi iddo ddod i ben, ac mewn achosion o'r fath, caiff yr ymgeisydd ei drin fel petai'n ymgeisydd newydd sbon. (Er, ar yr amod y cyflwynir cais ymhen 3 mis wedi i drwydded ddod i ben, ni fydd angen i'r ymgeisydd gymryd y Prawf Gwybodaeth, ond fe fydd yn gorfod dilyn hyfforddiant gloywi i ymgeiswyr am adnewyddu)

Mae gofyn i bob gyrrwr fod â chyfeiriad ebost cyfredol a dilys fel y gall yr awdurdod gynnal gwiriad GDG electronig ac anfon apwyntiadau a nodiadau atgoffa perthnasol i ymgeiswyr a gyrwyr.

Mae pob cais a chanllawiau llawn ar gael ar dudalen we y Timau Trwyddedu Tacsis.

# Atodiad 2

## ‘Canllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat’ Cyngor Dinas Casnewydd

(Datblygwyd y canllaw gan y Sefydliad Trwyddedu, ond fe’i dyblygir yng nghanllaw’r Adran Drafnidiaeth a Chanllaw Llywodraeth Cymru)

# Canllaw ar bennu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yn y fasnach cerbydau hacni a hurio preifat

Cynnwys

Rhagair 2
Pennod 1: Cyflwyniad 3
Pennod 2: Troseddwyr a Throseddu - Trosolwg 4
Risg ail-droseddu: 6
Pennod 3: Trosolwg o Drwyddedu 'Tacsis' 7
Gyrwyr Tacsi 8
Gweithredwyr Hurio Preifat 11
Perchenogion Cerbydau 12
Pennod 4: Canllawiau ar Benderfynu 13
Gofynion cyn gwneud cais 13
Cerbydau 13
Gyrwyr 14
Gweithredwyr 14
Gyrwyr 16
Troseddau sy'n arwain at farwolaeth 16
Camfanteisio 16
Troseddau o drais 17
Bod ym meddiant arf 17
Troseddau rhyw ac anwedduster 17
Anonestrwydd 17
Cyffuriau 17
Camwahaniaethu 17
Euogfarnau moduro 17
Yfed a gyrru/gyrru dan ddylanwad cyffuriau/defnyddio ffôn llaw neu ddyfais yn y llaw wrth yrru 18
Troseddau moduro eraill 18
Troseddau cerbydau hacni a hurio preifat 18
Troseddau o ran defnyddio cerbydau 18
Gweithredwyr Hurio Preifat 18
Perchenogion Cerbydau 19
Diolchiadau

# Rhagair

Swyddogaeth trwyddedu yw gwarchod y cyhoedd. Rhaid i aelod o'r cyhoedd sy'n camu i gerbyd yn cael ei yrru gan ddieithryn allu ymddiried yn y gyrrwr. A yw'n onest? A yw'n fedrus? A yw'n ddiogel? A oes modd ymddiried ynddo/i? Pan fyddwn yn ymwneud mewn rhyw drafodiad gydag eraill, fel arfer mae gennym amser a chyfle i wneud asesiadau o'r fath. Pan fyddwn yn ymwneud â gyrwyr tacsi, dyw hyn ddim yn wir. Felly mae'n rhaid i ni ddibynnu ar y drwydded fel gwarant o ddiogelwch ac addasrwydd y gyrrwr i'r dasg, a dyna a wnawn.

Mae'n dilyn felly bod cyfrifoldeb trwm ar awdurdod trwyddedu. Wrth wneud penderfynaidau ynghylch rhoi ac adnewyddu trwyddedau y mae, mewn gwirionedd, yn dweud y gallwch ymddiried yn neiliad y drwydded i gludo'r teithiwr o A i B yn ddiogel. Efallai mai chi yw'r teithiwr, neu eich mam oedrannus, eich merch yn ei harddegau, neu rywun gafodd ddropyn yn ormod i'w yfed, neu sy'n fregus am amrywiaeth o resymau eraill.

Dylai pawb sy'n gweithio yn y maes hwn ymgyfarwyddo â ffeithiau achos Rotherham, sy'n destament sobreiddiol i'r hyn a all ddigwydd pan nad yw trwyddedu yn gwneud ei waith diogelu yn iawn. Ond ni ddylai natur eithafol yr hanes erchyll hwnnw dynnu ein sylw oddi wrth y dasg o warchod y cyhoedd rhag blerwch, diofalwch neu anonestrwydd llai syfrdanol. Nid oes rhaid gosod safonau diogelwch ac addasrwydd fel isafswm yn unig. I'r gwrthwyneb, gellir eu gosod yn uchel, i roi i'r cyhoedd y sicrwydd mae arnynt ei angen wrth ddefnyddio gwasanaeth tacsi. Mae'n dda gwybod nad yw gyrrwr rhywun yn droseddwr. Mae'n well byth gwybod ei fod ef neu hi yn weithiwr proffesiynol ymroddedig.

Mae'n bwysig dweud nad maes yw hwn lle mae'n rhaid i'r awdurdod trwyddedu gadw cydbwysedd teg rhwng hawl y gyrrwr i weithio a hawl y cyhoedd i gael eu gwarchod. Mae gan y cyhoedd yr hawl i gael eu gwarchod, a dyna ben arni. Mae hynny'n golygu bod hawl gan yr awdurdod trwyddedu, a rheidrwydd arnynt, i drin diogelwch y cyhoedd fel y brif ystyriaeth. Dyna bwynt yr ymarferiad, wedi'r cyfan.

Mae'r canllaw hwn i'w groesawu, felly. Mae'n dda ei fod yn pwysleisio y gall unrhyw amgylchiad sy'n ymwneud â deiliad trwydded fod yn berthnasol, ar yr amod, wrth gwrs, ei fod yn berthnasol i'w dd/diogelwch a'i h/addasrwydd i ddal trwydded. Mae'n rhoi canllawiau buddiol a chadarn i awdurdodau trwyddedu ynghylch sut y dylent fynd o gwmpas eu tasg bwysig o wneud penderfynaidau ynghylch diogelwch ac addasrwydd gyrwyr a gweithredwyr.

Er bod trwyddedu, wrth gwrs, yn swyddogaeth leol, mae'n chwerthinllyd y gall yr union un ymddygiad arwain at gyfnod byr heb drwydded mewn un ardal, a chyfnod hwy o lawer mewn ardal gyfagos. Os yw gyrrwr yn addas yn ardal A, mae'n siwr o fod yn addas yn ardal B, a vice versa. Os caiff y canllaw hwn ei fabwysiadu'n eang – a dyna'r gobaith – fe fydd yn arwain at rywfaint o unffurfiaeth ledled y wlad, a bydd hyn er lles y cyhoedd o ran cysondeb, sicrwydd a hyder yn y system drwyddedu. Gall cadw at y canllaw hefyd warchod awdurdodau trwyddedu mewn achosion apêl.

Cymeradwyir y canllaw hwn felly i awdurdodau trwyddedu. Y gobaith yn y man yw y bydd wrth law pob cynghorydd a swyddog sy'n gweithio ym maes trwyddedu tacsis.

Philip Kolvin CB

Bargyfreithwyr Cornerstone

## Pennod 1: Cyflwyniad

1.1 Cynhyrchwyd y canllaw hwn gan y Sefydliad Trwyddedu gan weithio mewn partneriaeth â'r Gymdeithas Lywodraeth Leol (LGA), Cyfreithwyr mewn Llywodraeth Leol (LLG) a Chymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Trwyddedu a Gorfodaeth (NALEO), yn dilyn ymgynghori eang. Yr ydym yn ddiolchgar i'r tri sefydliad am eu cyfraniadau, ac y mae pob un o'r sefydliadau hynny wedi rhoi eu sêl bendith yn ffurfiol i'r canllaw hwn.

1.2 Prif nod unrhyw Awdurdod Trwyddedu wrth gyflawni ei swyddogaethau ynghylch trwyddedu Gyrwyr, Perchenogion a Gweithredwyr Cerbydau Hacni neu Hurio Preifat yw gwarchod y cyhoedd ac eraill sydd yn defnyddio gwasanaethau Cerbydau Hacni a Hurio Preifat (neu y gall y gwasanaethau effeithio arnynt).

1.3 Dywed y ddeddfwriaeth berthnasol fod yn rhaid i unrhyw unigolyn fodloni'r awdurdod ei b/fod yn berson addas a phriodol i ddal trwydded ac y mae hwnnw'n brawf i'w gymhwyso wedi i unrhyw ymgeisydd ennill unrhyw gymwysterau y gellir yn rhesymol eu mynnu [1]. Dyma yw rhan olaf y broses ymgeisio pan wneir penderfyniad, boed hynny gan bwyllgor, is-bwyllgor neu swyddog dan Gynllun Dirprwyo. Mae'n golygu archwilio'n fanwl ei g/chymeriad yn ei gyfanrwydd er mwyn dod i farn ynghylch ei h/addasrwydd a phriodoldeb.

1.4 Os bydd deiliad trwydded yn syrthio'n brin o'r safon addas a phriodol ar unrhyw adeg, dylid diddymu'r drwydded neu beidio â'i hadnewyddu pan wneir cais am hynny.

1.5 Nid oes unrhyw ganllawiau Statudol na Gweinidogol diweddar am sut i gymryd penderfyniadau o'r fath, na pha faterion sy'n berthnasol i benderfyniad. Mae'r canllaw hwn yn ategu Llawlyfr Cynghorwyr Trwyddedu Tacsis a Hurio Preifat yr LGA ac unrhyw ganllaw a ddaw gan y Llywodraeth yn y man. Dylai awdurdodau lleol hefyd fod yn ymwybodol o'r gronfa ddata sydd ar y gweill gan y Rhwydwaith Gwrth-Dwyll Cenedlaethol ynghylch gwrthod a diddymu trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat.

1.6 Bwriad y ddogfen hon yw rhoi canllawiau am bennu addasrwydd, gan gymwys i ystyriaeth gymeriad yr ymgeisydd neu ddeiliad trwydded. Gellir wedyn ei defnyddio gan awdurdodau lleol fel sail i'w polisïau hwythau: yn benodol, mae'n ystyried faint o sylw y dylid ei roi i hanes blaenorol yr ymgeisydd neu ddeiliad trwydded a pherthnasedd hynny i'w 'addasrwydd a phriodoldeb' neu 'gymeriad'. Fel gydag unrhyw ganllaw, nid oes rhaid ei ddilyn yn slafaidd, ond y mae'n fan cychwyn o ran cymryd penderfyniadau gan gadw mewn cof haeddiannau pob achos unigol.

1.7 Gall polisi awdurdod trwyddedu gymryd 'agwedd llinell ddisglair' a dweud "byth" mewn polisi, ond polisi ydyw, er hynny, ac nid yw felly yn gyfystyr ag unrhyw lyffethair ar ddisgresiwn yr awdurdod. Bydd pob achos yn wastad yn cael ei ystyried yn ôl ei haeddiannau, gan gadw'r polisi mewn cof, a gall yr awdurdod trwyddedu wyro oddi wrth y polisi lle'r ystyria ei bod yn briodol gwneud hynny. Bydd hyn fel arfer yn digwydd lle'r ystyria'r awdurdod trwyddedu fod amgylchiadau eithriadol sydd yn galw am benderfyniad gwahanol. Cadarnhawyd yr agwedd hon gan yr Uchel Lys yn *R (on the application of Nicholds) v Security Industry Authority*[2].

[1] Ac eithrio am berchenogion cerbydau. Yn yr achosion hynny, nid oes gofyniad “addas a phriodol”, ond y mae gan yr awdurdod ddisgresiwn absoliwt dros roi trwydded.

[2] [2007] 1 WLR 2067

1.8 Ym Mhennod 2 mae'r Canllaw hwn yn edrych i mewn i'r meddylfryd y tu ôl i dueddiadau unigolyn i aildroseddu. Mae'n amlwg nad gwyddor fanwl gywir mo hon, ac nad oes tystiolaeth ystadegol ystyrlon a manwl all gynorthwyo i osod polisi. O gofio swyddogaeth bwysig trwyddedu o ran gwarchod y cyhoedd, dylai'r bar gael ei osod ar y lefel uchaf sy'n rhesymol, er y dylid hefyd ddefnyddio doethineb fel sy'n cael ei osod allan ym mharagraff 1.7 a Phenodau 3 a 4.

1.9 Nid yw'r Canllaw hwn yn cynnwys unrhyw restr fanwl o 'droseddau'. Caiff pob trosedd ei neilltuo i gategori cyffredinol megis 'anonestrwydd' neu 'gyffuriau'. Mae hyn yn atal unrhyw un rhag dadlau nad yw trosedd benodol yn dod dan y Polisi gan 'nad yw ar y rhestr' a dadleuon hefyd fod dryll yn fwy difrifol na chyllell ac y dylid gwahaniaethu. Ym mhob achos, dylid rhoi'r pwysau priodol ar y dystiolaeth a ddarperir.

1.10 Ni all y Canllaw hwn fod a grym deddfwriaeth, boed yn newydd neu wedi ei ddiwygio; mae'n hollol amlwg fod angen hyn, ac y mae'r Sefydliad a'r mudiadau eraill sy'n gweithio gyda hwy yn llawn gefnogi hyn. Fe'i bwriadwyd i helpu awdurdodau lleol fod yn fwy cyson, fel nad yw mor hawdd i ymgeiswyr ddewis a dethol rhwng awdurdodau. Yr ydym yn cydnabod nad oes modd gwneud hyn yn llawn heb osod isafswm safonau cenedlaethol.

1.11 Wrth baratoi'r ddogfen hon, bu Gweithgor y Sefydliad yn ymgynghori â chynrychiolwyr o bob safbwynt ac yn ystyried materion a godwyd ganddynt. Yr oedd y rhain yn cynnwys Cynghorwyr, swyddogion Trwyddedu, Cyfreithwyr, y Fasnach Cerbydau Hacni a Hurio Preifat, Academyddion, y Gwasanaeth Prawf a'r Heddlu.

## Pennod 2: Troseddwyr a Throseddu - Trosolwg

2.1 Nod trwyddedu'r fasnach tacsis a CHP gan awdurdodau lleol yw gwarchod y cyhoedd.[3] O gadw hyn mewn cof, rhaid i Warchod y Cyhoedd fod ar flaen meddwl y sawl sy'n gwneud penderfyniadau wrth bennu a yw unigolyn yn "berson addas a phriodol" i ddal trwydded.

2.2 Nod yr adran hon yw rhoi trosolwg byr o warchod y cyhoedd, sut i bennu risg, a ffactorau i'w hystyried pan fo ymgeisydd yn ceisio dangos newid yn ei h/ymddygiad troseddol.

2.3 Mae'r broses drwyddedu yn gosod dyletswydd ar yr awdurdod lleol i warchod y cyhoedd. O gofio natur y rôl, mae'n hollbwysig fod y sawl sydd am wneud bywoliaeth mewn masnach yn cwrdd â'r safonau angenrheidiol. Gal y gellir ystyried ymddygiad troseddol blaenorol fel modd o ragfynegi ymddygiad yn y dyfodol, yn ogystal ag euogrwydd, mae'n hanfodol fod y sawl sy'n gwneud y penderfyniad yn ystyried yr holl ffactorau perthnasol gan gynnwys euogfarnau, rhybuddion a chwynion blaenorol, a'r amser a aeth heibio ers i'r rhain gael eu cyflawni.

2.4 Bu cryn dipyn o ymchwil i'r rhesymau pam fod rhai unigolion yn cyflawni troseddau, pam bod rhai yn dysgu o'u camgymeriadau ac yn rhoi'r gorau i droseddu, tra bo eraill yn cael eu hunain mewn cylch o aildroseddu. Esblygodd sawl damcaniaeth dros y blynyddoedd mi gynnig mewnwelediad i'r rhesymau y tu ôl i ymddygiad troseddol. Un thema gyffredin yw nad oes yr un dwy drosedd yr un fath ac na ellir gwneud i ffwrdd â'r risg, na rhagweld y dyfodol. Yr hyn y gellir ei wneud yw archwilio pob achos yn unigol, gweld beth yw'r risgiau, ynghyd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau ers cyflawni'r drosedd, i helpu i wneud y penderfyniad.

[3] Yr Adran Drafnidiaeth "Taxi and Private Hire Licensing – Best Practice Guide" para 8

2.5 Ffactor allweddol wrth ystyried cais gan unigolyn gydag unrhyw euogfarnau, rhybuddion neu gwynion a gofnodwyd yw Gwarchod y Cyhoedd. Mae hyn yn cynnwys asesu'r risg o aildroseddu a niwed[4]. Mae dulliau asesu risg yn cael eu defnyddio'n rheolaidd gan y sawl sy'n gyfrifol am reoli unigolion sydd wedi troseddu. Nid yw awdurdodau lleol o hyd yn meddu ar y wybodaeth hon felly mae'n bwysig, pan fyddant yn gwneud penderfyniadau am addasrwydd, eu bod yn deall ymddygiad troseddol a'r risg o aildroseddu mewn termau generig.

2.6 Nododd Flaud[5] fod risg, mewn egwyddor, yn fater o ffaith, ond fod perygl yn fater o ddyfarnu a barn. Â ymlaen i nodi y gellir galw risg yn debygolrwydd y bydd rhywbeth yn digwydd; perygl yw'r raddfa o ddifrod (niwed) a achosir petai hynny'n digwydd[6].

2.7 Mae'r Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr yn cyfeirio at risg mewn dau ddimensiwn, sef y tebygolrwydd y bydd trosedd yn digwydd, ac effaith/niwed y drosedd petai'n digwydd. Yn gyffredinol, wrth wneud penderfyniad ynghylch tebygolrwydd aildroseddu, mae angen ystyried ffactorau statig a deinamig.

2.8 Ffactorau hanesyddol yw rhai statig a heb newid, megis oedran, euogfarnau blaenorol, a rhyw. Gellir eu defnyddio fel sail i asesiadau actiwaraidd ac y maent yn sylfaenol wrth ystyried potensial unigolyn i aildroseddu yn y dyfodol[7]. Er enghraifft, datgelodd ystadegau a ryddhawyd yn ddiweddar fod 44% o oedolion yn cael eu dyfarnu'n euog eto ymhen blwyddyn o'u rhyddhau. I'r rhai â dedfrydau o lai na deuddeng mis, mae hyn yn codi i 59%[8]. Mae'n cael ei dderbyn yn eang hefyd fod pobl yn gyffredinol sydd â nifer fawr o droseddau blaenorol â chyfradd uwch o aildroseddu profedig na'r rhai a llai o droseddau blaenorol[9].

2.9 Ystyrir bod ffactorau deinamig yn newid ac y gallant amrywio dros amser. Yn eu plith mae agweddau, gwybyddiaeth a byrbwylltra[10]. Mae wedi ei ddogfennu mai po fwyaf yw ei angen nas atebir, mwyaf tebygol y mae unigolyn o aildroseddu. Wrth ystyried a yw unigolyn wedi ei adsefydlu ai peidio, mae'n bwysig cadw mewn cof y symbyliad y tu ôl i'w d/throseddu, a'r ffactorau risg deinamig oedd yn bod ar y pryd, yn erbyn y camau a gymerir i ymdrin â ffactorau o'r fath, a thrwy hynny leihau'r risg o aildroseddu.

[4] Kemshall, H. (2008). Understanding the Management of High Risk Offenders (Crime and Justice). Open University Press

[5] Flaud, R. (1982). Dyfynnwyd yn, Gendreau, P., Little, T. a Goggin, C. (1996). A meta-analysis of the predictors of adult offender recidivism: what works! Criminology, 34, 557-607.

[6] Gendreau, P., Little, T. a Goggin, C. (1996). A meta-analysis of the predictors of adult offender recidivism: what works!

[7] Craig, L. A. a Browne, K. B (2008). Assessing Risk in Sex Offenders: A Practitioner's Guide Paperback.

[8] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2017) Proven reoffending statistics: July 2014 to June 2015, Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[9] Y Weinyddiaeth Gyfiawnder (2015): Transforming Rehabilitation: a summary of evidence on reducing reoffending. Llundain: Y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

[10] McGuire, J. (2008). A review of effective interventions for reducing aggression and violence. Philosophical Transactions of the Royal Society B: Biological Sciences, 363(1503), 2577-2597

2.10 Mae'n werth nodi fod problemau a/neu anghenion i'w gweld yn amlach mewn poblogaethau sy'n troseddu nac yn y boblogaeth yn gyfrredinol[11]. Mae cyswllt rhwng llawer o'r ffactorau hyn ac y maent wedi eu gwreiddio ym mhrofiadau'r unigolyn yn y gorffennol. Gall hyn gael effaith ar allu'r unigolyn hwnnw i newid ei ymddygiad, yn enwedig os nas ymdriniwyd â'r problemau a nodwyd neu na cheisiwyd cefnogaeth. Bydd anghenion yn amrywio o un unigolyn i'r llall, a bydd yn dibynnu ar lefel y symbyliad a natur y drosedd a gyflawnwyd.

## Risg o aildroseddu:

2.11 Mae pwnc aildroseddu a'r cynnydd yng nghyfraddau troseddau difrifol wedi esgor ar doreth o gyhoeddiadau, damcaniaethau a newidiadau mewn deddfwriaeth, gyda llawer yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o brosiectau adsefydlu fel dull o ostwng cyfraddau aildroseddu. Yn ganolog i adsefydlu troseddwyr, mae'r cysyniad o anghenion troseddegol. Disgrifiwyd hyn gan y Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr fel "unrhyw faes lle mae gan y troseddwr anghenion neu ddiffygion fyddai'n arwain at ostwng y risg o ail-euogfarnu. Mae gallu unigolyn i ymdrin ag anghenion o'r fath a'u lleihau yn dibynnu'n drwm ar ei symbyliad i newid a pheidio â throseddu, ac yn aml mae hyn yn digwydd dros gyfnod o amser"[12].

2.12 Nododd Kurlychek, 2007 yn ei hastudiaeth "y canfuwyd fod person sydd wedi troseddu yn y gorffennol a thebygolrwydd uchel o droseddu yn y dyfodol, ond mae'r risg hon o aildroseddu ar ei uchaf yn y cyfnod yn syth wedi arestio neu ryddhau o'r ddalfa, ac wedi hynny ei fod yn lleihau'n sydyn ac yn ddramatig gydag oedran"[13].

2.13 Canfyddiad cyson mewn llenyddiaeth droseddegol drwyddo draw yw bod troseddwyr gwryw yn dueddol o roi'r gorau i droseddu o 30 mlwydd oed ac ymlaen[14]. Dogfennir yn helaeth fod y newid yn digwydd am amrywiol resymau: er enghraifft, o ganlyniad i driniaeth lwyddiannus, aeddfedu naturiol neu ddatblygu perthynas gymdeithasol gadarnhaol[15]. Ystyrir hefyd fod troseddwyr benyw yn fwy tebygol o roi'r gorau i droseddu wrth iddynt aeddfedu. Adroddwyd mai pegwn yr oedran troseddu i fenywod oedd 14 o gymharu â 19 i ddynion[16].

2.14 Mae rhoi'r gorau i droseddu gan bobl fu'n troseddu yn gyson yn broses anodd a chymhleth, ac y maent yn aml yn llithro'n ôl. Efallai na fydd rhai unigolion fyth yn rhoi'r gorau i droseddu[17]. O ganlyniad, mae'n bwysig i unigolion ddangos tystiolaeth o newid yn eu hymddygiad cyn y gellir ystyried nad oes risg iddynt aildroseddu neu fod y risg yn isel iawn. Gadael i amser fynd heibio yn aml iawn yw'r unig ffordd o wneud hyn.

2.15 Po hwyaf o amser a aeth heibio ers cyflawni trosedd, mwyaf tebygol yw y bydd yr unigolyn yn rhoi'r gorau i droseddu. Sylwyd, po fwyaf o fywyd sy'n cael ei fyw heb droseddu, mwyaf y gwelir

---

[11] Nash, M. (1999) Police, Probation and Protecting the Public. London: Blackwell Press.

[12] Gwasanaeth Cenedlaethol Rheoli Troseddwyr (20160. Public Protection Manual Edition. Proven Reoffending Statistics Quarterly Bulletin, Hydref 2015 i Ragfyr 2015

[13] Kurlychek, M C, Brame, R (2007). Scarlet letters and recidivism: Does an old criminal record predict future offending? Prifysgol De Carolina.

[14] Serin, R, C. a Lloyd, C.D (2008). Examining the process of offender change: the transitions to crime desistance. 347-364

[15] Nash, M. (1999) Police, Probation and Protecting the Public. London: Blackwell Press.

[16] Trueman, C.N. (2015). Women and Crime. The History Learning Site. Ingatestone: Essex.

[17] Farrell, S (2005). Understanding Desistance from Crime: Emerging Theoretical Directions in Resettlement and Rehabilitation (Crime and Justice) Clawr papur.

manteision rhoi'r gorau i droseddu[18]. Mae dangos newid mewn ymddygiad troseddol a'r gallu i wneud dewisiadau effeithiol yn cymryd amser, ac y mae'n golygu peth amwyster i'r rhai sydd wedi cyflawni troseddau. Daeth astudiaeth yn 2007 oedd yn edrych ar euogfarnau blaenorol a'r cysylltiadau ag aildroseddu i'r casgliad fod "unigolion sydd wedi troseddu yn y gorffennol pell yn ymddangos yn llai tebygol o aildroseddu nag unigolion sydd wedi troseddu yn y gorffennol agos"[19].

2.16 Er nad oes modd pennu sut y bydd unigolyn yn ymddwyn yn y dyfodol, gellir cymryd camau i leihau risg a gwarchod y cyhoedd trwy ddilyn y prosesau a'r canllawiau cywir. Mae cadw mewn cof ymddygiad blaenorol unigolyn a'i b/photensial i beri niwed o ganlyniad i'r dewisiadau a wnaeth yn chwarae rhan arwyddocaol wrth benderfynu rhoi trwydded neu beidio. Bydd gallu dangos tystiolaeth o newid mewn ymddygiad yn golygu ystyried yr amgylchiadau adeg y drosedd, y camau a gymerwyd i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd, a gallu'r person hwnnw i gynnal newid o'r fath. Gall hyn fod yn broses faith sy'n digwydd dros amser yn unig.

## Pennod 3: Trosolwg o Drwyddedu 'Tacsis'

3.1 Mae tacsis yn cael eu defnyddio gan bron bawb yn ein cymdeithas o bryd i'w gilydd, ond fe'u defnyddir yn rheolaidd gan grwpiau sy'n arbennig o fregus: plant; yr henoed; pobl anabl; pobl feddw, ac y mae gan yrrwr tacsi gryn bŵer dros deithwyr sy'n gosod eu hunain, a'u diogelwch personol, yn gyfan gwbl yn nwylo'r gyrrwr.

3.2 Awdurdodau lleol (dosbarth, unedol a chynghorau yng Nghymru) a TfL sy'n gyfrifol am drwyddedu cerbydau hacni a hurio preifat.

3.3 Y brif ddeddfwriaeth yw Deddf Cyfrifoldebau Heddlu Trefol 1847 a Deddf Llywodraeth leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Rhoddir manylion am bwrpas trwyddedu tacsis yn nogfen yr Adran Drafnidiaeth *"Taxi and Private Hire Licensing – Best Practice Guide"* para 8 sy'n dweud: "Nod trwyddedu'r fasnach tacsis a CHP gan awdurdodau lleol yw gwarchod y cyhoedd."

3.4 Yn y ddwy drefn drwyddedu, mae 5 math o drwydded: cerbyd hacni; cerbyd hurio preifat; gyrrwr cerbyd hacni; gyrrwr hurio preifat a gweithredwr hurio preifat.

3.5 Yng nghyswllt yr holl drwyddedau hyn, mae gan yr awdurdod ddisgresiwn ynghylch rhoi trwydded neu beidio. Er bod yr Adran Drafnidiaeth yn rhoi rhai canllawiau, nid oes safonau cenedlaethol.

3.6 Ni ellir rhoi trwydded i yrwyr na gweithredwyr oni fydd yr awdurdod yn fodlon eu bod yn "berson addas a phriodol" i ddal y drwydded honno (gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 au 51 a 59 am yrwyr; a55 am weithredwyr).

3.7 Nid oes meini prawf statudol am drwyddedau cerbydau; felly, mae gan yr awdurdod ddisgresiwn absoliwt.

[18] Maguire, M., Morgan, R. a Reiner, R. (2002). The Oxford Handbook of Criminology. 3rd Edition. Rhydychen: Oxford University Press.

[19] Kurlychek, M C, Brame, R (2007). Scarlet letters and recidivism: Does an old criminal record predict future offending? Prifysgol De Carolina.

3.8 Ym mhob achos, mae gan yr awdurdod bwerau i roi trwydded, ei adnewyddu os gwneir cais, ac yn ystod einioes y drwydded, ei atal neu ei ddiddymu.

3.9 Beth yw rôl pob un o'r rhain, a sut y mae awdurdodau yn pennu cais, neu yn cymryd camau yn erbyn trwydded?

## Gyrwyr Tacsi

3.10 Mae'r term "gyrrwr tacsi" yn cwmpasu dwy alwedigaeth wahanol: gyrwyr cerbydau hacni a gyrwyr hurio preifat. Mae "gyrrwr tacsi" felly yn cael ei ddefnyddio fel term bras, cyffredinol am yrwyr cerbydau hacni a hurio preifat. Yn y naill achos a'r llall, mae'r un meini prawf statudol i'w cwrdd cyn y gellir rhoi trwydded, ac y mae llawer o awdurdodau yn rhoi trwyddedau "deuol" neu "gyfun" i ymdrin â gyrru'r ddau fath o gerbyd.

3.11 Rhaid i ymgeisydd ddal trwydded gyrru DVLA lawn neu'r hyn sy'n cyfateb, bod â'r hawl i weithio yn y DU, a bod yn berson "addas a phriodol"[20].

3.12 Mae elfen y drwydded yrru yn gwestiwn o ffaith. Er bod rhai materion yn codi yng nghyswllt trwyddedau gyrru tramor, yn y pen draw, naill ai mae gan rywun drwydded yrru neu ddim.

3.13 Rhaid i ymgeisydd hefyd fod â'r hawl i aros a gweithio yn y DU[21].

3.14 Unwaith eto, cwestiwn o ffaith yw hyn yn y pen draw, a dylai'r awdurdod lleol ddilyn y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref.[22]

3.15 Holl bwnc "addas a phriodol" sy'n achosi'r mwyaf o anhawster i awdurdodau lleol. Nid yw erioed wedi ei ddiffinio'n gyfreithiol yn farnwrol, ond fe'i crybwyllwyd yn *Leeds City Council v Hussain*[23]. Dywedodd Silber J: "'... pwrpas pwer atal yw amddiffyn defnyddwyr cerbydau trwyddedig a'r sawl sy'n cael eu gyrru ganddynt ac aelodau'r cyhoedd. Ei bwrpas [ac], felly [prawf addasrwydd a phriodoldeb], yw atal trwyddedau rhag cael eu rhoi i neu eu defnyddio gan y sawl nad ydynt yn bobl addas, gan gymryd i ystyriaeth eu record o yrru, eu profiad o yrru, eu sobrwydd, ffitrwydd meddyliol a chorfforol, gonestrwydd, a'r ffaith eu bod yn bobl na fyddai'n cymryd mantais o'u cyflogaeth i gamdrin neu ymosod ar deithwyr."

3.16 Adlewyrchir hyn mewn prawf sy'n cael ei ddefnyddio'n helaeth gan awdurdodau lleol: 'A fuasech chi (fel aelod o'r pwyllgor trwyddedu neu berson arall sydd â'r cyfrifoldeb am roi trwydded gyrrwr cerbyd hacni) yn caniatau i'ch mab neu eich merch, priod neu gymar, ŵyr neu wyres neu unrhyw berson arall y mae gennych ofal drosti/o, i fynd i mewn i gerbyd ar ei b/phen ei hun gyda'r person hwn?'[24]

3.17 Awgrymir bod yr ymadrodd person "diogel ac addas" i ddal trwydded gyrrwr yn ddehongliad

---

[20] Mae Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Adran 51(1) yn ymdrin â gyrwyr hurio preifat, ac adran 59(1) yn ymdrin â gyrwyr cerbydau hacni.

[21] Deddf Llywodraeth leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 A51(1)(a)(ii) yng nghyswllt gyrwyr hurio preifat ac A59(1)(a)(ii) yng nghyswllt gyrwyr cerbydau hacni.

[22] "Guidance for Licensing Authorities to Prevent Illegal Working in the Taxi and Private Hire Sector in England and Wales" - Y Swyddfa Gartref 1 Rhagfyr 2016 ar gael yn https://www.gov.uk/government/publications/licensing-authority-guide-to-right-

to-work-checks

[23] [2002] EWHC 1145 (Admin), [2003] RTR 199

[24] Button on Taxis – Licensing Law and Practice 4th Ed Bloomsbury Professional at para 10.21

da nad yw'n ychwanegu at nac yn tynnu dim oddi wrth y term gwreiddiol o "addas a phriodol" ond ei fod yn cyfoesi'r cysyniad.

3.18 Sut gall awdurdod lleol asesu ac yna barnu a yw rhywun yn ddiogel ac addas neu beidio i ddal trwydded gyrrwr?

3.19 Mae gan yr awdurdod lleol y pwer i fynnu bod ymgeisydd yn darparu: "y cyfryw wybodaeth ag yr ystyriant yn rhesymol sy'n angenrheidiol i'w galluogi i benderfynu a ddylid rhoi'r drwydded ac a ddylid gosod unrhyw amodau wrth drwydded o'r fath."[25] Gall y "wybodaeth" gynnwys unrhyw rag-amodau neu brofion yr ystyriant sy'n angenrheidiol

3.20 Mae rhai o'r rhain yn gyffredin i bob awdurdod, megis asesiadau meddygol[26]. Mae rhai awdurdodau, ond nid eraill, yn gofyn am rai eraill. Yn eu mysg mae:

- Tystysgrifau gwiriad lefel uwch y GDG ac ymuno â'r gwasanaeth cyfoesi;
- Profion gwybodaeth;
- Profion gyrru;
- Ymwybyddiaeth o Anabledd;
- Datganiadau wedi eu Llofnodi;
- Profion Saesneg llafar.

3.21 Gall darparu gwybodaeth ar y telerau hyn fodloni'r awdurdod lleol fod gan rywun y sgiliau a'r medrau i fod yn yrrwr proffesiynol ac i ddal trwydded. Fodd bynnag, mae cysyniadau diogelwch ac addasrwydd yn mynd y tu hwnt i hyn. Rhaid ystyried cymeriad y person hefyd.

3.22 Mae gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat wedi eu heithrio o ddarpariaethau Deddf Adsefydlu Troseddwyr 1974. Ystyr hyn yw na fydd unrhyw euogfarnau wedi eu 'treulio' ac y gellir ystyried unrhyw a phob euogfarn droseddol (ar wahan i "euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddion gwarchodedig" lle cawsant eu datgan[27]) gan yr awdurdod lleol wrth asesu diogelwch ac addasrwydd, ond mai dim ond euogfarnau a dreuliwyd sy'n berthnasol ddylai gael eu hystyried gan y sawl sy'n gwneud y penderfyniad[28].

3.23 Dylid mynnu fod pob ymgeisydd/deiliad trwydded yn cael Tystysgrif Lefel Uwch y GDG gyda gwiriadau rhestr Waharddedig[29] ac yn eu darparu i'r Awdurdod Trwyddedu. Dylai pob deiliad trwydded hefyd ofod cynnal eu Tystysgrifau trwy Wasanaeth Cyfoesi y GDG trwy gydol y cyfnod y bydd eu trwydded mewn grym.

3.24 Os bydd unrhyw ymgeisydd, ers ei b/fod yn 10 mlwydd oed, wedi treulio chwe mis neu fwy yn olynol yn byw y tu allan i'r Deyrnas Unedig, dylid gofyn am dystiolaeth o wiriad record droseddol o'r wlad/gwledydd am y cyfnod perthnasol.

[25] Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a57(1)

[26] Gweler y Ddeddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 a57(2)

[27] "Euogfarnau gwarchodedig" a "rhybuddion gwarchodedig" yw materion unigol, mân a hynafol nad ydynt yn ymddangos ar unrhyw Dystysgrifau GDG.

[28] Gweler *Adamson v Waveney District Council* [1997] 2 All ER 898

[29] "At ddibenion Trwyddedu [gyrwyr] Tacsis, y lefel gywir o wiriad yn wastad yw'r gwiriad lefel Uwch, gyda gwiriad y rhestr Waharddedig o ran Oedolion a Phlant. Dylid nodi Gweithlu Arall yn wastad ar X61 llinell 1 a dylid nodi Trwyddedu Tacsis ar X61 llinell 2" Ebost y GDG 31 Awst 2017.

3.25 Dylai awdurdodau lleol fod â pholisi i roi gwaelodlin am effaith unrhyw euogfarnau, rhybuddion neu unrhyw faterion ymddygiad eraill sy'n ymwneud a diogelwch ac addasrwydd person[30].

3.26 Rhaid i gymeriad y gyrrwr yn ei gyfanrwydd fod yn brif ystyriaeth wrth ystyried a ddylid ei th/drwyddedu ai peidio. Mae'n bwysig sylweddoli nad gosod unrhyw gosb ychwanegol y mae awdurdodau lleol yng nghyswllt euogfarnau neu ymddygiad blaenorol. Maent yn defnyddio'r holl wybodaeth sydd ar gael iddynt i wneud penderfyniad gwybodus ynghylch a yw'r ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded yn berson diogel ac addas ac a yw'n parhau i fod felly.

3.27 Mae adegau lle cafodd pobl anaddas drwyddedau gan awdurdodau lleol, neu os gwrthododd yr awdurdod un, bod llys wedi ei roi ar apêl.

3.28 Yn aml, mae hyn oherwydd rhyw ganfyddiad o galedi. Dywed cyfraith achos yn glir nad yw effaith colli ( neu beidio â chael) trwydded gyrrwr ar yr ymgeisydd a'i deulu yn rhywbeth i'w gymryd i ystyriaeth[31]. Mae hyn wedyn yn arwain at y cwestiwn a yw'r safbwynt a gymerir gan awdurdodau lleol yn ddigon cadarn i gyrraedd y nod hollbwysig o warchod y cyhoedd.

3.29 Fodd bynnag, yn rhy aml o lawer, mae awdurdodau lleol yn gwyro oddi wrth eu polisiau ac yn rhoi trwyddedau (neu'n peidio â chymryd camau yn erbyn deiliaid trwyddedau) heb resymau clir a phendant. Mae'n hanfodol fod Cynghorwyr yn cydnabod mai'r polisi, er mai polisi ydyw ac felly yn gyfystyr â chanllawiau'r Awdurdod ei hun ar y mater, yn waelodlin o ran yr hyn sy'n dderbyniol. Dylid gwyro oddi wrtho yn unig dan amgylchiadau eithriadol ac am resymau y mae modd eu cyfiawnhau, a dylid cofnodi hynny.

3.30 Un camddealltwriaeth cyffredin yw, os na chyflawnwyd y drosedd pan oedd y gyrrwr yn gyrru tacsi, ei bod yn llai difrifol o lawer, neu hyd yn oed os oedd mewn tacsi ond nid pan oedd teithwyr yn y cerbyd. Nid yw hynny'n berthnasol: mae goryrru yn beryglus, waeth beth fo'r sefyllfa; mae gyrru dan ddylanwad diod yn beryglus, waeth beth fo'r sefyllfa; mae teiars moel yn beryglus, waeth beth fo'r sefyllfa. Mae pob ymddygiad fel hyn yn peryglu'r cyhoedd yn gyffredinol. Mae trais yn wastad yn ddifrifol. Mae dadlau mai anghydfod domestig ydoedd, neu na ddigwyddodd yn y tacsi, yn amherthnasol. Os oes gan berson duedd at drais, mae'r potensial hwnnw'n bodoli ym mhob sefyllfa. Mae troseddau rhyw yn wastad yn ddifrifol. Mae rhywun sydd yn y gorffennol wedi camddefnyddio ei sefyllfa (beth bynnag oedd y sefyllfa honno) i ymosod yn rhywiol ar rywun arall wedi arddangos safonau ymddygiad hollol annerbyniol.

3.31 Efallai y bydd ymgeiswyr yn honni eu bod wedi ceisio gwaith mewn meysydd eraill a'i bod wedi eu gwrthod oherwydd eu hanes blaenorol, yn enwedig os oes euogfarnau yn yr hanes hwnnw. Maent felly yn ceisio dod yn yrwyr trwyddedig fel dewis olaf. Nid yw hyn yn dderbyniol, oherwydd byddai rhoi trwydded yn gosod person o'r fath mewn sefyllfa unigryw o ymddiriedaeth. Prif gyfrifoldeb awdurdod trwyddedu yw gwarchod y cyhoedd, nid rhoi cyfle am waith.

3.32 Mae disgwyl i ddeiliaid trwydded ymddwyn yn broffesiynol bob amser, boed hynny yng nghyd-destun eu gwaith neu fel arall. Dylai deiliaid trwydded fod yn gwrtais, osgoi gwrthdaro,

[30] Fel yr argymhellwyd gan yr Adran Drafnidiaeth "Taxi and Private Hire Licensing – Best Practice Guide" para 59

[31] *Leeds City Council v Hussain* [2002] EWHC 1145 (Admin), [2003] RTR 199 and *Cherwell District Council v Anwar*[2011] EWHC 2943 (Admin)

peidio â bod yn sarhaus na dangos rhagfarn mewn unrhyw fodd. Ni ddylai deiliaid trwydded fyth gymryd y gyfraith i'w dwylo eu hunain. Mae disgwyl i ddeiliaid trwydded weithredu'n unplyg ac ymddwyn mewn modd sy'n cyfiawnhau'r ffydd a roddir ynddynt.

3.33 Mae yna rai sy'n ceisio cymryd mantais o bobl fregus trwy ddarparu gwasanaethau nad oes ganddynt mo'r hawl i'w darparu; er enghraifft, trwy geisio cael eu llogi mewn ardal lle nad oes ganddynt hawl i wneud hynny. Mae disgwyl i ddeiliaid trwydded fod yn wyliadwrus rhag ymddygiad o'r fath, ac adrodd am unrhyw bryderon wrth yr Heddlu a'r awdurdod trwyddedu perthnasol. Dylai teithwyr deimlo'n ddigon hyderus i wirio fod gan y sawl sy'n cynnig gwasanaeth hawl i wneud hynny. Dylai deiliaid trwydded fod yn barod i ddangos fod ganddynt yr hawl i ddarparu'r gwasanaeth a gynigir y gwasanaeth trwy, er enghraifft, ddangos eu bathodyn.

3.34 Fel cymdeithas, mae angen i ni ofyn y cwestiwn "pwy sy'n gyrru fy nhacsi?" a gwybod mai'r ateb yw "person diogel ac addas". Mae mwyafrif llethol y gyrwyr yn bobl barchus sy'n cadw at y gyfraith, ac sy'n gweithio'n galed iawn i roi gwasanaeth da i'w cwsmeriaid a'r gymuned yn gyffredinol. Fodd bynnag, gall penderfyniadau gwael gan awdurdodau lleol a'r llysoedd danseilio hyder y cyhoedd sy'n teithio yn y fasnach gyfan. Oni fydd awdurdodau lleol a'r llysoedd yn barod i gymryd penderfyniadau cadarn (ac anodd) i gynnal y safonau a osodir gan yr awdurdod lleol, ac mewn rhai achosion i dynhau eu polisiau eu hunain, ni all y cyhoedd fod â hyder llwyr mewn gyrwyr tacsi. Mae hyn yn niweidiol i bawb.

## Gweithredwyr Hurio Preifat

3.35 Gweithredwr hurio preifat ("GHP") yw'r person sy'n cymryd yr archeb am gerbyd hurio preifat ("CHP"), ac yna'n anfon CHP sy'n cael ei yrru gan yrrwr hurio preifat trwyddedig ("GrHP") i gyflawni'r archeb. Rhaid i'r tri math o drwydded (GHP, CHP a GrHP) fod wedi eu rhoi gan yr un awdurdod[32]. Ni all awdurdod lleol roi trwydded GHP onid oes gan yr ymgeisydd yr hawl i weithio yn y DU a'i b/fod yn berson addas a phriodol[33].

3.36 Fel gyda gyrwyr tacsi, mae rôl y GHP yn mynd ymhell y tu hwnt i gymryd archebion ac anfon cerbydau. Wrth gymryd yr archeb ac anfon y cerbyd a'r gyrrwr, bydd y GHP yn cael cryn dipyn o wybodaeth bersonol. Mae'n hanfodol felly fod GHP mor ddibynadwy â'r gyrrwr, er bod ychydig mwy o bellter yn eu rôl. Mae modd archebu cerbydau hacni ymlaen llaw hefyd, ond dylai awdurdodau lleol gofio, pan archebir gan unrhyw un ar wahan i yrrwr cerbyd hacni, nad oes unrhyw gamau rheoli na gweithdrefnau fetio ar gael yng nghyswllt y person sy'n cymryd yr archeb honno ac yn dal y wybodaeth bersonol dan sylw.

3.37 Sut felly mae awdurdod lleol yn bodloni ei hun ynghylch "addasrwydd a phriodoldeb" neu "ddiogelwch ac addasrwydd" yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded?

3.38 Mae modd cymryd euogfarnau a dreuliwyd i ystyriaeth wrth bennu addasrwydd am drwydded, ond gellir gofyn yn unig i'r ymgeisydd (neu ddeiliaid trwydded sydd am ei adnewyddu) gael Datgeliad Sylfaenol gan y Gwasanaeth Datgelu ac Atal.

3.39 Er nad yw'r system yn berffaith o bell ffordd, y mae'n rhoi sylfaen resymol i awdurdodau lleol dod i benderfyniad gwybodus am addasrwydd a phriodoldeb ymgeisydd neu rywun sydd eisoes â

thrwydded.

[32] Gweler *Dittah v Birmingham City Council, Choudhry v Birmingham City Council* [1993] RTR 356 QBD

[33] Adran 55(1) Deddf Llywodraeth leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976

3.40 Fel bod modd gwneud penderfyniadau cyson a gwybodus, mae'n bwysig cael prawf ar waith o addasrwydd a phriodoldeb GHP, ac y mae modd defnyddio amrywiad addas o'r prawf i yrwyr:

"Fuaswn i'n gyfforddus yn darparu gwybodaeth sensitif fel cynlluniau gwyliau, symudiadau fy nheulu neu wybodaeth arall i'r person hwn, a theimlo'n ddiogel i wybod na fydd y cyfryw wybodaeth yn cael ei ddefnyddio na'i basio ymlaen at ddibenion troseddol neu annerbyniol?"[34]

3.41 Mae pwynt pellach i'w ystyried yng nghyswllt GHP, sef y staff a ddefnyddir ar y ffonau a'r radios. Does dim rheswm pam na ellir gosod amod ar drwydded GHP yn mynnu bod gwiriadau'n cael eu cynnal ar y sawl maent yn gyflogi/defnyddio yn eu cwmni i fodloni eu hunain eu bod yn bobl addas a phriodol i wneud y dasg honno a chadw'r wybodaeth i ddangos i'r awdurdod lleol eu bod wedi cydymffurfio. Byddai unrhyw fethiant ar ran y GHP naill ai i gydymffurfio â'r gofyniad hwn, neu i weithredu ar wybodaeth maent yn gael (a thrwy hynny ganiatáu i staff anaddas weithio mewn safleoedd o ymddiriedaeth) wedyn ag oblygiadau difrifol i barhad addasrwydd a phriodoldeb y GHP.

3.42 Dylid bod yn ofalus mewn amgylchiadau lle ceisir trwydded GHP yn enw cwmni cyfyngedig, partneriaeth neu strwythur busnes arall yr atebir yr holl ofynion sy'n gymwys i ymgeisydd unigol yng nghyswllt pob cyfarwyddwr neu bartner y sefydliad sy'n gwneud cais[35]. Dim ond trwy wneud hyn y gellir penderfynu ar addasrwydd a phriodoldeb yr endid sy'n gweithredu.

## Perchenogion Cerbydau

3.43 Mae ystyriaethau tebyg yn gymwys i berchenogion cerbydau, yn gerbydau hacni a hurio preifat (y cyfeirir atynt yma yn gyffredinol fel "tacsis"). Er na fydd perchennog y cerbyd, efallai, yn gyrru cerbyd (ac os bydd, bydd yn destun prawf addasrwydd a phriodoldeb ei hun er mwyn cael trwydded gyrrwr), mae'n amlwg y bydd ganddi/o ddiddordeb yn y defnydd a wneir o'r cerbyd. Bydd hefyd yn gyfrifol am gynnal a chadw'r cerbyd, oherwydd bod cerbydau nad ydynt wedi eu cynnal a'u cadw'n iawn yn cael effaith amlwg ar ddiogelwch y cyhoedd.

3.44 Mae tacsis yn cael eu defnyddio i gludo pobl; dan bob math o amgylchiadau, ac fe'u gwelir ym mhobman ledled y Deyrnas Unedig, ar bob adeg o'r dydd a'r nos, mewn unrhyw le. Felly, gallai tacsis fod yn system gludo i weithgareddau anghyfreithlon neu unrhyw fath o gontraband, boed yn gyffuriau, gynnau, alcohol neu dybaco anghyfreithlon, neu bobl sy'n gweithredu'n anghyfreithlon neu'n dioddef yn sgil hynny, neu blant sy'n cael eu cam-drin neu'n dioddef camfanteisio, neu lle mae risg y bydd hyn yn digwydd.

3.45 O ran cerbydau hacni a hurio preifat, mae gan yr awdurdod lleol ddisgresiwn absoliwt dros roi'r drwydded[36] a dylent wneud yn siwr felly fod eu hymholiadau a'u hystyriaethau yn gadarn. Mae'n fater llawer mwy na dim ond edrych ar y cerbyd ei hun, ac y mae'r un mor gymwys am geisiadau i drosglwyddo cerbyd ag i gerbyd ei hun.

3.46 Eto, nid yw hwn yn alwedigaeth a eithriwyd at ddibenion Deddf 1974, ond gellir cymhwyso'r un broses yn union a'r un i weithredwyr hurio preifat – GDG Sylfaenol, datganiad statudol ac

---

[34] Button on Taxis – Licensing Law and Practice 4th Ed Bloomsbury Professional ym mhara 12.35

[35] Gweler a57(1)(c) Deddf 1976.

[36] A37 Deddf 1847 yng nghyswllt cerbydau hacni; adran 48 Deddf 1976 yng nghyswllt cerbydau hurio preifat.

ystyried euogfarnau a dreuliwyd. Gellir defnyddio hyn wedyn yng ngoleuni polisi tebyg o ran addasrwydd fel sydd gan yr awdurdod eisoes ar gyfer gyrwyr a GHP.

3.47 Prawf addas fyddai: "A fuaswn i'n gyfforddus i ganiatau i'r person hwn fod â rheolaeth dros gerbyd trwyddedig all deithio i unrhyw le, ar unrhyw adeg o'r dydd neu'r nos heb beri amheuaeth, a bod yn fodlon na fyddai'n caniatau ei ddefnyddio at ddibenion troseddol na dibenion annerbyniol eraill, a bod yn hyderus y byddai'n ei gynnal i safon dderbyniol trwy gydol cyfnod y drwydded?"[37]

## Pennod 4: Canllawiau ar Benderfynu

4.1 Fel sy'n amlwg o'r trosolwg o Droseddwyr a Throseddu uchod, does dim tystiolaeth a all ddweud yn union pa gyfnodau o amser sy'n gorfod mynd heibio wedi trosedd cyn y gellir ystyried nad oes risg i berson aildroseddu, ond y mae'r risg yn lleihau dros amser. Yng ngoleuni hynny, mae'r amseroedd isod yn cael eu hawgrymu gyda'r bwriad o ddod â'r risg i'r cyhoedd i lawr i lefel dderbyniol.

4.2 Mae llawer aelod o'n cymdeithas yn defnyddio, a hyd yn oed yn dibynnu ar, gerbydau hacni a hurio preifat am wasanaethau cludo. Gall hyn fod yn rheolaidd, neu ambell waith yn unig, ond ym mhob achos, rhaid i deithwyr, defnyddwyr eraill y ffyrdd a chymdeithas yn ei chyfanrwydd fod a hyder yn niogelwch ac addasrwydd y gyrrwr, y cerbyd ei hun, ac unrhyw un sy'n rhan o'r broses archebu.

4.3 Yn ddelfrydol, byddai pawb sy'n rhan o'r fasnach cerbydau hacni a hurio preifat (gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat, perchenogion cerbydau hacni a hurio preifat, a gweithredwyr hurio preifat) yn bobl hollol unplyg. Mewn llawer achos, mae hynny'n wir, ac y mae mwyafrif llethol y sawl sy'n ymwneud â'r fasnach yn unigolion parchus, unplyg a gonest sy'n gweithio'n galed. Yn anffodus, fel gydag unrhyw alwedigaeth neu fasnach, fe gewch rai sy'n methu â chydymffurfio â'r safonau hynny.

4.4 Pwrpas y ddogfen hon yw cynnig canllawiau am sut y gall awdurdodau trwyddedu bennu a yw unigolyn yn ddiogel ac addas naill ai i gael trwydded yn y lle cyntaf neu i gadw'r cyfryw drwydded. Fel yr amlinellwyd uchod, gall polisi fod yn un cadarn, ac os bydd angen, yn dweud na chaiff rhywun fyth, a bod pob achos yn cael ei ystyried yn unigol yng ngoleuni'r polisi hwnnw.

### Gofynion cyn gwneud cais

4.5 Mae gan awdurdodau trwyddedu hawl i osod eu gofynion eu hunain cyn i bobl wneud cais. Bydd y rhain yn amrywio yn ôl y math o drwydded dan sylw, ond gallant gynnwys y cyfan neu rai o'r canlynol (nid yw'r rhain yn rhestri cyflawn):

**Cerbydau:**

- Gwiriadau GDG sylfaenol;
- Manylebion, e.e., isafswm nifer o ddrysau, isafswm maint seddi, uchdwr rhydd, lle yn y gist etc;

- Profion mecanyddol a phrofion ar gynnal a chadw'r cerbyd, e.e., seddi wedi eu rhwygo, etc;
- Cyfyngiadau allyriadau/terfynau oedran y cerbyd;

[37] Button on Taxis – Licensing Law and Practice 4th Ed Bloomsbury Professional ym mhara 8.98

- Gofynion hygyrchedd cadeiriau olwyn.

## Gyrwyr:

- Gwiriadau lefel uwch y GDG gyda gwasanaeth cyfoesi;
- Gwiriadau gyda chronfa ddata'r Rhwydwaith Cenedlaethol Gwrth-Dwyll ar wrthod a diddymu trwyddedau cerbydau hacni a hurio preifat (pan fyddant ar gael);
- Gwiriadau meddygol;
- Gwybodaeth o'r ardal ddaearyddol;
- Profion Saesneg llafar ac ysgrifenedig;
- Hyfforddiant mewn ymwybyddiaeth o anabledd;
- Hyfforddiant ar gam-fanteisio rhywiol ar blant a diogelu.

## Gweithredwyr:

- Gwiriadau GDG sylfaenol;
- Manylion o'u trefniadau fetio ar gyfer eu staff;
- Gwybodaeth o'r ardal drwyddedu.

4.6 Yng nghyswllt pob un o'r trwyddedau hyn, mae gan yr awdurdod trwyddedu ddisgresiwn ynghylch rhoi trwydded neu beidio.

4.7 Ni all gyrwyr na gweithredwyr gael trwydded oni fydd yr awdurdod yn fodlon eu bod yn "berson addas a phriodol" i ddal y drwydded honno (gweler Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 au 51 a 59 am yrwyr, a55 am weithredwyr).

4.8 Nid oes meini prawf statudol am drwyddedau cerbydau, felly mae gan yr awdurdod ddisgresiwn absoliwt dros roi trwydded perchennog cerbyd hacni neu hurio preifat neu beidio.

4.9 Mae "addas a phriodol" yn golygu bod yr unigolyn (neu yn achos trwydded gweithredwr hurio preifat, y cwmni cyfyngedig ynghyd â'i gyfarwyddwyr a'r ysgrifennydd, neu bob aelod o bartneriaeth[38]) yn "ddiogel ac addas" i ddal y drwydded.

4.10 Wrth bennu diogelwch ac addasrwydd, mae gan yr awdurdod trwyddedu hawl i gymryd i ystyriaeth bob mater ynghylch yr ymgeisydd neu'r deiliad trwydded hwnnw. Nid ymwneud yn unig y maent ag ymddygiad y person hwnnw tra'r oedd yn gweithio yn y fasnach cerbyd hacni neu hurio preifat. Mae'r ystyriaeth hon yn ehangach o lawer na dim ond euogfarnau troseddol neu dystiolaeth arall o ymddygiad annerbyniol, a chaiff holl gymeriad yr unigolyn ei ystyried. Gall hyn gynnwys agwedd a natur yr unigolyn, ond nid hynny'n unig.

4.11 Bydd euogfarnau am geisio neu gynllwynio yn cael eu hystyried fel euogfarnau am y drosedd ei hun. Edrychir ar rybudd yn yr un modd yn union ag euogfarn[39]. Caiff cosbau sefydlog ac atebion

cymunedol hefyd eu hystyried yn yr un modd ag euogfarn.

---

[38] Mae Adran 57(2)(c) Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976 yn caniatau i awdurdod lleol ystyried cymeriad cyfarwyddwr neu ysgrifennydd cwmni, neu unrhyw bartner.

[39] Mae hyn oherwydd y gellir rhoi rhybudd yn unig wedi i rywun gyfaddef ei f/bod yn euog, sy'n cyfateb i ble o euog adeg erlyn.

[40] Mae hyn oherwydd bod talu cosb sefydlog yn golygu derbyn ei f/bod yn euog, ac y gellir rhoi ateb cymunedol yn unig wedi i rywun gyfaddef euogrwydd.

4.12 Mae'n bwysig cydnabod y bydd materion nad ydynt wedi arwain at euogfarn droseddol (boed hynny'n ganlyniad i gael yn ddieuog, diddymu euogfarn, penderfyniad i beidio ag erlyn, neu ymchwiliad sy'n parhau lle mae'r unigolyn ar fechnïaeth) yn gallu cael eu cymryd i ystyriaeth gan yr awdurdod trwyddedu, ac fe wnânt hynny. Ystyrir hefyd gwynion nad oedd yr heddlu'n rhan ohonynt. Yn y ddogfen hon, bydd unrhyw gyfeiriad at "euogfarn" hefyd yn cynnwys materion sydd yn gyfystyr ag ymddygiad troseddol, ond nad ydynt wedi arwain at euogfarn.

4.13 Yn achos unrhyw ymgeisydd newydd a gyhuddwyd o drosedd ac sy'n aros i sefyll ei brawf, caiff y penderfyniad ei ohirio hyd nes i'r achos ddod i ben neu i'r cyhuddiadau gael eu tynnu'n ôl. Lle bod rhywun sydd eisoes â thrwydded yn cael ei g/chyhuddo, mater i'r awdurdod trwyddedu fydd penderfynu pa gamau i'w cymryd yng ngoleuni'r canllawiau hyn.

4.14 Ym mhob achos, bydd yr awdurdod trwyddedu yn ystyried yr euogfarn neu'r ymddygiad dan sylw a pha bwysau ddylid ei roi iddo, a phennir pob achos yn unigol, ac yng ngoleuni'r canllawiau hyn.

4.15 Bydd unrhyw droseddau a gyflawnir, neu ymddygiad annerbyniol yr adroddir amdano tra'n gyrru cerbyd hacni neu gerbyd hurio preifat, ynglŷn â defnyddio cerbyd hacni neu hurio preifat, neu yng nghyswllt gweithredwr cerbyd hurio preifat yn cael eu gweld fel nodweddion sy'n gwaethygu, ac ni welir y ffaith nad oedd a wnelo unrhyw droseddau eraill â'r fasnach cerbydau hacni a hurio preifat fel ffactorau lliniaru.

4.16 Gan y bydd yr awdurdod trwyddedu yn edrych ar yr unigolyn cyfan, mewn llawer achos ni phennir diogelwch ac addasrwydd trwy fod cyfnod penodol o amser wedi mynd heibio ers yr euogfarn neu gwblhau dedfryd. Y mae cyfnodau amser yn berthnasol ac yn ystyriaethau y dylid rhoi pwys arnynt, ond nid hwy yw'r unig ffactor sy'n pennu.

4.17 Yn ychwanegol at natur y drosedd neu ymddygiad arall, ystyrir hefyd faint o faterion a thros ba gyfnod y gwnaethant ddigwydd. Mae patrymau o ymddygiad annerbyniol neu droseddol ailadroddus yn debygol o beri mwy o bryder na digwyddiadau unigol, gan y gall patrymau o'r fath fod yn arwydd o duedd i ymddwyn felly neu i droseddu.

4.18 Ni fydd gan y rhan fwyaf o ymgeiswyr na deiliaid trwydded unrhyw euogfarnau, a dyna'r sefyllfa ddelfrydol, yn amlwg. O ran pobl eraill, yr ydym yn derbyn fod bodau dynol yn gwneud camgymeriadau ac yn ymddwyn mewn ffyrdd na ddylent am amrywiol resymau, a derbynnir ymhellach fod llawer yn dysgu o'r profiad ac nad ydynt yn mynd ymlaen i gyflawni mwy o droseddau. Felly, mewn llawer achos efallai na fydd un euogfarn, yn enwedig os digwyddodd gryn amser yn ôl, yn atal rhoi neu adnewyddu trwydded.

4.19 Mae'n bwysig cydnabod hefyd, unwaith i drwydded gael ei roi, fod gofyniad cyson ar ran deiliad y drwydded i gynnal ei d/ddiogelwch a'i h/addasrwydd. Mae gan yr awdurdod trwyddedu bwerau i weithredu yn erbyn deiliad pob math o drwydded (gyrrwr, cerbyd a gweithredwr) a rhaid deall y bydd unrhyw euogfarnau neu gamau eraill ar ran deiliad y drwydded a fuasai wedi ei h/atal rhag cael trwydded y tro cyntaf y gwnaed cais yn arwain at ddiddymu'r drwydded honno.

4.20 Bydd unrhyw anonestrwydd gan unrhyw ymgeisydd neu berson arall ar ran yr

ymgeisydd a welwyd fod wedi digwydd yn unrhyw ran o'r broses ymgeisio (e.e. methu â datgan euogfarnau, enwau neu gyfeiriadau ffug, ffugio geirda) yn arwain at wrthod trwydded, neu os rhoddwyd un eisoes, eu diddymu ac fe all arwain at erlyniad.

4.21 Oherwydd bod yr effaith uniongyrchol ar y cyhoedd yn amrywio yn ôl math y drwydded y gwneir cais amdani neu a ddelir, rhaid ystyried effaith troseddau arbennig ar y trwyddedau hynny ar wahan. Fodd bynnag, mae rhai ystyriaethau sy'n goresgyn hyn ac a fydd yn gymwys dan bob amgylchiad.

4.22 Yn gyffredinol, lle mae gan berson fwy nag un euogfarn, bydd hyn yn codi cwestiynau difrifol am ei d/ddiogelwch a'i h/addasrwydd. Mae'r awdurdod trwyddedu yn chwilio am unigolion diogel ac addas, ac unwaith i batrwm neu duedd o droseddu ymddangos, ni roddir trwydded na'i adnewyddu.

4.23 Lle ceir ymgeisydd/deiliad trwydded yn euog o drosedd nad oes manylion amdani yn y canllaw hwn, bydd yr awdurdod trwyddedu yn cymryd yr euogfarn honno i ystyriaeth ac yn defnyddio'r canllawiau hyn i roi syniad o'r agwedd y dylid ei chymryd.

4.24 Nid yw'r canllawiau hyn yn cymryd lle dyletswydd yr awdurdod trwyddedu i wrthod rhoi trwydded lle nad ydynt yn fodlon fod yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded yn berson addas a phriodol. Lle nad yw sefyllfa yn dod dan y canllawiau hyn, rhaid i'r awdurdod ystyried y mater o'r egwyddorion cyntaf a phennu addasrwydd a phriodoldeb yr unigolyn.

### Gyrwyr

4.25 Gan fod y meini prawf am bennu a ddylai unigolyn gael neu gadw trwydded cerbyd hacni yr un fath yn union a'r meini prawf am bennu trwydded gyrrwr cerbyd hurio preifat, ystyrir y naill a'r llall gyda'i gilydd.

4.26 Mae gan yrrwr gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch ei deithwyr, cyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch defnyddwyr eraill y ffyrdd, a chryn dipyn o reolaeth dros deithwyr sydd yn y cerbyd. Gan y gall y teithwyr hynny fod ar eu pennau eu hunain, ac y gallant hefyd fod yn fregus, bydd unrhyw euogfarnau neu ymddygiad annerbyniol blaenorol yn pwyso'n drwm yn erbyn rhoi neu gadw trwydded.

4.27 Fel y dywedwyd uchod, lle mae gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn sy'n dangos patrwm neu duedd, waeth faint o amser a aeth heibio ers yr euogfarnau, bydd angen dwys ystyried a yw'n berson diogel ac addas ai peidio.

4.28 O ran euogfarnau unigol, dylai'r cyfnodau canlynol o amser fynd heibio ers cwblhau'r ddedfryd (neu ddyddiad yr euogfarn os gosodwyd dirwy) cyn rhoi trwydded.

## Troseddau sy'n arwain at farwolaeth

4.29 Lle cafwyd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded yn euog o drosedd a arweiniodd at

farwolaeth rhywun arall neu a fwriadwyd i achosi marwolaeth neu anaf difrifol i berson arall, ni chaiff ei d/thrwyddedu.

**Camfanteisio**

4.30 Lle cafwyd ymgeisydd neu ddeiliad trwydded yn euog o drosedd oedd yn ymwneud neu a chysylltiad o gwbl â cham-drin, camfanteisio neu drin unrhyw unigolyn arall, boed y dioddefwr neu'r dioddefwyr yn oedolion neu yn blant, ni chaiff ei d/thrwyddedu. Mae hyn yn cynnwys caethwasiaeth, camfanteisio'n rhywiol ar blant, meithrin at ddibenion rhywiol, camdriniaeth seicolegol, emosiynol neu ariannol, ond nid yw hon yn rhestr gyflawn.

## Troseddau o drais

4.31 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am drosedd o drais, neu'n gysylltiedig ag unrhyw drosedd o drais, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 10 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

## Bod ym meddiant arf

4.32 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am fod ym meddiant arf neu unrhyw drosedd arall yn ymwneud ag arf, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

## Troseddau rhyw ac anwedduster

4.33 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd sy'n gysylltiedig neu'n ymwneud â gweithgaredd rhywiol anghyfreithlon neu unrhyw fath o anwedduster, ni roddir trwydded.

4.34 Yn ychwanegol at yr uchod, ni fydd yr awdurdod trwyddedu yn rhoi trwydded i unrhyw ymgeisydd sydd ar hyn o bryd ar y Gofrestr Troseddwyr Rhyw neu ar unrhyw restr 'waharddedig'.

## Anonestrwydd

4.35 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd o anonestrwydd, neu unrhyw drosedd lle mae anonestrwydd yn elfen o'r drosedd, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

## Cyffuriau

4.36 Lle bo gan ymgeisydd unrhyw euogfarn am, neu yn gysylltiedig â, chyflenwi cyffuriau, neu fod yn eu meddiant gyda'r bwriad o gyflenwi neu'n gysylltiedig â bod ym meddiant gyda'r bwriad

o gyflenwi, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 10 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

4.37 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am fod ym meddiant cyffuriau, neu'n ymwneud a bod ym meddiant cyffuriau, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael prawf cyffuriau ar ei g/chost ei hun i ddangos nad yw'n defnyddio cyffuriau rheoledig.

## Camwahaniaethu

4.38 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn sy'n gysylltiedig neu'n ymwneud â chamwahaniaethu o unrhyw fath, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

## Euogfarnau moduro

4.39 Mae gyrwyr cerbydau hacni a hurio preifat yn yrwyr proffesiynol sydd â chyfrifoldeb am gludo'r cyhoedd. Mae unrhyw euogfarn moduro yn dangos diffyg proffesiynoldeb ac fe'i hystyrir yn ddifrifol. Yr ydym yn derbyn y gall troseddau gael eu cyflawni yn anfwriadol, ac na fyddai un mân drosedd traffig yn gwahardd rhoi trwydded neu na fydd o raid yn golygu cymryd camau yn erbyn trwydded sy'n bodoli eisoes. Mae euogfarnau dilynol yn ategu'r ffaith nad yw deiliad y drwydded yn cymryd ei g/chyfrifoldebau proffesiynol o ddifrif ac na yw felly yn berson diogel ac addas i gael neu i gadw trwydded.

## Yfed a gyrru/gyrru dan ddylanwad cyffuriau/defnyddio ffôn llaw neu ddyfais yn y llaw wrth yrru

4.40 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am yfed a gyrru neu yrru dan ddylanwad cyffuriau, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru a osodwyd. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd yn rhaid i unrhyw ymgeisydd hefyd gael prawf cyffuriau ar ei g/chost ei hun i ddangos nad yw'n defnyddio cyffuriau rheoledig.

4.41 Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am ddefnyddio ffôn symudol yn y llaw neu ddyfais yn y llaw wrth yrru, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi mynd heibio ers yr euogfarn neu gwblhau unrhyw ddedfryd neu waharddiad gyrru a osodwyd, pa un bynnag yw'r hwyraf.

## Troseddau moduro eraill

4.42 Mân drosedd traffig neu un sy'n gysylltiedig â cherbyd yw un nad oedd yn golygu colli bywyd, gyrru dan ddylanwad diod neu gyffuriau, gyrru tra'n defnyddio ffôn symudol, ac nad arweiniodd at anaf i unrhyw berson na difrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Lle bo gan ymgeisydd 7 neu fwy o bwyntiau ar ei th/drwydded DVLA am fân droseddau traffig neu debyg, ni

roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 5 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

4.43  Trosedd o bwys sy'n gysylltiedig â thraffig neu gerbydau yw un nad yw'n dod dan yr uchod a hefyd unrhyw drosedd a arweiniodd at anaf i unrhyw berson neu ddifrod i unrhyw eiddo (gan gynnwys cerbydau). Mae hefyd yn cynnwys gyrru heb yswiriant neu unrhyw drosedd sy'n gysylltiedig ag yswiriant modur. Lle bo gan ymgeisydd euogfarn drosedd traffig o bwys neu drosedd debyg, ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

## Troseddau cerbydau hacni a hurio preifat

4.44  Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am drosedd sy'n gysylltiedig neu'n ymwneud â gweithgaredd cerbydau hacni neu hurio preifat (heb gynnwys defnydd o gerbyd), ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

## Troseddau o ran defnyddio cerbydau

4.45  Lle bo gan ymgeisydd euogfarn am unrhyw drosedd oedd yn golygu defnyddio cerbyd (gan gynnwys cerbydau hacni a hurio preifat), ni roddir trwydded hyd nes bod o leiaf 7 mlynedd wedi mynd heibio ers cwblhau unrhyw ddedfryd a osodwyd.

### Gweithredwyr Hurio Preifat

4.46  Nid oes gan weithredwr hurio preifat ("gweithredwr") gyfrifoldeb uniongyrchol dros ddiogelwch teithwyr, defnyddwyr eraill y ffyrdd na chyswllt uniongyrchol â theithwyr sydd yn y cerbyd hurio preifat (ac eithrio lle mae hefyd wedi eu trwyddedu fel gyrwyr hurio preifat). Fodd bynnag, wrth gyflawni ei d/ddyletswyddau, mae'n dal cryn dipyn o wybodaeth bersonol a phreifat am ei d/theithwyr, a rhaid ei drin yn gyfrinachol a pheidio â'i ddatgelu i eraill, na'i ddefnyddio gan y gweithredwr na'i staff at ddibenion troseddol neu annerbyniol eraill.

4.47  Fel y dywedwyd uchod, lle bo gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd angen dwys ystyried a yw'n berson diogel ac addas neu beidio.

4.48  Rhaid i weithredwyr sicrhau bod unrhyw staff a ddefnyddir yn y busnes (bod yn gyflogedig neu'n gontractwyr annibynnol) ac sy'n gallu cyrchu unrhyw wybodaeth a ddisgrifir uchod yn dod dan yr un safonau â'r gweithredwr ei hun. Mae modd gwneud hyn trwy i'r gweithredwr fynnu bod yr aelod staff unigol yn cael tystysgrif sylfaenol y GDG. Os gwelir nad yw gweithredwr yn cymhwyso'r  safonau angenrheidiol ac yn defnyddio staff nad ydynt yn cwrdd â meini prawf cyffredinol yr awdurdod trwyddedu, bydd hynny'n golygu y diddymir trwydded y gweithredwr.

4.49  Gan fod hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn niogelwch ac uniondeb y system hurio preifat yn hanfodol, cymhwysir yr un safonau i weithredwyr â'r rhai sy'n gymwys i yrwyr, fel sydd wedi eu hamlinellu uchod.

## Perchenogion Cerbydau

4.50 Mae gan berchenogion cerbydau (cerbydau hacni a hurio preifat) ddau brif gyfrifoldeb. Yn gyntaf, rhaid iddynt ofalu bod y cerbyd yn cael ei gynnal a'i gadw i safon dderbyniol bob amser. Yn ail, rhaid iddynt ofalu nad yw'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio at ddibenion anghyfreithlon.

4.51 Fel y dywedwyd uchod, lle bo gan ymgeisydd fwy nag un euogfarn, bydd angen dwys ystyried a yw'n berson diogel ac addas i gael neu i gadw trwydded cerbyd.

4.52 Gan fod hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn niogelwch ac uniondeb y system hurio preifat yn hanfodol, cymhwysir yr un safonau i berchenogion â'r rhai sy'n gymwys i yrwyr, fel sydd wedi eu hamlinellu uchod.

// Diolchiadau

Ym mis Rhagfyr 2015, sefydlodd y Sefydliad Trwyddedu weithgor i edrych ar greu model neu set safonol o ganllawiau o ran asesu addasrwydd ymgeiswyr a deiliaid trwyddedau yng nghyswllt Gyrwyr tacsis, gweithredwyr a pherchenogion cerbydau, gan ystyried cymeriad yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded.

Dyma oedd y grŵp prosiect craidd:

- Stephen Turner, Cyfreithiwr yng Nghyngor Dinas Hull, Arweinydd Trwyddedu Lawyers in Local Government ac Is-Gadeirydd Rhanbarth Gogledd-Orllewin Lloegr y ST (Cadeirydd y Grŵp Prosiect)
- Jim Button, Cyfreithiwr gyda James Button & Co a Llywydd y ST
- Philip Colvin, CB, Cornerstone Barristers a Noddwr y ST
- John Miley, Rheolwr Trwyddedu Cyngor Bwrdeistref Broxtowe, Cadeirydd Cenedlaethol NALEO ac Is-Gadeirydd Rhanbarth Dwyrain Canolbarth Lloegr y ST
- Linda Cannon, cyn-Reolwr Trwyddedu Cynghorau Basingstoke a Dean and Hart, ac yn awr yn ymgynghorydd trwyddedu preifat a Chadeirydd Rhanbarth De Ddwyrain Lloegr y ST
- Phil Bates, Rheolwr Trwyddedu Cyngor Dinas Southampton
- Sue Nelson, Swyddog Gweithredol y ST

Mae'r Canllaw hwn yn ganlyniad gwaith tîm y prosiect ac yn cynnwys ystyriaeth o hanes blaenorol yr ymgeisydd neu ddeiliad y drwydded a pherthnasedd hyn i'w 'gymeriad' yn ogystal ag ystyriaeth o wybodaeth am euogfarnau, rhybuddion a'r hyn nad yw'n euogfarn.

Mae'n bleser gan y Sefydliad gael cyfraniad a chefnogaeth y Gymdeithas Llywodraeth Leol, Cymdeithas Genedlaethol y Swyddogion Trwyddedu a Gorfodaeth a Lawyers in Local Government i'r prosiect hwn gyda'r ST.

Mae'r Sefydliad hefyd yn ddiolchgar i eraill a gyfrannodd at waith grŵp y prosiect, gan gynnwys y cyn-swyddog prawf Hannah Jones (sydd bellach yn Swyddog Tai yng Nghyngor Sir y Fflint) a gynorthwyodd y grŵp trwy ddarparu'r bennod ar 'Droseddwyr a Throseddu'.

Cyfoethogwyd y prosiect hwn ymhellach gan gyfraniadau hynod werthfawr gan yr unigolion a'r mudiadau isod:

- Ellie Greenwood a Rebecca Johnson, Cymdeithas Llywodraeth Leol
- Tim Briton, Lawyers in Local Government
- Ben Atrill
- Ymddiriedolaeth Suzy Lamplugh
- Y Cynghorydd Richard Wright, Cyngor Dosbarth North Kesteven
- Yr Athro Troseddeg Fiona Measham, Prifysgol Durham
- Y Cynghorydd Philip Evans, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
- Y Cynghorwyr Catriona Morris a Mick Legg, Cyngor Milton Keynes
- Louise Scott Garner
- Jenna Parker, y Sefydliad Trwyddedu

Yn olaf, yr ydym yn hynod ddiolchgar i bawb a ymatebodd i'r arolwg cychwynnol i ganfod ffeithiau a'r ymgynghoriad wedi hynny ar y canllaw drafft.

## Tabl dirprwyo

| **Dirprwyo Rhybudd neu Euogfarn** | **Panel Trwyddedu/Is-Bwyllgor Trwyddedu** | **Rheolwr Trwyddedu /Prif Swyddog** |
|---|---|---|
| Troseddau sy'n Arwain at Farwolaeth | | X |
| Camfanteisio | | X |
| Troseddau o Drais | | X |
| Bod ym meddiant arf | | X |
| Troseddau Rhyw ac Anweddusder | | X |
| Anonestrwydd | | X |
| Cyffuriau | | X |
| Camwahaniaethu | | X |
| Euogfarnau Moduro (Mân) | X (7 pwynt +) | X (dan 7 pwynt) |
| Eogfarnau Moduro (Mawr) | X (Trwyddedu gyrwyr neu adnewyddu) | X( Ymgeiswyr newydd) |
| Yfed a Gyrru | | X |
| Gyrru dan Ddylanwad Cyffuriau | | X |
| Defnyddio Ffôn Llaw neu Ddyfais yn y Llaw tra'n Gyrru. | X | |
| Troseddau Cerbyd Hacni a Hurio Preifat | X | |
| Troseddau Defnyddio Cerbyd | X | |
| Gweithredwyr Hurio Preifat | X | X (Ychwanegu amodau pellach i Drwydded y Gweithredwr os yw'r Gweithredwr yn cytuno; os na, yr achos i fynd i'r Pwyllgor Trwyddedu a hefyd atal Trwydded y Gweithredwr er mwyn Diogelu) |
| Perchenogion Cerbydau | X | |
| Materion eraill i'w hystyried, er enghraifft, ymddygiad gyrwyr. | X | X (Matters relating Safeguarding * see below) |
| Materion nad ydynt yn dod dan y polisiau uchod ond y mae'n rhaid eu pennu er lles diogelwch y cyhoedd neu lle gall y Rheolwr Trwyddedu, os teimla bod hynny'n briodol, gyfeirio unrhyw ymgeisydd neu yrrwr at y Panel trwyddedu i'w ystyried os am unrhyw reswm y teimla'r Rheolwr na all bennu cais o'r fath. | X | |

Ni fydd y polisi hwn yn ymdrin â phob senario posib, ac ystyrir pob achos yn ôl ei hawliau unigol.

Er, lle bo mater yn cael ei ystyried yn un o frys o ran materion diogelu * gan reolwr Trwyddedu, neu yn ei absenoldeb, Uwch-Swyddog y mae gofyn i'r Rheolwr Trwyddedu adrodd iddo/i, gellir diddymu Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni neu Hurio Preifat.

Bydd y Rheolwr Trwyddedu yn pennu, wedi derbyn adroddiad gan Swyddog Trwyddedu, a ddylid caniatau i ymgeisydd ail-ymgeisio am drwydded yn dilyn ei ddiddymu dan delerau'r polisi hwn. Gall y naill swyddog neu'r llall gyfeirio'r mater at y Pwyllgor Trwyddedu.

Ni chodir unrhyw ffî am gais newydd i gael trwydded yn ôl wedi ei diddymu, ar yr amod fod yr adfer yn cael ei gynnal yn ystod yr hyn fuasai wedi bod yn gyfnod trwyddedu pe na bai'r drwydded wedi ei diddymu, ac nad yw'r drwydded a adferwyd yn para'n hwy na'r cyfnod trwyddedu gwreiddiol. Cymerir y canllaw isod i ystyriaeth wrth bennu a ddylid ystyried cais yn dilyn diddymu:- Nature sail y diddymu. Diddymir os teimlir nad yw gyrrwr y Cerbyd Hacni / Hurio Preifat bellach yn 'addas a phriodol' yn unol ag Adran 61 Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976. Caiff cais newydd yn dilyn diddymu ei ystyried yn unig os bydd yr ymgeisydd yn ateb y meini prawf fel person 'addas a phriodol' a bod y rhesymau gwreiddiol dros ddiddymu wedi lleihau. Rhaid i'r ymgeisydd wneud yn siwr ei b/fod yn ateb y meini prawf hyn yn ogystal â bod y rheswm dros ddiddymu wedi lleihau cyn i'r Rheolwr Trwyddedu allu penderfynu. Cyfrifoldeb yr ymgeisydd fydd cwrdd â'r meini prawf, a than rai amgylchiadau, bydd angen i'r ymgeisydd gyflwyno gwiriadau newydd i'r Gwasanaeth datgelu a Gwahardd (y Biwro Cofnodion Troseddol gynt) a manylion gan y DVLA, yn dibynnu ar natur y diddymu. Mater i ddoethineb y Rheolwr Trwyddedu fydd hyn. Cyfnod o amser a aeth heibio ers diddymu: Ni roddir ystyriaeth i unrhyw ymgeisydd y diddymwyd ei th/drwydded am gyfnod o chwe mis neu fwy. Dan yr amgylchiadau hyn, bydd gofyn i'r ymgeisydd ddilyn y broses ymgeisio lawn. Diddymu ar Sail Feddygol. Os mai rhesymau meddygol oedd y tu ôl i'r diddymu, rhaid i'r ymgeisydd roi prawf nad yw'r mater bellach yn bryder, a rhaid cael manylion gan arbenigwr a/neu Feddyg Teulu'r ymgeisydd yn datgan fod yr ymgeisydd yn cydymffurfio'n llawn â'r archwiliadau meddygol Grŵp II fel y gosodir allan gan y DVLA cyn i'r Rheolwr Trwyddedu allu ystyried. Diddymu ar Seiliau Troseddol. Efallai y gofynnir i'r ymgeisydd roi gwybodaeth sy'n dangos ei b/fod yn addas a phriodol ac efallai y gofynnir iddo/i gael gwiriadau pellach ar gais y Rheolwr Trwyddedu. Gall yr awdurdod geisio cadarnhad gan Heddlu Gwent ynghylch addasrwydd yr ymgeisydd fel person 'addas a phriodol' i yrru Cerbyd Hacni / Hurio Preifat. Byddai unrhyw bryderon o du Heddlu Gwent yn golygu gwrandawiad gyda'r Pwyllgor Trwyddedu a Rheoleiddio.

Hawl i Apêl. Mae gan yr ymgeisydd hawl i apelio i'r Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o unrhyw benderfyniad i atal neu ddiddymu trwydded.

Atodiad 3

# Tacsis a cherbydau hurio preifat: polisi eithrio meddygol y Ddeddf Cydraddoldeb

## Polisi Eithrio Meddygol Gyrwyr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod nifer o gyfrifoldebau cyfreithiol ar yrwyr trwyddedig pan fyddant yn cludo teithwyr ag anableddau.

### Cŵn Cymorth

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar Yrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat trwyddedig i gludo cŵn cymorth, cŵn clywed a chŵn cymorth eraill sydd gan bobl anabl, ac i wneud hynny heb godi tâl ychwanegol.

Mae'r dyletswyddau hyn yr un mor gymwys i gŵn a ddarperir gan elusennau yn y DU sy'n gysylltiedig â Chŵn Cymorth y DU, sefydliadau tramor cyfatebol, neu gŵn cymorth a hyfforddwyd gan eu perchenogion; a boed y ci yn gwisgo harnais neu siaced hawdd ei hadnabod neu beidio, neu ei fod wedi ei ardystio'n swyddogol. Lle dywed darpar-deithiwr wrth yrrwr fod ci y mae'n dymuno teithio gydag ef yn gi cymorth, dylid derbyn hyn.

Mae cŵn cymorth wedi eu hyfforddi i deithio gyda'u perchennog ym mhrif ran y cerbyd ar gyfer teithwyr, gan orwedd wrth eu traed fel arfer, a bydd y perchennog yn cyfarwyddo'r ci i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd. Dylid gofyn i deithwyr â chŵn cymorth a oes ganddynt sedd yr hoffent eistedd ynddi yn y cerbyd - efallai y bydd yn well gan rai eistedd yn sedd flaen y teithiwr mewn cerbyd salŵn, gan y gall fod mwy o le wrth y traed i'r ci eistedd. Dylai gyrwyr fod yn barod i roi unrhyw gymorth rhesymol arall y gofynna'r teithiwr amdano; fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd ar gŵn cymorth angen help i fynd i mewn ac allan o'r rhan fwyaf o gerbydau, ar wahan i agor drws y teithiwr. Ni ddylai gyrwyr geisio gwahanu cŵn cymorth oddi wrth eu perchenogion trwy fynnu bod y ci yn teithio mewn rhan arall o'r cerbyd - gall gwneud hynny beri loes i'r ci a'i berchennog fel ei gilydd. Gall cŵn cymorth deithio yn rhan gefn car stad, os bydd perhcennog y ci yn cytuno.

Mae cŵn cymorth yn cael eu magu a'u dewis am eu natur dawel, a byddant yn cael cryn lawer o hyfforddiant arbenigol cyn cychwyn ar eu gwaith. Maent yn derbyn gofal ac yn cael gwiriadau iechyd milfeddygol rheolaidd. Er ein bod yn cydnabod y gall rhai gyrwyr nad ydynt yn gyfarwydd â chŵn deimlo'n anghyfforddus o fod mor agos at un, nid yw hyn yn sail ddilys dros wrthod cludo teithiwr gyda chi cymorth.  Yn yr un modd, nid yw credoau crefyddol chwaith yn sail dros wrthod cludo cŵn cymorth

mewn tacsis a cherbydau hurio preifat, nac unrhyw ofynion cyfreithiol eraill dan gyfraith y DU.

Gall gyrwyr gyda rhai cyflyrau meddygol sy'n cael eu gwneud yn waeth trwy fod yn agos at gŵn gael eu heithrio o'r gofynion hyn ar seiliau meddygol.

Ar seiliau meddygol yn unig y gellir gofyn am eithrio o gludo cŵn cymorth sydd yn teithio gyda phobl anabl. Felly, bydd angen i ymgeiswyr ddangos y sail dros wneud cais am yr eithriad hwn trwy ddarparu tystiolaeth feddygol i'r Awdurdod Trwyddedu.

Dyma'r prif resymau dros i yrwyr cerbyd hacni neu hurio preifat fod eisiau gwneud cais am eithriad meddygol:

i) os oes ganddynt gyflwr fel asthma difrifol, sy'n cael ei waethygu gan gyswllt â chŵn.

ii) os oes ganddynt alergedd i gŵn; neu

iii) os oes ganddynt ffobia difrifol i gŵn.

Mae'r Awdurdod Trwyddedu, felly, yn disgwyl mai nifer isel iawn o yrwyr sy'n debygol o fod yn gymwys am eithriad.

I wneud cais am eithrio o gludo cŵn cymorth, rhaid i ffurflen gael ei llenwi gan Ymarferwr Meddygol Arbenigol. Mae modd cael y ffurflen arlein neu ofyn am un gan yr Awdurdod Trwyddedu

Ymhlith enghreifftiau o weithwyr meddygol proffesiynol mae'r isod, ond nid y rhain yn unig:

i) arbenigwr/meddyg ymgynghorol.

ii) nyrs arbenigol (er enghraifft, nyrs asthma).

iii) nyrsus practis; neu

iv) meddyg annibynnol a enwebwyd gan y Cyngor.

Dan amgylchiadau eithriadol, ond dim ond lle nad oes dewisiadau eraill ar gael, gall yr Awdurdod Trwyddedu ystyried tystiolaeth gan Feddyg Teulu yr ymgeisydd.

Gyda'r ffurflen, rhaid cael tystiolaeth ddigonol o'r alergedd, e.e., canlyniadau prawf alergen, hanes clinigol etc. Ni fydd datganiad syml gan weithiwr meddygol proffesiynol yn cael ei ystyried yn ddigonol at ddibenion y cais am eithrio.

Os oes gan yrrwr ffobia cronig i gŵn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i hyn gael ei gefnogi gan adroddiad gan seiciatrydd neu seicolegydd clinigol cyn i yrrwr gael eithriad.

Yr ymgeisydd fydd yn gyfrifol am yr holl gostau cysylltiedig â darparu'r dystiolaeth feddygol angenrheidiol.

Os caniateir eithriad i gludo cŵn cymorth, caiff y gyrrwr dystysgrif a bathodyn eithrio fel y gosodir i lawr gan y gyfraith.

Caniateir eithriad am gyfnod penodol o amser fel y'i pennir gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Rhoddir ystyriaeth i'r math o Gerbyd Hacni fydd yn cael ei yrru. Rhoddir ystyriaeth arbennig i du mewn y cerbyd, ac a oes pared yn y cerbyd sy'n gwahanu'r gyrrwr oedi wrth y ci cymorth a'r teithiwr.

Rhaid i'r bathodyn eithrio a ragnodwyd gael ei arddnagos yn glir bob amser mewn unrhyw Gerbyd Hacni neu Hurio Preifat fydd yn cael ei yrru gan yrrwr a eithriwyd, a dylai fod ar gael i Swyddog Awdurdodedig pan wneir cais.

Yn niffyg tystysgrif eithriad meddygol gan yr Awdurdod Trwyddedu, byddai'n drosedd i unrhyw yrrwr cerbyd hacni neu hurio preifat wrthod cludo ci cymorth, gwrthod caniatau i'r ci cymorth aros gyda'r teithiwr trwy gydol y daith, na chodi unrhyw dâl ychwanegol am gludo'r ci cymorth.

**Cadeiriau Olwyn**

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswyddau ar Yrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat sy'n rhedeg Cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn i gludo teithwyr mewn cadair olwyn a darparu cymorth er mwyn sicrhau diogelwch a chysur rhesymol, ac i wneud hynny heb godi tâl ychwanegol.

Gall y mathau o gymorth fydd ei angen gynnwys:

- Os yw'r teithiwr yn dymuno aros yn y gadair olwyn, rhaid i'r gyrrwr helpu'r teithiwr i fynd i mewn ac allan o'r cerbyd, a gwneud y gadair olwyn yn ddiogel yn unol â manyleb y cerbyd.
- Os yw'r teithiwr eisiau trosglwyddo i sedd, rhaid i'r gyrrwr ei helpu i ddod allan o'r gadair olwyn ac i sedd ac yn ôl i'r gadair olwyn; rhaid i'r gyrrwr hefyd lwytho'r gadair olwyn i'r cerbyd, ynghyd ag unrhyw baciau.

Bydd gyrrwr sydd yn methu â chydymffurfio ag unrhyw rai o'r dyletswyddau uchod heb amddiffyniad dilys yn cyflawni trosedd a gall dderbyn dirwy o hyd at £1,000 am bob trosedd o'i g/chael yn euog. Gall troseddau hefyd arwain at dynnu'n ôl neu atal trwyddedau tacsi.

Diffinnir 'cadair olwyn y cyfeirir ati' mewn statud fel un â'r dimensiynau canlynol: Hyd: 1200mm (tua. 48") gan gynnwys platiau traed. Lled: 700mm (28") Cyfanswm uchder wrth eistedd: 1350mm (54") Uchder gorffwysfa'r traed: 150mm (6")

Rhagwelir y bydd y dimensiynau uchod am gadair olwyn y cyfeirir ati yn cynnwys y rhan fwyaf o gadeiriau olwyn a weithredir â llaw – fodd bynnag, yr ydym yn cydnabod y gall rhai cadeiriau olwyn gyda nodweddion arbenigol, neu gadeiriau olwyn a redir â pheiriant, a sgwteri symudedd, fod yn fwy na'r dimensiynau hyn ac na fydd modd eu llwytho a'u cludo'n ddiogel ym mhob tacsi dynodedig. Mewn achosion o'r fath, bydd disgwyl i yrwyr asesu a oes modd cludo'r teithiwr yn ddiogel yn ei g/cherbyd, a chludo'r teithiwr os oes modd sicrhau ei d/ddiogelwch a chysur rhesymol, neu ei helpu i ddod o hyd i gerbyd arall addas, lle bo hyn yn ymarferol. Gall amgylchiadau o'r fath fod yn amddiffyniad i drosedd a grybwyllir uchod.

Ym mhob achos, rydym yn disgwyl i yrwyr drin teithwyr gyda pharch a sensitifrwydd, a rhoi esboniad clir pam nad oes modd eu cludo.

Gall rhai seiliau meddygol fodoli sy'n golygu na all y gyrrwr ddarparu cymorth, er enghraifft, lle bo cyflwr corfforol person yn ei gwneud yn amhosib, neu yn rhesymol anodd, i gynorthwyo teithwyr mewn math arbennig o gadair olwyn.

O dderbyn mai'r prif resymau y bydd gyrrwr cerbyd hacni neu hurio preifat yn gofyn am eithriad meddygol yw anafiadau i'r cefn neu'r cyhyrau, nad ydynt yn debygol o fod yn gydnaws â gyrru am gyfnodau maith, mae'r Awdurdod Trwyddedu yn disgwyl i nifer y gyrwyr sy'n debygol o fod yn gymwys am eithriad fod yn isel.

I wneud cais am eithrio o gludo cadeiriau olwyn a chynnig cymorth, rhaid llenwi ffurflen. Rhaid i'r ffurflen gael ei llenwi gan Feddyg Teulu'r ymgeisydd neu Feddyg Teulu Arbenigol arall, a chyda hyn rhaid cael tystiolaeth ddigonol fel diagnosis llawn, manylion o archwiliadau sy'n cael eu cynnal etc. Ni fydd datganiad syml gan weithiwr meddygol proffesiynol yn cael ei ystyried yn ddigonol at ddibenion y cais am eithrio.

Yr ymgeisydd fydd yn talu unrhyw gostau a gyfyd o'r broses hon.

**Penderfyniad yr Awdurdod Decision**

Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn dod i benderfyniad ar sail y wybodaeth ar y ffurflen feddygol a'r adroddiadau cysylltiedig. Os bydd ffurflen neu adroddiad yn amwys mewn unrhyw ffordd, ni wneir penderfyniad, a cheisir gwybodaeth bellach gan ymarferwr meddygol arbenigol yr ymgeisydd, er mwyn cael ymateb clir.

Caiff ymgeiswyr sydd â chyflwr dros dro dystysgrif eithrio am amser cyfyngedig. Os dymuna'r ymgeisydd ymestyn cyfnod yr eithrio, bydd angen cwblhau asesiad meddygol pellach (gan ddefnyddio'r ffurflen yn Atodiad A) cyn i'r dystysgrif eithrio ddod i ben.

Os na cheisiwyd estyniad i dystysgrif dros dro, bydd disgwyl i yrwyr ddychwelyd at ddyletswyddau arferol dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 unwaith i'r dystysgrif eithrio ddod i ben.

Rhaid i yrwyr a gafodd dystysgrif eithriad meddygol dros dro ei dychwelyd at yr Awdurdod Trwyddedu ymhen un diwrnod gwaith wedi i'r dystysgrif ddod i ben.

**Apêl**

Gall unrhyw yrrwr sy'n teimlo iddo/i gael ei d/thramgwyddo gan benderfyniad yr Awdurdod Trwyddedu i wrthod rhoi tystysgrif eithriad meddygol apelio at y Llys Ynadon o fewn 21 diwrnod o ddyddiad y gwrthodiad.

**Deddf Tacsis a CHP (Pobl Anabl) 2022**

Cyn hyn, galli gyrwyr cerbydau Hygyrch i Gadeiriau Olwyn (HGO) dynodedig wneud cais am dystysgrif eithrio ar seiliau meddygol neu lle'r oedd eu cyflwr corfforol yn ei gwneud yn amhosib neu'n afresymol anodd iddynt gyflawni dyletswyddau adran 165 dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. (Fel yr amlygwyd uchod)

O 28 Mehefin 2022 ymlaen, daeth Deddf Tacsis a CHP (Pobl Anabl) 2022 i rym.

Mae hyn yn golygu yn awr y gall **pob gyrrwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat (nid dim ond gyrwyr cerbydau HGO)** wneud cais am dystysgrif a hysbysiad eithrio ar sail feddygol neu lle mae eu cyflwr corfforol yn eu hatal rhag cyflawni'r dyletswyddau cymorth symudedd yn adrannau 164a a 165 (fel yr ychwanegwyd/newidiwyd gan Ddeddf2022).

• Bydd hysbysiadau eithrio sy'n bod eisoes a rhai newydd, o gael eu harddangos yn gywir, yn eithrio gyrrwr **yn unig** o'r dyletswyddau **cymorth symudedd** yn adrannau 164a a 165 – sy'n golygu, er enghraifft, nad oes modd bellach defnyddio cyflwr meddygol gyrrwr fel cyfiawnhad dros godi mwy ar rywun anabl na rhywun nad yw'n anabl.

O 28 Mehefin 2022 ymlaen, bydd pob gyrrwr a gweithredwr Cerbyd Hacni a Hurio Preifat – boed y cerbyd yn hygyrch i gadeiriau olwyn neu beidio – yn destun dyletswyddau dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Gwelir y prif newidiadau isod.

**Bydd gofyn i yrwyr Cerbydau Hacni a Hurio Preifat wneud yr isod:**

• Derbyn cludo unrhyw berson anabl, rhoi cymorth symudedd rhesymol iddynt, a chludo eu cymhorthion symud, oll heb godi mwy nag y buasent yn godi ar deithiwr nad yw'n anabl.
• Rhoi cymorth i unrhyw deithiwr anabl sy'n gofyn am hynny i adnabod y cerbyd a archebwyd ganddo/i, heb godi tâl ychwanegol.

**Bydd gofyn i weithredwyr Hurio Preifat wneud yr isod:**

• Derbyn archebion gan neu ar ran unrhyw berson anabl, os oes ganddynt gerbyd addas ar gael.

Mae mwy o wybodaeth am y dyletswyddau hyn yn Access to taxis and privete hire vehicles for disabled users - GOV.UK (www.gov.uk)

Bydd angen i yrwyr sy'n credu na allant ddarparu cymorth symudedd wneud cais i'r Tîm Trwyddedu am dystysgrif eithrio o ddarparu cymorth rhesymol i deithwyr anabl. A fyddwch cystal â sylwi y bydd angen i hyn gael ei ardystio gan eich Gweithiwr Meddygol neu Feddyg Teulu. Mae'r ffurflen gais am eithrio ar gael o wneud cais i'r tîm trwyddedu trwy gysylltu ag environment.licensing@newport.gov.uk .

# Atodiad 4

## Canllaw ar yr Hawl i Weithio

Bydd yr Awdurdod yn rhoi trwydded gyrrwr Cerbyd Hacni/Hurio Preifat i'r sawl sydd â'r hawl i weithio yn y DU yn unol â deddfwriaeth genedlaethol. Bydd gofyn i yrwyr ddangos tystiolaeth i'r Awdurdod o'u statws mewnfudo yn unol â Chanllawiau neu Ddeddfwriaeth y Llywodraeth.

# Atodiad 5

## Cod Ymddygiad Gyrwyr Cerbydau Hacni/Hurio Preifat.

Dylid darllen y Cod hwn ar y cyd â gofynion statudol a pholisi eraill a osodir allan yn y ddogfen hon. Dylid nodi **nad amodau** mo'r rhain, **er fel pobl addas, priodol a phroffesiynol, y dylai gyrwyr gydymffurfio â'r cod.**

**Cyfrifoldeb i'r Fasnach:**

Dylai deiliaid trwydded ymdrechu i hyrwyddo delwedd y fasnach cerbyd hacni a hurio preifat fel a ganlyn:

- Cydymffurfio â'r Cod Ymddygiad Da hwn.
- Cydymffurfio â holl Amodau eu Trwydded, is-ddeddfau a Pholisi Trwyddedu Cerbydau Hacni a Hurio Preifat yr Awdurdod.
- Ymddwyn yn barchus, trefnus a chyfrifol bob amser.

**Cyfrifoldeb i Gleientiaid:**

Dylai deiliaid trwydded wneud y canlynol:

- Cynnal a chadw eu cerbydau mewn cyflwr diogel a boddhaol bob amser. Cynnal gwiriadau ar eu cerbydau yn aml er mwyn sicrhau cydymffurfio â'r Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau Modur fel bod y cerbyd mewn cyflwr addas i fod ar y ffordd cyn cludo teithwyr. Lle nodir unrhyw ddiffygion o unrhyw fath sydd yn tanseilio cyflwr y cerbyd i fod ar y ffordd, ni ddylai'r gyrrwr yrru'r cerbyd hyd nes i'r cyfryw ddiffyg gael ei gywiro.
- Cadw eu cerbydau yn lân ac yn addas i'w hurio i'r cyhoedd bob amser.
- Bod yn brydlon wrth godi teithwyr sydd wedi archebu ymlaen llaw.
- Helpu teithwyr i mewn ac allan o'r cerbyd lle bo angen
- Rhoi cymorth rhesymol i deithwyr gyda phaciau.
- Ni ddylai'r gyrrwr gael unrhyw gyswllt rhywiol na bod yn rhywiol amlwg, yn gorfforol na geiriol, tuag at y teithwyr maent yn eu cludo. Dylai'r gyrrwr bob amser sicrhau y gofelir am yr huriwr /teithiwr ac ni ddylai yn fwriadol eu rhoi mewn unrhyw sefyllfa a allai arwain at unrhyw berygl corfforol na moesol. Rhaid adrodd am unrhyw ymddygiad neu amgylchiadau amheus wrth awdurdod perthnasol, e.e., yr Heddlu, Gwasanaethau Plant neu swyddogion trwyddedu.
- Bod yn broffesiynol ac ystyriol tuag at ddefnyddwyr eraill y ffordd
- Bod yn foesgar a chwrtais wrth deithwyr
- Peidio â defnyddio ffôn symudol na dyfeisiadau eraill yn ei l/llaw wrth yrru
- Bod yn smart a glân o ran pryd a gwedd
- Bod yn ymwybodol o hylendid personol
- Cludo teithwyr ar y llwybr byrraf sydd ar gael

**1. Cyfrifoldeb i Drigolion:**

Er mwyn osgoi niwsans i drigolion wrth godi neu aros am deithwyr, dylai gyrwyr wneud y canlynol:

- peidio â seinio corn y cerbyd rhwng 11:30 pm a 07:00am onid oes perygl o du defnyddiwr arall y ffordd neu o gerbyd llonydd.
- cadw sŵn o chwaraewr cerddoriaeth neu radio VHF mor isel ag sydd modd
- diffodd injan y cerbyd os oes yn rhaid aros.
- cymryd pa gamau bynnag sy'n angenrheidiol rhag tarfu ar drigolion yn y gymdogaeth.
- codi a gollwng yn ddiogel a heb risg i gerddwyr a defnyddwyr eraill y ffordd.

**2. Cyfrifoldebau mewn Rhesi a Swyddfeydd**

Dylai deiliaid trwydded wneud y canlynol:

- Aros yn drefnus mewn rhes a symud ymlaen ar hyd y rhes yn fuan
- Aros yn gofalu am y cerbyd
- Peidio â gadael i'w chwaraewyr cerddoriaeth neu radios darfu ar drigolion y gymdogaeth.
- Ni chaniateir i gerbydau Hurio Preifat barcio na rhwystro Rhes na Cherbyd Hacni.

**5. Cyffredinol**

Dylai gyrwyr wneud y canlynol:

- gofalu am eu hylendid personol a'u gwisg fel eu bod yn rhoi delwedd broffesiynol i'r cyhoedd.
- bod yn gwrtais, cymwynasgar a theg wrth deithwyr
- gyrru'n ofalus gan ystyried defnyddwyr eraill y ffordd a cherddwyr
- ufuddhau i orchmynion a chyfarwyddiadau rheoleiddio traffig bob amser
- peidio â bwyta yn y cerbyd ym mhresenoldeb cwsmeriaid; a
- pharchu Swyddogion awdurdodedig pan fyddnat yn cyflawni eu dyletswyddau arferol.
- Ymhen 48 awr o ddod o hyd i eiddo coll, rhaid i'r gyrrwr naill ai roi neu adrodd am yr eitem(au) i orsaf heddlu neu adrodd am yr eiddo coll trwy ddefnyddio systemau arlein neu ffôn yr Heddlu.
- Dylai deiliaid trwydded trwyddedai hysbysu'r Cyngor yn syth yn ysgrifenedig (neu beth bynnag ymhen 48 awr) os bydd yn destun unrhyw rai o'r isod:

•Arestio neu ymchwiliad troseddol,
• gwŷs,
• cyhuddiad,
• euogfarn,
• rhybudd ffurfiol/syml
• cosb sefydlog neu gwrs ymwybyddiaeth cyflymder,
• gorchymyn llys troseddol,
• gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol,
• gorchymyn yn ymwneud â thrais domestig,
• rhybudd neu ymrwymo
• unrhyw fater cyfiawnder adferol, a dylai roi unrhyw wybodaeth bellach am yr amgylchiadau y gall y Cyngor fynnu.

Mae gofyn i bob deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod cyhoeddi ymhen 48 awr am unrhyw arest a rhyddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd o anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid rhoi hysbysiad pellach i'r awdurdod trwyddedu ymhen 48 awr o unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gellir gweld methiant i ddatgelu arest y

daw'r awdurdod cyhoeddi i wybod amdano wedyn fel ymddygiad sy'n codi cwestiwn am onestrwydd a thrwy hynny addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fydd canlyniad yr ymchwiliad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol a gynhaliwyd gan yr Heddlu ymhen 48 awr.

Dylai gyrwyr hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid cyfeiriad ymhen 5 diwrnod gwaith.

Dylai gyrwyr hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid gweithredwr ymhen 5 diwrnod gwaith.

## 6. Ymddygiad wrth weithio gyda Theithwyr Bregus

Teithiwr bregus yw teithiwr y mae ei oedran neu anabledd yn golygu ei b/fod yn fwy agored i niwed na theithiwr nodweddiadol. Gall fod yn blentyn, rhywun oedrannus neu rywun ag anableddau dysgu. Hefyd, dylid ystyried person fel rhywun bregus os yw ei g/chyflwr yn gyfryw ag i'w g/wneud yn fwy agored i niwed nag a fuasai'n wir fel arall (e.e. salwch corfforol neu feddyliol, o ganlyniad i fod dan ddylanwad cyffuriau neu alcohol).

Nod y cod ymddygiad hwn yw hyrwyddo arferion diogelu da i yrwyr a staff sy'n gweithio gyda theithwyr bregus yn y fasnach dacsis neu hurio preifat. Dylid gwreiddio'r egwyddorion diogelu a ganlyn yn arferion gwaith gyrwyr:

- Rhaid i yrwyr gario cerdyn adnabod gyda llun bob amser, a'i wisgo yn unol ag amodau'r drwydded.
- Ni ddylid cludo teithiwr bregus yn sedd flaen y teithiwr yn y cerbyd, oni fydd Swyddog Trwyddedu/Swyddog o'r Heddlu neu Weithredwr yn mynnu bod hynny'n cael ei wneud.
- Rhaid i'r gyrrwr / gweithredwr gadarnhau y gwnaed darpariaeth briodol i'r person bregus cyn derbyn yr archeb neu gychwyn y daith. Nid yw hyn o raid yn golygu mai'r gyrrwr / gweithredwr sy'n gyfrifol am ddarparu mesurau priodol; fodd bynnag, os nad oes mesurau priodol yn eu lle, yna ni ddylai'r gyrrwr / gweithredwr wneud y daith.
- Os gwrthodir gwasanaeth i deithiwr bregus, rhaid hysbysu person cyfrifol fel bod modd gwneud trefniadau amgen. Er enghraifft, gall y sefyllfa hon godi os oes gan gwsmer gi cymorth, a bod gan y gyrrwr eithriad meddygol wedi ei roi gan y cyngor.
- Dylai gyrwyr o hyd ofyn os oes ar deithiwr bregus angen help ac ni ddylai ragdybio.
- Rhaid i yrwyr fod yn broffesiynol bob amser
- Ni ddylent gyffwrdd teithwyr yn amhriodol
- Ni ddylent ddefnyddio iaith amhriodol neu sarhaus (rhegi neu wneud sylwadau rhywiol neu wahaniaethol)
- Peri i unrhyw deithiwr deimlo'n ofnus neu dan fygythiad.
- Ceisio defnyddio manylion unrhyw deithiwr a gofnodwyd gan y gweithredwr am unrhyw reswm ar wahan i rai sy'n gysylltiedig â'r Contract Hurio Preifat hwnnw.
- Ni ddylai gyrwyr ymddwyn yn or-gyfarwydd gydag unrhyw deithiwr ac ni ddylai ddarparu unrhyw rodd na childwrn dan unrhyw amgylchiadau.
- Ni ddylai gyrwyr wyro oddi wrth y daith a neilltuwyd iddynt gan eu Gweithredwr.

Mae'r safonau hyn yr un mor gymwys wrth weithio gyda theithwyr sy'n fregus a rhai heb fod yn fregus.

- Dylai gyrwyr gadw log lle bu digwyddiad / cymerwyd camau neu lle gwrthodwyd gwasanaeth lle'r oedd person bregus yn rhan o'r digwyddiad.

- Pan ddarparwyd gwasanaeth i deithiwr bregus, rhaid i yrwyr a gweithredwyr fod yn effro i faterion ynghylch diogelu plant ac oedolion bregus. Os yw gyrrwr /gweithredwr yn pryderu am ddiogelwch, lles neu ymddygiad person bregus, dylent roi adroddiad am hyn i'r heddlu trwy ffonio 101 (neu os yw hynny'n briodol, trwy alw 999).
- Os yw gyrwyr/gweithredwyr yn bryderus am ymddygiad rhywun arall, dylent adrodd am eu pryderon wrth Wasanaeth Trwyddedu'r Cyngor neu'r Heddlu lleol.

Atodiad 6.

## Cod Gwisgo Gyrwyr Cerbydau Hacni/Hurio Preifat

Yr ydym yn cydnabod fod y fasnach dacsis, yn Gerbydau Hacni a Hurio Preifat, yn chwarae rhan bwysig wrth bortreadu delwedd gadarnhaol o'r ardal, a bod modd gweld gyrwyr fel llysgenhadon allweddol dros Gymru a Chasnewydd.

Croesewir unrhyw beth sy'n gwella delwedd broffesiynol y fasnach Cerbydau Hacni a Hurio Preifat ac sy'n hyrwyddo'r cysyniad fod gyrwyr cerbydau trwyddedig yn yrwyr galwedigaethol proffesiynol.

Er na fydd unrhyw god gwisg ffurfiol yn cael ei osod allan yn y polisi hwn, atgoffir gyrwyr i wisgo mewn dull proffesiynol a bod â hylendid priodol bob amser wrth gludo aelodau'r cyhoedd.

# Atodiad 7

## Amodau Gyrwyr Hurio Preifat

**DEDDF LLYWODRAETH LEOL (DARPARIAETHAU AMRYWIOL) 1976 - RHAN II TRWYDDED GYRRWR HURIO PREIFAT - AMODAU'R DRWYDDED**

1. Dylai gyrrwr bob amser gynnal 'safon uchel o wedd ac ymddygiad', rhoi cymorth gyda phaciau teithwyr, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau diogelwch teithwyr. (Dylai gyrwyr gael eithriad meddygol gan yr awdurdod trwyddedu os na allant gyflawni'r dyletswyddau uchod oherwydd rhesymau meddygol)

2. Ni ddylai gyrrwr chwarae radio / cerddoriaeth / neu ddyfais electronig yn y cerbyd fel ei fod yn ymyrryd â chysur teithwyr, a heb ganiatâd penodol yr huriwr, ni chaiff fwyta nac yfed yn y cerbyd.

3. Ni chaiff gyrrwr gludo nifer mwy o bobl na'r hyn a nodir yn Nhrwydded y cerbyd mae'n ddefnyddio, ar yr amod at y diben hwn y gellir cludo plant dan ddeg oed yn rhan gefn teithwyr yn y cerbyd.

4. Ni ellir cludo unrhyw blentyn dan ddeg oed, na mwy nag un person dros yr oed hwnnw, yn nhu blaen y cerbyd. Ni ddylai'r gyrrwr ganiatau i unrhyw un ar wahan i'r Huriwr deithio yn y cerbyd (ar wahan i hebryngwr contract ysgol) pan fydd wedi ei hurio, heb ganiatâd yr Huriwr.

5. Ymhen 48 awr o ddod o hyd i eiddo coll, rhaid i'r gyrrwr naill ai roi neu adrodd am yr eitem(au) i orsaf heddlu neu adrodd am yr eiddo coll trwy ddefnyddio systemau arlein neu ffôn yr Heddlu.

6. Pan gaiff gais, bydd y gyrrwr yn rhoi derbynneb ysgrifenedig i'r huriwr am y tâl a dalwyd.

7. Ni ddylai'r gyrrwr gludo unrhyw anifail ac eithrio pan fo'n cael ei gadw gan yr huriwr, ac yn yr achos hwn, rhaid cludo'r anifail yng nghefn y cerbyd.

8. Dylai'r gyrrwr ymdrechu bob amser i gyrraedd yn y brydlon ar yr amser a'r lle a nodwyd gan yr huriwr.

9. Ni ddylai gyrrwr fynnu gan yr huriwr swm uwch na'r hyn y cytunwyd arno rhwng yr huriwr a'r Gweithredwr. Os oes cloc tacsi wedi ei ffitio i'r cerbyd, a hwnnw'n cael ei ddefnyddio i bennu'r tâl, bydd y gyrrwr yn rhoi cyfle i'r huriwr archwilio'r tâl a ddangosir ar y cloc pan ddaw'r siwrne i ben.

10. Dylai deiliad y drwydded roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cyngor yn syth (neu beth bynnag ymhen 48 awr) os bydd yn destun unrhyw rai o'r isod:

    - Arestio neu ymchwiliad troseddol,
    - gwŷs,
    - cyhuddiad,
    - euogfarn,
    - rhybudd ffurfiol/syml
    - cosb sefydlog neu gwrs ymwybyddiaeth cyflymder,
    - gorchymyn llys troseddol,
    - gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol,
    - gorchymyn yn ymwneud â thrais domestig,
    - rhybudd neu ymrwymo

• unrhyw fater cyfiawnder adferol, a dylai roi unrhyw wybodaeth bellach am yr amgylchiadau y gall y Cyngor fynnu.

Mae gofyn i bob deiliad trwydded hsybysu'r awdurdod cyhoeddi ymhen 48 awr am unrhyw arest a rhyddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd o anonestrwydd neu drais ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid rhoi hysbysiad pellach i'r awdurdod trwyddedu ymhen 48 awr o unrhyw gyhuddiad ac unrhyw euogfarn. Gellir gweld methiant i ddatgelu arest y daw'r awdurdod cyhoeddi i wybod amdano wedyn fel ymddygiad sy'n codi cwestiwn am onestrwydd a thrwy hynny addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fydd canlyniad yr ymchwiliad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol a gynhaliwyd gan yr Heddlu ymhen 48 awr.

Dylai gyrwyr hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid cyfeiriad ymhen 5 diwrnod gwaith.

11. Ni ddylai'r gyrrwr gael unrhyw gyswllt rhywiol na bod yn rhywiol amlwg, yn gorfforol na geiriol, tuag at y teithwyr maent yn eu cludo. Dylai'r gyrrwr bob amser sicrhau y gofelir am yr huriwr /teithiwr ac ni ddylai yn fwriadol eu rhoi mewn unrhyw sefyllfa a allai arwain at unrhyw berygl corfforol na moesol. Rhaid adrodd am unrhyw ymddygiad neu amgylchiadau amheus wrth awdurdod perthnasol, e.e., yr Heddlu, Gwasanaethau Plant neu swyddogion trwyddedu.

12. Ni ddylai Gyrwyr Hurio Preifat gymryd unrhyw ran yn y drefn archebu rhwng y cwsmer a'r Gweithredwr Hurio Preifat. Mae hyn yn cynnwys rhoi dyfais gyfathrebu i gwsmer, h.y., ffôn symudol, dyfais gyfrifiadurol fel y gallant archebu gyda'r Gweithredwr.

13. Dylai'r Gyrrwr Hurio Preifat weithio yn unig i'r Gweithredwr/wyr a restrwyd ar ei ffurflen gais. Os bydd yn newid Gweithredwr, dylai hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhen 5 diwrnod gwaith.

14. Unwaith i Yrrwr Hurio Preifat dderbyn tasg gan Weithredwr Hurio Preifat Trwyddedig, ni chaiff ganslo'r dasg onid oes ganddo/i esgus rhesymol * neu fod y Gweithredwr Hurio Preifat yn dweud wrtho/i am wneud. Mae gofyn i'r gyrrwr hysbysu'r Gweithredwr Hurio Preifat am yr esgus rhesymol adeg canslo'r dasg.

*byddai esgus rhesymol yn cynnwys ymddygiad y darpar-deithiwr, gan gynnwys teithiwr sydd yn sarhaus, hiliol, rhywiaethol, yn rhegi, yn fygythiol neu yn feddw dwll; mae hyn hefyd yn cynnwys cwsmeriaid sy'n gwrthod peidio â smygu neu fwyta/yfed neu sydd wedi chwydu drostynt eu hunain neu wedi baeddu eu hunain mewn ffyrdd eraill, neu lle mae pryder gwirioneddol y gall y teithiwr ddifrodi'r cerbyd.

15. Ymddygiad sy'n ymwneud â cheisio cael ei hurio neu sefyll i'w hurio yn anghyfreithlon

- Dylai deiliad y drwydded sicrhau mai'r teithiwr/wyr sy'n dod i mewn i'r cerbyd yw'r person(au) cywir yr archebwyd y cerbyd ymlaen llaw ar ei gyfer/eu cyfer.

Rhaid i ddeiliad y drwydded gymryd rhagofalon yn erbyn ymddygiad y gellir ei ddehongli fel sefyll neu geisio cael ei hurio, trwy beidio â chynllunio nac aros heb dderbyn archeb:
a) mewn lleoliadau lle mae llawer o bobl yn pasio/llefydd amlwg iawn
b) y tu allan i gyrchfannau/busnesau prysur neu'n agos iawn at ddigwyddiadau
c) ar flaen neu gefn rhesi a ddynodwyd i gerbydau hacni

d) mewn grwpiau neu linellau sy'n ymddangos fel 'rhes'
e) yn groes i orchmynion traffig y ffyrdd

16. Dylai deiliad y drwydded bob amser, wrth yrru cerbyd hurio preifat, wisgo'r bathodyn gyrrwr a roddwyd iddo/i gan y Cyngor fel ei fod i'w weld yn amlwg, a'i ddangos i unrhyw deithiwr/wyr os gofynnir am hynny.

Dylid dychwelyd y bathodyn yn syth i'r Cyngor os bydd Swyddog Awdurdodedig yn gwneud cais (h.y., os caiff y drwydded ei hatal, ei diddymu neu y daw'n annilys am ba bynnag reswm).

Rhaid i ddeiliad y drwydded wisgo unrhyw lanyard, clip neu declyn dal a roddir iddo/i gan y Cyngor.

17.

Rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r Cyngor am unrhyw ddiagnosis newydd neu newid i gyflwr meddygol cyfredol a all gyfyngu ar ei hawl i drwydded gyrrwr sy'n gofyn am safon feddygol Grŵp 2 y DVLA. Rhaid anfon hysbysiad at y Cyngor yn ysgrifenedig (neu beth bynnag ymhen 48 awr) o'r diagnosis perthnasol neu'r newid i gyflwr meddygol.

Rhaid i ddeiliad y drwydded ar unrhyw adeg (neu ar adegau y gall y Cyngor yn rhesymol fynnu) ddangos tystysgrif ar y ffurf a ragnodir gan y Cyngor wedi ei llofnodi gan Feddyg/Meddyg Ymgynghorol priodol sydd â mynediad at gofnodion meddygol llawn gyrrwr sydd yn datgan ei fod ef/hi yn neu yn parhau yn addas i fod yn yrrwr cerbyd hurio preifat.

## Deddfwriaeth

Dylai deiliaid Trwydded Gyrrwr Hurio Preifat gydymffurfio â'r darpariaethau ynghylch cerbydau Hurio Preifat sydd yn y ddeddfwriaeth ganlynol:

- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 Rhan 11(a) Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau a Chyfarpar
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Iechyd 2006

# Atodiad 8

## Is-ddeddfau Cerbydau Hacni

**Nid oes unrhyw Is-ddeddfau ar waith ar hyn o bryd yng Nghasnewydd**

# Atodiad 9.

## Proses Ymgeisio am Gerbydau

Rhaid gwneud cais am drwydded Cerbyd Hacni a Hurio Preifat ar y ffurflen benodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn anfon gohebiaeth at berchenogion cerbydau trwy ebost, er y dylid nodi mai  cyfrifoldeb y gyrrwr yw sicrhau bod ceisiadau am adnewyddu yn cael eu gwneud mewn pryd.

Er mwyn rhoi digon o amser i ddogfennau gael eu prosesu, dylai ymgeiswyr wneud yn siwr fod yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn eu cais cyflawn, gan gynnwys y ffî ac unrhyw ddogfennau angenrheidiol eraill, o leiaf 14 diwrnod cyn y daw trwydded cerbyd i ben. Ni ellir adnewyddu trwydded wedi iddi ddod i ben, ac mewn achosion o'r fath, caiff yr ymgeisydd ei drin fel ymgeisydd hollol newydd. (Bydd unrhyw hawliau gwaddol o'r fath a roddir i gerbyd yn cael eu colli os nad adnewyddir cerbyd ymhen deufis o'r dyddiad dod i ben)

Argymhellir yn gryf y dylai Perchennog cerbyd archebu prawf i'r cerbyd 3 wythnos cyn i'r drwydded ddod i ben fel na fydd oedi cyn rhoi trwydded cerbyd.

Mae pob cais a chanllawiau llawn ar gael ar dudalen gwe Tacsis y Timau Trwyddedu.

# Atodiad 10

## Amodau Cerbydau Hacni

### Amodau Trwydded Cerbyd Hacni

Perchennog Cerbyd Hacni yw perchennog neu ran-berchennog cerbyd, neu lle mae cerbyd yn destun contract prydlesu, cytundeb llogi neu hur-bwrcas, perchennog yw'r sawl sydd ym meddiant y cerbyd dan y cytundeb. Ym mhob achos o'r fath, mae ar y perchennog angen Trwydded Perchennog Cerbyd Hacni gan Gyngor Dinas Casnewydd cyn y bydd ganddo/i hawl gyfreithiol i ddefnyddio'r cerbyd i gael ei hurio.

Mae modd cael trwyddedau trwy wneud cais llawn i'r Cyngor. Rhaid i bob ymgeisydd wneud cais am bob un cerbyd y ceisir trwydded amdano.

### Manyleb

1. Rhaid i'r Perchennog wneud yn siwr fod y cerbyd a'i holl ffitiadau a chyfarpar bob amser pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w hurio yn cael ei gadw mewn cyflwr effeithiol, diogel, taclus a glân, ac y cydymffurfir yn llawn â'r holl ofynion statudol perthnasol (gan gynnwys yn arbennig y rhai sydd yn y Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau Modur).

a) Ni ddylai'r cerbyd fod ag unrhyw arwyddion amlwg o ddifrod arwyddocaol oherwydd damweiniau blaenorol. Dylai'r gwaith paent fod o orffeniad proffesiynol dros holl gorff y cerbyd.

b) Ni ddylai unrhyw arwyddion sylweddol o gyrydu fod ar gorff y cerbyd. Mae cyrydu yn cynnwys rhwd amlwg ac arwyddion o rwd trwy fod swigod ar y gwaith paent.

c) Ni cheir clytio na thrwsio difrod i gorff y cerbyd gyda 'Thâp Gaffer' etc. (Er y gellir gosod ffenestri chwarter gyda Thâp Gaffer i atal troseddu ac y mae modd cadw drychau ochr yn eu lle gyda thâp os cafodd y drych ei fandaleiddio, ond dylid trwsio'r drych cyn cynnal unrhyw brofion gan y cyngor yn y dyfodol.)

d) Dylid cadw pob rhan lle bydd teithwyr yn eistedd yn lân ac yn rhydd o unrhyw ddifrod a allai fel arall effeithio ar ei addasrwydd i gludo teithwyr.

e) Lle defnyddir gorchuddion seddi, dylent gael eu gosod yn gywir ar y sedd fel na fyddnat yn dod yn rhydd wrth eu defnyddio. Dylid eu cadw'n lân ac yn rhydd o ddifrod o unrhyw fath.

f) Rhaid darparu system wresogi ac awyru sy'n gweithio'n iawn yn y Cerbyd Hacni.

g) Dylid cael ffenestri ar ddwy ochr rhan y teithiwr o'r cerbyd y gellir eu hagor yn rhwydd gan y teithwyr a/neu y gyrrwr.

2. Ni ddylid gwneud unrhyw newid sylweddol i fanyleb, dyluniad, cyflwr na golwg y cerbyd heb ganiatâd y Rheolwr Trwyddedu ymlaen llaw.

## Math o Gerbyd

3. Rhaid i'r cerbyd fod yn gerbyd a adeiladwyd i bwrpas ac yn llawn hygyrch i gadeiriau olwyn. Rhaid i berson anabl mewn cadair olwyn allu mynd i mewn i'r cerbyd yn ddiogel a bod yn rhesymol gyfforddus tra'i b/fod yn y gadair olwyn. Rhaid i'r cerbyd gydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau Prydeinig ac Ewropeaidd, bod o fath a gymeradwywyd i safon cerbyd-cyfan M1, categori M1 (cyfaint isel) a heb fod wedi ei newid ers i'r math gael ei gymeradwyo. Gall cadeiriau olwyn gyrchu'r cerbyd naill ai o ochr neu gefn y cerbyd. Rhaid cadw'r gadair olwyn yn sownd yn y cerbyd bob amser, ac yn unol â Chanllawiau Gwneuthurwyr y Cerbyd.

## PLAT, ARWYDDION, HYSBYSEBU, A LIFRAI

4 (a) Rhaid i gerbydau bob amser ddangos y plât allanol a'r disg mewnol a ddaw gyda'r drwydded hon gan y Cyngor. Rhaid gosod y plât yn ddiogel wrth y cerbyd trwy ddefnyddio braced plât a ddarperir gan y Cyngor neu ei sgriwio i gefn y cerbyd (ni chaniateir gosod y plât gyda magned na glud). Yr unig eithriad i arddangos y plât ar y braced yw pan fo'r braced yn torri Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd, neu os nad oes modd defnyddio braced ar y cerbyd; os felly, rhaid i berchenogion gysylltu â'r Tîm Trwyddedu i gael eithriad o orfod arddangos braced plât.

Ac

(b) Arddangos disg trwydded y Cyngor ar ochr chwith uchaf y tu mewn i'r sgrin wynt flaen, gan wneud yn siwr fod manylion y drwydded sydd ar y ddisg i'w gweld o'r tu mewn a'r tu allan i'r cerbyd ac yn y fath fodd fel nad yw'n amharu ar weledədd o gwbl. Dylai'r disg mewnol ddangos rhif y plat a'r dyddiad y daw i ben.

5. Rhaid i'r cerbyd arddangos Glynion Drws awdurdodedig y Cyngor ar ddrws y gyrrwr a drws blaen y teithiwr. Ni ddylid arddangos unrhyw arwyddion, rhybuddion, symbolau nac arwyddluniau yn y cerbyd nac arno heb ganiatâd blaenorol y Rheolwr Trwyddedu. Fodd bynnag, fe ellir gosod arwydd ar ddrysau cefn y teithiwr: ni chaiff yr arwydd hwn fod yn fwy na 80cm x 50 cm a dylid ei ddefnyddio yn unig i ddangos i ba Gwmni /Gweithredwr y mae'r cerbyd yn gweithio.

6. Rhaid i'r cerbyd fod o liw DU, neu o liw a gymeradwywyd gan y Cyngor.

## NEWID AMGYLCHIADAU

18. 7. Dylai deiliad y drwydded roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cyngor yn syth (neu beth bynnag ymhen 48 awr) os bydd yn destun unrhyw rai o'r isod:

•Arestio neu ymchwiliad troseddol,
• gwŷs,
• cyhuddiad,
• euogfarn,
• rhybudd ffurfiol/syml
• cosb sefydlog neu gwrs ymwybyddiaeth cyflymder,
• gorchymyn llys troseddol,
• gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol,
• gorchymyn yn ymwneud â thrais domestig,
• rhybudd neu ymrwymo
• unrhyw fater cyfiawnder adferol, a dylai roi unrhyw wybodaeth bellach am yr amgylchiadau y gall y Cyngor fynnu.

Mae gofyn i bob deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod cyhoeddi ymhen 48 awr o unrhyw arest a rhyddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd o anonestrwydd neu drais, ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r awdurdod trwyddedu ymhellach ymhen 48 awr o unrhyw gyhuddiad ac euogfarn. Gall methiant i ddatgelu arest y caiff yr awdurdod cyhoeddi wybod amdano wedyn gael ei weld fel ymddygiad sy'n codi cwestiwn am onestrwydd a thrwy hynny addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fydd canlyniad yr honiad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol a gynhaliwyd gan yr Heddlu ymhen 48 awr.

Dylai perchenogion hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid cyfeiriad ymhen 5 diwrnod gwaith.

8. Rhaid i'r Perchennog, ymhen pum diwrnod, hysbysu'r Cyngor yn ysgrifenedig am bob newid mewn amgylchiadau sy'n effeithio ar y drwydded hon, megis: newid cyfeiriad, rhif ffôn, gweithredwr tacsi y mae'n gweithio iddo/i, perchennog y cerbyd, newid cwmni yswiriant, cyfeiriad ebost, etc.

9. Dylai'r Perchennog hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhen 72 awr yn ysgrifenedig am unrhyw ddamwain neu ddifrod i'r cerbyd a dod â'r cerbyd i'w archwilio ar gais Swyddog Trwyddedu.

## DYCHWELYD PLAT

10. Mae plat a disg Trwydded y Cerbyd Hacni, a gyflenwir gyda'r drwydded hon, yn eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd. Dylid dychwelyd y plat ymhen 14 diwrnod iddo ddod i ben; bydd methu â gwneud hynny yn golygu colli blaendal y plat ac fe all arwain at gymryd camau eraill.

## YSWIRIANT

11. Dylai'r Perchennog wneud yn siwr fod copi o'r Polisi Yswiriant neu Nodyn Diogelu yn cael ei gludo yn y cerbyd bob amser. Ni ddylai'r perchennog ddefnyddio'r cerbyd, na chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio fel Cerbyd Hacni pan nad oes Polisi Yswiriant priodol mewn grym i'r cerbyd, neu fath o sicrwydd sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan

VI Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 a bod y dreth ffordd angenrheidiol i'r cerbyd wedi ei thalu. O dderbyn cais, rhaid i'r Perchennog ddangos dogfen gofrestru'r cerbyd a Thystysgrif MOT ddilys.

## CYNLLUN SEDDI A LLE I FAGIAU

12. Bydd gan bob teithiwr fynediad uniongyrchol ar ddrws heb fod angen symud seddi eraill na'u plygu'n hollol fflat. Lle nad oes gan deithwyr fynediad uniongyrchol ar ddrws, bydd y Cyngor yn caniatau cerbydau sydd â seddi sy'n "gogwyddo" ymlaen mewn un symudiad. Dylai arwydd clir yn y cerbyd ddangos yn amlwg lle mae'r handlen sy'n gweithio'r sedd sy'n gogwyddo tuag ymlaen.

13. Rhaid i Gerbydau Hacni sydd am ddefnyddio sedd y teithiwr ar gyfer teithiwr sy'n talu neu er mwyn elw fod â TCC yn y cerbyd a bod wedi ei gymeradwyo gan y Cyngor; bydd canllawiau ar wahan ar gael i berchenogion.

14. Rhaid i'r cerbyd allu cludo dim llai na phedwar o deithwyr a dim mwy nag wyth.

15. Rhaid i'r cerbyd fod â chist neu adran i baciau sy'n rhoi digon o le i gludo swm rhesymol o baciau.

16. Rhaid i'r holl seddi i deithwyr fod â gwregys sedd. Ni ddylai unrhyw sedd wynebu'r ochr, ac eithrio am gadair olwyn sydd wedi ei gosod yn sownd ac yn gywir yn y cerbyd, yn unol â chanllawiau gwneuthurwr y cerbyd.

17. Ni ddylai'r cerbyd gludo plant mewn cadeiriau gwthio; dylai'r gadair wthio fod wedi ei phlygu a'i storio. Os nad oes gan y cerbyd y modd cywir i atal plant, yna dylid gosod y plentyn ar y sedd gefn yn unig. Gall plant dan 3 oed deithio heb eu hatal, ond yn hytrach gael eu dal ym mreichiau/ar lin oedolyn. Rhaid i blant 3 oed a hŷn ddefnyddio gwregys oedolyn yn unol â Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd. (Mae mwy o fanylion isod:

http://www.dft.gov.uk/think/focusareas/children/childincar?page=Advice&whoareyou_id=

## NEWID Y CERBYD

18. Ni ddylid gwneud unrhyw newid i fanyleb y gwneuthurwr ar gyfer y cerbyd gan gynnwys newid neu ychwanegu at y math o danwydd ac eithrio lle mae'r Cyngor wedi rhoi caniatad ysgrifenedig ymlaen llaw.

## FFENESTRI GYDAG ARLLIW

19. Rhaid i'r sgrîn wynt flaen a'r ffenestri blaen fod â thrawsyriant goleuni gweladwy (VLT) o ddim llai na 75 y cant ac ni ddylid rhoi arlliw ar yr un o'r ffenestri eraill i'r graddau nad oes modd gweld teithwyr o'r tu allan i'r cerbyd.

## PROFION AR Y CERBYD

20. Cynhelir prawf ar Gerbydau Hacni unwaith y flwyddyn nes byddant yn 5 oed. Cynhelir prawf ar Gerbydau Hacni dros 5 oed unwaith bob 6 mis yn dilyn rhoi trwydded 12 mis/flynyddol. Caniateir i ddeiliaid trwydded archebu prawf i'r cerbyd hyd at 28 diwrnod cyn y prawf 6 mis.

21. Os metha cerbyd brawf cerbyd y Cyngor neu MOT, ni ellir defnyddio'r cerbyd fel Cerbyd Hacni hyd nes i'r cerbyd gael ei brofi eto ac iddo basio prawf y Cyngor neu'r MOT.

## CYFARPAR Y CERBYD

22. Rhaid i'r cerbyd gludo'r cyfarpar isod:

a. Olwyn sbâr addas i'w defnyddio'n syth ac sydd wedi ei chadw yn y cyflwr iawn. Os mai olwyn dros dro i arbed lle yw'r olwyn sbâr, gellir ei defnyddio yn unig i gwblhau taith neu hurio penodol y cerbyd pan fu'n rhaid newid olwyn, a gall cerbydau sydd â rhyw fath o dechnoleg gael eu heithrio o'r amod hwn yn ôl disgresiwn y Cyngor (e.e. cerbyd sydd â theiars rhedeg-yn-fflat wedi eu ffitio).

b. Jac ac offer i newid yr olwynion.

c. Rhaid cael ramp, neu rampiau, i lwytho cadair olwyn a theithiwr fod ar gael bob amser i'w defnyddio wrth ddrws ôl ochr agosaf y teithiwr. Dylid ffitio dyfais gloi ddigonol er mwyn gwneud yn siwr na fydd y ramp(iau) yn llithro, ymledu ar wahan nac yn gogwyddo wrth ei ddefnyddio/eu defnyddio. Dylid gwneud darpariaeth i storio'r rampiau yn ddiogel yn y cerbyd pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Dyma ddyletswyddau perchennog / gyrrwr:

- cludo'r teithiwr tra bydd yn y gadair olwyn.
- peidio â chodi tal ychwanegol am wneud hynny.
- os bydd y teithiwr yn dewis eistedd mewn sedd teithiwr, cludo'r gadair olwyn.
- cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau bod y teithiwr yn cael ei g/chludo yn ddiogel ac yn rhesymol gysurus.
- rhoi hynny o gymorth symudedd ag sy'n rhesymol ofynnol i'r teithiwr.

Onid oes gan y gyrrwr dystysgrif Eithrio fel y'i diffinnir dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Ni ddylai unrhyw gyfarpar ategol sydd wedi ei ffitio i gerbyd rwystro'r gyrrwr mewn unrhyw fodd, na'i l/llesteirio rhag gweld, na rhwystro nac achosi perygl i deithwyr neu ddefnyddwyr eraill y ffordd.

## HYSBYSEBU

1. Caniateir hysbysebion yn unig y tu mewn i Gerbydau Hacni a adeiladwyd i bwrpas ar ochr isaf y seddi gogwyddo i fyny ac ar draws pen uchaf y pared gwydr sy'n gwahanu. Dyma'r meintiau a ganiateir:
    - pen y pared 60cm x 8 cm
    - sedd sy'n gogwyddo 33cm x 30.5cm.

Ni ddylid gosod unrhyw hysbyseb ar y pared gwydr sy'n gwahanu, ac eithrio am hysbysiadau a gymeradwywyd gan y Cyngor, er enghraifft, y cerdyn tariff.

## SYSTEMAU SAIN, FIDEO A RECORDIO

24. Ni chaiff unrhyw system sain, fideo neu recordio nad oedd wedi ei gosod pan wnaed y cerbyd gael ei gosod na'i chwarae yn y cerbyd heb gydymffurfio â chanllawiau'r Cyngor ynghylch TCC.

## DIM SMYGU YN Y CERBYD

25. Ni chaniateir i na'r gyrrwr na'r teithwyr smygu yn y cerbyd. Dylai'r cerbyd gydymffurfio â'r rheoliadau "di-fwg" a nodir yn Neddf Iechyd 2006. Rhaid i'r cerbyd arddangos arwyddion 'dim smygu' mewn man amlwg. Dylai'r arwydd gynnwys y symbol 'dim smygu' coch rhyngwladol.

## MESURYDDION A PHRISIAU

26. Rhaid ffitio mesurydd tacsi yn y cerbyd a rhaid iddo gydymffurfio â Rheoliadau Offerynnau Mesur (Clociau Tacsi) 2006. Rhaid i'r mesurydd tacsi:

a. ddangos y tâl a gofnodwyd ar y mesurydd tacsi mewn ffigyrau y gellir eu darllen yn glir, a dylid dangos y gair 'FARE' yn glir fel ei fod yn cyfeirio at y cyfryw ffigyrau.

b. Dylid gosod y mesurydd yn unol â Thabl y Cyngor o daliadau Cerbyd Hacni oni ddymuna'r Perchennog gael tariff is. Os felly, rhaid i'r Perchennog arddnagos Tariff y Cyngor ochr yn ochr â Cherdyn Tariff y Perchennog. Dan amgylchiadau o'r fath, rhaid i Gerdyn Tariff y Perchennog ddatgan yn glir nad yw'r Perchennog yn codi uchafswm cyfraddau tacsi'r Cyngor. Dylid rhoi copi o Gerdyn y Perchennog i'r Cyngor ar gyfer eu cofnodion hwy.

27. Rhaid gosod tariff y taliadau mewn man fel bod y tâl a godir yn weladwy i bob teithiwr yn y cerbyd bob amser a dylid goleuo'r ffigyrau i wneud hyn. Yn achos Cerbydau Hacni sydd â thariannau diogelwch, dylid arddangos tariff y taliadau yn rhan gefn y cerbyd.

28. Dylai Perchennog y cerbyd hacni sicrhau bod llyfr derbynebion ar gael yn y cerbyd bob amser, a dylid darparu derbynneb os bydd y teithiwr yn gofyn am un.

## EIDDO COLL

29. Dylai perchennog neu yrrwr Cerbyd Hacni gymryd pob cam rhesymol i ddychwelyd unrhyw eiddo a adawyd yn ei g/cherbyd i'w berchnenog, a sut bynnag rhaid rhoi adroddiad am eiddo coll i'r Heddlu ymhen 48 awr.

## 30. Amod Amgylcheddol

- Rhoddir **trwyddedau Cerbyd Hacni newydd** yn unig i gerbydau sy'n cwrdd â Safon Euro 6.
- Ceir **trosglwyddo trwyddedau Cerbyd Hacni** yn unig ar gerbydau sy'n cwrdd â Safon Euro 5.
- **Amnewid trwyddedau Cerbyd Hacni**. Gall deiliad trwydded cerbyd sy'n bod eisoes (perchennog oedd â thrwydded gyfredol cyn cyflwyno'r polisi ac a ddaliodd i adnewyddu'r drwydded hon) newid y cerbyd sydd ar y drwydded honno os yw'r cerbyd yn cwrdd ag isafswm safonau Euro 5. Bydd trwyddedau cerbydau a roddwyd wedi cyflwyno'r polisi yn cael eu rhoi yn unig i gymryd lle cerbydau sy'n cwrdd â safon Euro 6.

31. Dylai deiliad pob trwydded Cerbyd Hacni gydymffurfio â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Cherbydau Hacni sydd wedi eu cynnwys yn y ddeddfwriaeth isod:

- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 Rhan 11(a) Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau a Chyfarpar
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Iechyd 2006

## Atodiad 11

## AMODAU TRWYDDED CERBYD HURIO PREIFAT

Perchennog cerbyd Hurio Preifat yw perchennog neu ran-berchennog cerbyd, neu lle mae cerbyd yn destun contract prydlesu, cytundeb llogi neu hur-bwrcas, perchennog yw'r sawl sydd ym meddiant y cerbyd dan y cytundeb. Ym mohb achos o'r fath, mae ar y perchennog angen Trwydded Perchennog cerbyd Hurio Preifat gan Gyngor Dinas Casnewydd ar gyfer pob cerbyd a ddefnyddir i'w Hurio'n breifat. Gall y cerbyd weithredu dan Drwydded Gweithredwr Cyngor Dinas Casnewydd yn unig.

Mae modd cael trwyddedau trwy wneud cais llawn i'r Cyngor. Rhaid i ymgeiswyr gyflwyno cais am bob cerbyd y mae angen trwydded ar ei gyfer.

### MANYLEB

1. Rhaid i'r Perchennog wneud yn siwr fod y cerbyd a'i holl ffitiadau a chyfarpar bob amser pan fydd y cerbyd yn cael ei ddefnyddio neu ar gael i'w hurio yn cael ei gadw mewn cyflwr effeithiol, diogel, taclus a glân, ac y cydymffurfir yn llawn â'r holl ofynion statudol perthnasol (gan gynnwys yn arbennig y rhai sydd yn y Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau Modur).

a) Ni ddylai'r cerbyd fod ag unrhyw arwyuddion amlwg o ddifrod arwyddocaol oherwydd damweiniau blaenorol. Dylai'r gwaith paent fod o orffeniad proffesiynol dros holl gorff y cerbyd.

b) Ni ddylai unrhyw arwyddion sylweddol o gyrydu fod ar gorff y cerbyd. Mae cyrydu yn cynnwys rhwd amlwg ac arwyddion o rwd trwy fod swigod ar y gwaith paent.

c) Ni cheir clytio na thrwsio difrod i gorff y cerbyd gyda 'Thâp Gaffer' etc. (Er y gellir gosod ffenestri chwarter gyda Thâp Gaffer i atal troseddu ac y mae modd cadw drychau ochr yn eu lle gyda thâp os cafodd y drych ei fandaleiddio, ond dylid trwsio'r drych cyn cynnal unrhyw brofion gan y cyngor yn y dyfodol.)

d) Dylid cadw pob rhan lle bydd teithwyr yn eistedd yn lân ac yn rhydd o unrhyw ddifrod a allai fel arall effeithio ar ei addasrwydd i gludo teithwyr.

e) Lle defnyddir gorchuddion seddi, dylent gael eu gosod yn gywir ar y sedd fel na fyddant yn dod yn rhydd wrth eu defnyddio. Dylid eu cadw'n lân ac yn rhydd o ddifrod o unrhyw fath.

f) Rhaid darparu system wresogi ac awyru sy'n gweithio'n iawn yn y Cerbyd Hacni.

g) Dylid cael ffenestri ar ddwy ochr rhan y teithiwr o'r cerbyd y gellir eu hagor yn rhwydd gan y teithwyr a/neu y gyrrwr.

2. Ni ddylid gwneud unrhyw newid sylweddol i fanyleb, dyluniad, cyflwr na golwg y cerbyd heb ganiatâd y Rheolwr Trwyddedu ymlaen llaw.

3. Rhaid i'r cerbyd gydymffurfio â Rheoliadau Cerbydau Prydeinig ac Ewropeaidd, bod o fath a gymeradwywyd i safon cerbyd-cyfan M1, categori M1 (cyfaint isel) a heb fod wedi ei newid ers i'r math gael ei gymeradwyo.

4. Gall cerbydau Hurio Preifat fod o unrhyw liw onid yw'r cerbyd yn un a "Adeiladwyd i Bwrpas"; ni chaniateir i'r mathau hyn o gerbydau fod yn ddu / glas tywyll / llwyd tywyll nac unrhyw liw arall y gellir ei gamgymryd am 'ddu'.

## PLATIAU, ARWYDDION, HYSBYSEBU A LIFRAI

5. Rhaid arddangos y plat Trwydded Cerbyd Hurio Preifat ar y tu allan, nesaf at y bympar ôl ac wedi ei osod yn sownd wrth y cerbyd trwy ddefnyddio braced plat a ddarperir gan y Cyngor. Yr unig eithriad a ganiateir o ran arddangos y plat yw pan fod y braced yn torri Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd. Yn yr achos hwn, rhaid i berchenogion gysylltu â'r Tîm Trwyddedu i geisio eithriad o orfod arddangos braced.

6. Rhaid arddangos y ddisg drwydded ar ochr chwith uchaf y tu mewn i'r sgrîn wynt flaen yn y fath fodd fel nad yw'n amharu ar welededd y gyrrwr, a chan sicrhau bod manylion y drwydded sydd ar y ddisg i'w gweld o'r tu mewn a'r tu allan i'r cerbyd.

7. Rhaid i'r cerbyd arddangos glynion drws awdurdodedig y Cyngor ar ddrws y gyrrwr a drws blaen y teithiwr. (Yr unig eithriad yw pan ddefnyddir Cerbydau Hurio Preifat yng nghyswllt priodas neu angladd; bryd hynny, caniateir gorchuddio glynion drws y Cyngor a gorchudd magnetig, ac ni chaniateir unrhyw hysbysebion eraill ar y cerbyd gan gynnwys logos cwmniau). Ar ddrysau cefn y cerbyd, rhaid arddangos manylion y Gweithredwyr a dylid eu defnyddio yn unig i ddangos i ba weithredwr y mae'r cerbyd yn gweithio.

8. Rhaid i'r Cerbyd Hurio Preifat arddangos logos y Gweithredwyr Hurio Preifat a gymeradwywyd gan yr awdurdod pan gaiff ei anfon i godi cwsmer. Ni ddylid arddangos unrhyw arwyddion, hysbysiadau, symbolau nac arwyddluniau eraill yn y cerbyd nac arno heb ganiatâd y Rheolwr Trwyddedu.

## NEWID AMGYLCHIADAU

2. 9. Dylai deiliad y drwydded roi gwybod yn ysgrifenedig i'r Cyngor yn syth (neu beth bynnag ymhen 48 awr) os bydd yn destun unrhyw rai o'r isod:

- Arestio neu ymchwiliad troseddol,
- gwŷs,
- cyhuddiad,
- euogfarn,
- rhybudd ffurfiol/syml
- cosb sefydlog neu gwrs ymwybyddiaeth cyflymder,

• gorchymyn llys troseddol,
• gorchymyn ymddygiad troseddol neu waharddeb ymddygiad gwrthgymdeithasol,
• gorchymyn yn ymwneud â thrais domestig,
• rhybudd neu ymrwymo
• unrhyw fater cyfiawnder adferol, a dylai roi unrhyw wybodaeth bellach am yr amgylchiadau y gall y Cyngor fynnu.

Mae gofyn i bob deiliad trwydded hysbysu'r awdurdod cyhoeddi ymhen 48 awr o unrhyw arest a rhyddhau am unrhyw drosedd rywiol, unrhyw drosedd o anonestrwydd neu drais, ac unrhyw drosedd foduro. Rhaid hysbysu'r awdurdod trwyddedu ymhellach ymhen 48 awr o unrhyw gyhuddiad ac euogfarn. Gall methiant i ddatgelu arest y caiff yr awdurdod cyhoeddi wybod amdano wedyn gael ei weld fel ymddygiad sy'n codi cwestiwn am onestrwydd a thrwy hynny addasrwydd deiliad y drwydded, waeth beth fydd canlyniad yr honiad cychwynnol. Dylai gyrwyr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am unrhyw gyfweliad gwirfoddol a gynhaliwyd gan yr Heddlu ymhen 48 awr.

Dylai perchenogion hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid cyfeiriad ymhen 5 diwrnod gwaith.

10. Dylai gyrwyr hysbysu'r Cyngor am unrhyw newid cyfeiriad ymhen 5 diwrnod gwaith neu newid gweithredwr ymhen 5 diwrnod gwaith.

11. Dylai'r Perchennog hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig ymhen 72 awr o unrhyw ddamwain neu ddifrod i'r cerbyd.

## DYCHWELYD PLAT

12. Mae'r plat a disg Trwydded Hurio Preifat a gyflenwir gyda'r drwydded yn eiddo i Gyngor Dinas Casnewydd. Dylid dychwelyd y plat ymhen 14 diwrnod iddo ddod i ben. Bydd methu â gwneud hynny yn golygu colli blaendal y plat ac fe all arwain at gymryd camau eraill.

## YSWIRIANT

3. Dylai'r Perchennog wneud yn siwr fod copi o'r Polisi Yswiriant neu Nodyn Diogelu yn cael ei gludo yn y cerbyd bob amser. Ni ddylai'r perchennog ddefnyddio'r cerbyd, na chaniatáu iddo gael ei ddefnyddio fel Cerbyd Hurio Preifat pan nad oes Polisi Yswiriant priodol mewn grym i'r cerbyd, neu fath o sicrwydd sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988, sy'n ymdrin â defnyddio'r cerbyd i gludo teithwyr am elw. O dderbyn cais, rhaid i'r perchennog ddangos dogfen gofrestru'r cerbyd, tystysgrif MOT ddilys a dylai sicrhau bod treth ffordd y cerbyd wedi ei thalu am y flwyddyn.

## CYNLLUN SEDDI A LLE I FAGIAU

14. Rhaid i'r cerbyd allu cludo dim llai na phedwar teithiwr a dim mwy nag wyth. Rhaid i geir fod â sedd gefn sydd o leiaf (o'i fesur mewn llinell barhaus o ymyl i ymyl) 1220mm (48 modfedd) o led.

15. Rhaid i gerbydau mwy (MPV, bws-mini, neu fath o gerbyd symud pobl) fod â digon o ddrysau o faint digonol i ganiatau i deithwyr fynd i mewn ac allan yn gyflym a diogel. Lle bod angen mynd o'r seddi cefn mewn cerbydau sydd â thair rhes o seddi trwy weithio mecanwaith gogwyddo seddi, rhaid i'r teithwyr allu gadael o'r naill ochr neu'r llall o'r cerbyd a rhaid gallu gweithio'r seddi gogwyddo ar bob pen i'r rhes ganol yn annibynnol. Lle bo gan gerbyd seddi codi neu seddi ategol y bwriedir eu defnyddio'n achlysurol yn unig, ni ddylid cynnwys y seddi hynny yng ngalluedd trwyddedig y cerbyd. Lle mae ffurfwedd y cerbyd yn mynnu bod sedd fainc gyfan yn llithro a/neu ogwyddo er mwyn cyrraedd neu adael y seddi cefn, ni ddylid cynnwys y seddi cefn yn y galluedd seddi a dylid eu tynnu ymaith rhag i deithwyr ddwyn pwysau i gludo mwy na'r hyn a ganiateir dan y drwydded.

16. Rhaid i'r cerbyd fod â chist neu ran ar gyfer paciau sy'n rhoi digon o le i gludo swm rhesymol o baciau. Am y rheswm hwn, ni fydd rhai modelau o **"hatchback teulu" bychain** yn cael eu hystyried am drwydded onid ydynt yn fodelau ceir stad ac yn gallu cludo swm rhesymol o baciau, er enghraifft, pramiau, cadair olwyn a phaciau.

17. Rhaid i'r holl seddi i deithwyr fod â gwregys sedd. Ni ddylai unrhyw sedd wynebu'r ochr, ac eithrio am gadair olwyn sydd wedi ei gosod yn sownd ac yn gywir yn y cerbyd, yn unol â chanllawiau gwneuthurwr y cerbyd.

18. Ni ddylai'r cerbyd gludo plant mewn cadeiriau gwthio; dylai'r gadair wthio fod wedi ei phlygu a'i storio. Os nad oes gan y cerbyd y modd cywir i atal plant, yna dylid gosod y plentyn ar y sedd gefn yn unig. Gall plant dan 3 oed deithio heb eu hatal, ond yn hytrach gael eu dal ym mreichiau/ar lin oedolyn. Rhaid i blant 3 oed a hŷn ddefnyddio gwregys oedolyn yn unol â Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd. Mae mwy o fanylion isod:

www.dft.gov.uk/think/focusareas/children/childincar?page=Advice&whoareyou_id=

## NEWID Y CERBYD

19. Ni ddylid gwneud unrhyw newid i fanyleb y gwneuthurwr ar gyfer y cerbyd gan gynnwys newid neu ychwanegu at y math o danwydd ac eithrio lle mae'r Cyngor wedi rhoi caniatad ysgrifenedig ymlaen llaw.

## FFENESTRI GYDAG ARLLIW

20. Rhaid i'r sgrîn wynt flaen a'r ffenestri blaen fod â thrawsyriant goleuni gweladwy (VLT) o ddim llai na 75 y cant . Dim ond arlliwiau gwneuthurwr y cerbyd a ganiateir ar ffenestri cefn y cerbyd.

## PROFION AR Y CERBYD

21. Cynhelir prawf ar Gerbydau Hurio Preifat unwaith y flwyddyn nes byddant yn 5 oed. Cynhelir prawf ar Gerbydau Hurio Preifat sydd dros 5 oed ond dan 10 oed 6 mis wedi dyddiad y drwydded flynyddol. Caniateir i ddeiliaid trwydded archebu prawf i'r cerbyd hyd at 28 diwrnod cyn y prawf 6 mis.

22. Os metha cerbyd Brawf Plat Cerbyd y Cyngor neu MOT, ni ellir defnyddio'r cerbyd fel Cerbyd Hurio Preifat hyd nes i'r cerbyd gael ei brofi eto ac iddo basio prawf y Cyngor neu'r MOT.

## CYFARPAR Y CERBYD

23. Rhaid i'r cerbyd gludo'r cyfarpar isod:

a. Olwyn sbâr addas i'w defnyddio'n syth ac sydd wedi ei chadw yn y cyflwr iawn. Os mai olwyn dros dro i arbed lle yw'r olwyn sbâr, gellir ei defnyddio yn unig i gwblhau taith neu hurio penodol y cerbyd pan fu'n rhaid newid olwyn. Gall sydd â rhyw fath o dechnoleg gael eu heithrio o'r amod hwn yn ôl disgresiwn y Cyngor

b. Jac ac offer i newid yr olwynion.

c. Ni ddylai unrhyw gyfarpar ategol sydd wedi ei ffitio i gerbyd rwystro'r gyrrwr mewn unrhyw fodd, na'i l/llesteirio rhag gweld, na rhwystro nac achosi perygl i deithwyr neu ddefnyddwyr eraill y ffordd.

## SYSTEMAU SAIN, FIDEO NEU GADW GOLWG

24. Ni chaiff unrhyw system sain, fideo neu recordio nad oedd wedi ei gosod pan wnaed y cerbyd gael ei gosod na'i chwarae yn y  cerbyd heb hysbysu'r cyngor yn ysgrifenedig.

## DIM SMYGU YN Y CERBYDAU

25. Ni chaniateir i na'r gyrrwr na'r teithwyr smygu yn y cerbyd. Dylai'r cerbyd gydymffurfio â'r rheoliadau "di-fwg" a nodir yn Neddf Iechyd 2006.

## MESURYDDION A PHRISIAU

26. Nid oes rhaid i'r cerbyd fod â mesurydd ond os oes un wedi ei osod, rhaid iddo gydymffurfio â Rheoliadau Offerynnau Mesur (Clociau Tacsi) 2006. Rhaid i'r mesurydd:

a) ddangos y tâl a gofnodwyd ar y mesurydd tacsi mewn ffigyrau y gellir eu darllen yn glir, a dylid dangos y gair 'FARE' yn glir fel ei fod yn cyfeirio at y cyfryw ffigyrau.

b) dylid gosod y mesurydd yn unol â Thariff y Gweithredwr.

27. Rhaid gosod tariff y taliadau mewn man fel bod y tâl a godir yn weladwy i bob teithiwr yn y cerbyd bob amser a dylid goleuo'r ffigyrau i wneud hyn.

28. Rhaid i Berchennog y Cerbyd Hurio Preifat sicrhau bod llyfr derbynebion ar gael yn y cerbyd bob amser, a dylid darparu derbynneb os bydd y teithiwr yn gofyn am un.

## EIDDO COLL

29. Dylai perchennog neu yrrwr Cerbyd Hurio Preifat gymryd pob cam rhesymol i ddychwelyd unrhyw eiddo a adawyd yn ei g/cherbyd i'w berchnenog, a sut bynnag rhaid rhoi adroddiad am eiddo coll i'r Heddlu ymhen 48 awr.

## 30. Polisi amgylcheddol

- Rhoddir **trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat newydd** yn unig i gerbydau sy'n cwrdd â Safon Euro 6, oni fydd y cerbyd yn ateb polisi hygyrchedd cadeiriau olwyn yr awdurdod, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r cerbyd gwrdd â safon is Euro 5.
- Ceir **trosglwyddo trwyddedau Cerbyd Hurio Preifat** yn unig ar gerbydau sy'n cwrdd â Safon Euro 6, oni fydd y cerbyd yn ateb polisi hygyrchedd cadeiriau olwyn yr awdurdod, sy'n golygu y bydd yn rhaid i'r cerbyd gwrdd â safon is Euro 5.
- **Amnewid Cerbyd Hurio Preifat**. Gall deiliad trwydded cerbyd sy'n bod eisoes (perchennog oedd a thrwydded gyfredol cyn cyflwyno'r polisi ac a ddaliodd i adnewyddu'r drwydded hon) newid y cerbyd sydd ar y drwydded honno os yw'r cerbyd yn cwrdd ag isafswm safonau Euro 5. Bydd trwyddedau cerbydau a roddwyd wedi cyflwyno'r polisi yn cael eu rhoi yn unig i gymryd lle cerbydau sy'n cwrdd â safon Euro 6.

31. Dylai deiliaid pob trwydded Hurio Preifat gydymffurfio â'r darpariaethau sy'n ymwneud â Hurio Preifat sydd yn y ddeddfwriaeth isod:

- Deddf Cyfrifoldebau Heddluoedd Trefol 1847
- Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976
- Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988 Rhan 11(a) Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau a Chyfarpar
- Deddf Cydraddoldeb 2010
- Deddf Iechyd 2006

# Atodiad 18.

## Polisi CTCC

Manylebion ac Amodau Camerâu Teledu Cylch Cyfyng (CTCC)

mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat

Cyffredinol

Nod y canllawiau hyn yw sicrhau bod systemau CTCC a osodir mewn Tacsis a Cherbydau Hurio Preifat (CHP) a drwyddedir gan Gyngor Casnewydd yn cael eu rheoli'n gywir tra'u bod yn cael eu defnyddio i atal a chanfod troseddau; ac i wella iechyd a diogelwch gyrwyr trwyddedig a theithwyr.

At ddibenion y Polisi hwn, bydd y term 'system CTCC' yn gymwys i unrhyw ddyfais recordio electronig a osodir y tu mewn i gerbyd sydd â'r gallu technegol i ddal a chadw delweddau gweledol a recordiadau sain o'r tu mewn neu'r tu allan i'r cerbyd. Yn ychwanegol at system safonol y CTCC, gall hyn gynnwys, er enghraifft, ddyfeisiadau fel rhai i recordio data am ddigwyddiadau/damweiniau.

Rhaid i osodiad a rhedeg CTCC gydymffurfio â gofynion Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG): https://ico.org.uk/media/for-organisations/documents/1542/cctv-code-of-practice.pdf

Rhaid darparu datganiad cydymffurfio wedi ei lofnodi gan y cwmni sy'n darparu'r system CTCC, i brofi bod y system yn cwrdd â'r fanyleb angenrheidiol y manylir arni yn y Polisi hwn.

Bydd y Polisi hwn yn gymwys i unrhyw gerbyd sy'n cynnwys system CTCC fel y'i disgrifir uchod.

Pwrpas CTCC

Cred y Cyngor y bydd yn gwella diogelwch gyrwyr/teithwyr mewn cerbydau trwyddedig trwy wneud y canlynol:

- Atal troseddau rhag digwydd

- Lleihau ofn trosedd
- Helpu’r heddlu wrth ymchwilio i droseddau
- Helpu cwmniau yswiriant wrth ymchwilio i ddamweiniau cerbyd modur

Gofyniad CTCC

Mae defnyddio systemau CTCC mewn cerbydau trwyddedig yn wirfoddol.

Rhaid i unrhyw system CTCC o leiaf gwrdd â’r gofynion a osodir allan yn y fanyleb yn Atodiad A y canllaw hwn. Dim ond systemau CTCC sy’n ateb y gofynion hyn all gael eu gosod mewn cerbydau hacni a hurio preifat.

Llawrlwytho Data

Caiff data ei lawrlwytho yn unig at y dibenion a ganlyn:

a) Mewn ymateb i gais cyfreithlon am fynediad at ddata dan Ddeddf Diogelu Data 2018, yng nghyswllt y cerbyd/gyrrwr

b) Mewn ymateb i Gais Gwrthrych am Wybodaeth sy’n cydymffurfio a Deddf Diogelu Data 2018

c) Lle gwnaed cwyn ysgrifenedig i’r Adran Drwyddedu am y cerbyd/gyrrwr ac nad oes modd datrys y gŵyn trwy unrhyw ddull arall.

Mae mwy o wybodaeth am lawrlwytho data o systemau CTCC ym Mholisi Llawrlwytho’r Awdurdod Trwyddedu [MEWNOSOD DOLEN I’R POLISI AR WAHAN].

Cadw Data

Caiff data a adelwir gan yr Awdurdod Trwyddedu ei gadw am y cyfnodau a ganlyn yn unig:

a) Achosion yn arwain at erlyn - 10 mlynedd o ddyddiad y treial

b) Rhybudd ffurfiol - 3 blynedd o ddyddiad y rhybudd

c) Rhybudd ysgrifenedig neu ddim camau ffurfiol - 3 blynedd o ddyddiad y penderfyniad

d) Cais Gwrthrych am Wybodaeth - 6 blynedd o ddyddiad y cais.

Rheolydd Data

Mae swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (SCG) yn diffinio "rheolydd data" fel y corff sydd â chyfrifoldeb cyfreithiol dan Ddeddf Diogelu Data 2018 am bob mater yn ymwneud â defnyddio data personol. At ddiben gosod a rhedeg system CTCC mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat, y "rheolydd data" fydd Cyngor. …………….

Prosesydd Data Trydydd Parti

Lle defnyddir darparwr gwasanaeth i storio data CTCC o bell, bydd yn gweithredu fel "prosesydd data". Mae prosesydd data, yng nghyswllt data personol, yn golygu unrhyw berson (ac eithrio rhywun a gyflogir gan y rheolydd data) sy'n prosesu data ar ran y rheolydd data, mewn ymateb i gyfarwyddiadau penodol. Y rheolydd data, er hynny, sydd â'r cyfrifoldeb llawn dros weithredoedd y prosesydd data.

Rhaid i bob system CTCC mewn Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat a drwyddedwyd gan Gasnewydd hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu am y rheoli data a'r manylion cyswllt.

Asesiad Effaith Preifatrwydd (AEP)

Cynhyrchodd yr Awdurdod Trwyddedu AEP i ystyried yr angen am CTCC, er mwyn sicrhau yr ystyriwyd mater preifatrwydd, ac i roi'r mesurau rheoli priodol ar waith i leihau unrhyw ymyrryd ac i ddiogelu'r data.

Arwyddion

Rhaid i bob Cerbyd Hacni a Hurio Preifat gyda CTCC arddangos arwyddion yn y cerbyd i roi gwybod fod CTCC ar waith. Rhaid arddangos o leiaf 3 arwydd (1 ar ochr y teithiwr yn y tu blaen ac 1 bob ochr i'r cerbyd yn y tu ôl).

Rhaid arddangos yr arwyddion mewn mannau fel eu bod yn tarfu cyn lleied ag sydd modd ar welededd, a'u bod mor amlwg â phosib i deithwyr, cyn ac ar ôl iddynt ddod i mewn i'r cerbyd.

Dan yr amgylchiadau prin lle gellir cyfiawnhau recordio sain, rhaid i arwyddion ei gwneud yn hollol glir fod recordio sain yn digwydd neu y gall ddigwydd, a rhaid dwyn hyn hefyd i sylw'r teithwyr trwy ddweud wrthynt.

Recordiadau sain

Caniateir i systemau CTCC cymeradwy recordio sain, ond ni ddylent allu recordio sain yn barhaus.

Gellir recordio sain yn unig trwy fotwm 'panig' sy'n cael ei weithio gan y gyrrwr neu'r teithiwr. Gall y gyrrwr weithio'r recordio sain dan yr amgylchiadau isod yn unig:

- Pan fo'n credu fod risg i'w d/ddiogelwch ei hun neu ddiogelwch ei d/theithiwr
- Pan fo'n bryderus am iaith a allai aflonyddu neu sarhau
- I warchod ei f/bywoliaeth, e.e., anghydfod ynghylch tâl, pryder am ddifrod posib i'r cerbyd.

Dan yr amgylchiadau prin hyn, lle mae cyfiawnhad dros y recordio sain, rhaid i arwyddion ei gwneud yn glir fod recordio sain yn digwydd.

Cynnal a Chadw a Defnydd

Rhaid i'r system gael ei chynnal a'i chadw a'i defnyddio yn unol ag amodau'r drwydded cerbyd hacni/hurio preifat a osodir allan yn Atodiad B.

Atodiad A: Isafswm Manyleb CTCC

| 1.0 Manylebion Rhedeg Technegol | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 1.1 | Dyluniad cyflwr solet 100% neu system a brofwyd i wrthsefyll dirgryniad a sioc | Ni ddylai'r system fod ag unrhyw ffan a dylai'r recordiad allu gwrthsefyll dirgryniad a sioc, h.y., SSD seiliedig ar fflach (safon diwydiannol 100%),<br><br>- Disg galed gyda mecanwaith gwrth-ddirgryniad a gwrth-sioc mecanyddol a system ysgrifennu ffeiliau hunan-adfer a hunan-wirio. |
| 1.2 | 8 i 15 Folt DC | Rhedeg rhwng 8 a 15 folt DC |
| 1.3 | Gwarchod rhag polaredd cildro | System i'w gwarchod rhag foltedd cildro. |
| 1.4 | Atal rhag cylched fer | System i'w gwarchod rhag cylchedau byr |

| | | |
|---|---|---|
| 1.5 | Gwarchod rhag gor-foltedd | System i'w gwarchod rhag elfennau darfodedig foltedd uchel sy'n debygol y deuir ar eu traws yn system drydanol y cerbyd. |
| 1.6 | Gofynion<br><br>Cydnawsedd<br><br>Electromagnetig<br><br>Cerbydau modur | Rhaid i system camera'r tacsi yn y cerbyd gydymffurfio â Chyfarwyddebau'r Cyngor:<br><br>- 2004/108/EC ar Gydnawsedd Electromagnetig Compatibility<br><br>(CISPR 22/EN55022),<br><br>- 2004/104/EC ar Ymyriant Radio (adrannau 6.5, 6.6,<br><br>6.8 a 6.9)<br><br>Dylai'r cyfarpar camera yn y tacsi felly fod wedi ei e-farcio neu ei CE-farcio fel bod gwneuthurwr y cyfarpar yn cadarnhau ei fod yn an-imiwnedd gysylltiedig ac yn addas i'w ddefnyddio mewn cerbydau modur. |
| 1.7 | Swits gweithredu (ymlaen/diffodd) y system i fod mewn man lle nad oes modd mynd ato o'r tu mewn i'r cerbyd (h.y., yn y gist/ adran yr injan) | Rhaid i'r system fod yn weithredol trwy'r amser y mae'r cerbyd yn cael ei ddefnyddio fel cerbyd trwyddedig. Rhaid lleoli'r swîts sy'n diffodd y system yng nghist y cerbyd neu adran yr injan (h.y., dylid medru diffodd y system yn unig o'r tu allan i'r cerbyd) |
| 1.8 | Egwyddor recordio byffer cyntaf-mewn/cyntaf-mas | |
| 1.9 | Logio pob gweithred gyrchu yn awtomatig ac yn rhan annatod o'r system, gan gynnwys dyddiad ac enwau personél | |
| 1.10 | Diogelwch, hyd a chlirio ffeiliau log yn awtomatig | |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 1.11 | Fformatiau a chyfryngau allforio delweddau | Rhaid allforio delweddau mewn fformatiau sydd ar gael yn fasnachol. |
| 1.12 | Gwarchod delweddau pan fydd tarfu ar y pwer | Rhaid cadw delweddau os digwydd i'r pwer gael ei golli. Ni chaniateir defnyddio batri wrth gefn |
| 1.13 | Rhaid i'r uned redeg heb i'r injan fod wedi ei thoi ymlaen. | Rhaid i'r Uned fod â'r gallu i redeg am o leiaf 2 awr heb bŵer o danio'r injan. |
| 1.14 | Dylid recordio a storio data delweddau a sain mewn uned ar wahan i ben y camera. | |
| 1.15 | Gallu GPS | Rhaid i'r system fod yn gydnaws i ganiatau gallu GPS. |
| 1.16 | Rhaid i'r system allu recordio sain wedi ei gydamseru â'r delweddau a recordiwyd. | |
| 1.17 | Ni ddylai'r system recordio sain ac eithrio pan fod recordio sain wedi ei roi ar waith trwy gyfrwng sbardun a gymeradwywyd. | Dylai'r system fod â'r gallu i ddechrau recordio data sain trwy gyfrwng o leiaf ddau fotwm sbardun (gweler hefyd 1.26 isod).<br><br>Rhaid i un botwm sbardun allu cael ei roi ar waith gan y gyrrwr. Unwaith i'r sbardun gael ei roi ar waith, rhaid i'r system ddechrau recordio data sain. Bydd y system yn dal ati i recordio sain hyd nes i'r un sbardun gael ei roi ar waith eto. Pan roddir y sbardun ar waith am yr eildro, rhaid i hyn roi terfyn ar y recordio sain (e.e. gellid pwyso botwm i ddechrau recordio sain, h.y., y sbardun, a all fod yn fotwm, er enghraifft, yn cael ei bwyso i ddechrau recordio sain, |

| | | |
|---|---|---|
| | | a byddai pwyso'r un botwm eto yn stopio'r recordio sain).<br><br>Rhaid i'r ail fotwm sbardun allu cael ei roi ar waith gan y teithwyr yn y cerbyd yn annibynnol ar y gyrrwr. Unwaith i'r sbardun gael ei roi ar waith, rhaid i'r system ddechrau recordio data sain. Bydd y system yn dal ati i recordio sain hyd nes i'r un sbardun gael ei roi ar waith eto.<br><br>Pan roddir y sbardun ar waith am yr eildro, rhaid i hyn roi terfyn ar y recordio sain (h.y., y sbardun, a all fod yn fotwm, er enghraifft, yn cael ei bwyso i ddechrau recordio sain, a byddai pwyso'r un botwm eto yn stopio'r recordio sain).<br><br>Rhaid i'r ddau sbardun sy'n rhoi'r sain ar waith fod yn annibynnol ar ei gilydd - mae hyn yn golygu y gellir diffodd recordiad sain yn unig gyda'r un sbardun (gan y gyrrwr neu deithiwr) a ddefnyddiwyd i droi'r recordio sain ymlaen. |
| 1.18 | Pan chwaraeir y sain yn ôl, wedi ei sbarduno, bydd mewn 'amser go-iawn' ac wedi ei gydamseru a'r delweddau a ddaliwyd. | |
| 1.19 | Rhaid i samplo digidol y signal sain fod yn uwch na 8KHz | |
| 1.20 | Rhaid i eglurder digidol y samplau sain fod yn fwy na 10 bit. | |

| | | |
|---|---|---|
| 1.21 | Dylai'r meicroffon sain fod wedi ei integreiddio ym mhen y camera. | |
| 1.22 | Rhaid storio data sain a data delweddau gyda'i gilydd, nid mewn ffeiliau ar wahan, a rhaid eu gwarchod rhag cael eu cyrchu gan y sawl heb awdurdod, a rhag ymyrraeth. | |
| 1.23 | Rhaid i'r system allu cynnal profi'r swyddogaeth sain at ddibenion ei gosod a'i harchwilio. | |
| 1.24 | Rhaid i'r system 'fynd i gysgu' rhag draenio gormod ar y batri pan fydd yn segur am gyfnodau maith. Rhaid gallu ei roi ar waith eto yn syth. | |
| 1.25 | Ni ddylid dangos delweddau a gofnodwyd gan y system yn y cerbyd. | |
| 1.26 | Rhaid i'r system fod ag o leiaf ddau sbardun i'w rhoi ar waith mewn argyfwng (botymau rhoi sain ar waith). | Rhaid i un o'r sbardunau / botymau rhoi sain ar waith allu cael ei weithio gan y gyrrwr - rhaid i hwn fod yn annibynnol ar y swîts recordio sain. Rhaid i o leiaf un sbardun / botwm arall rhoi sain ar waith allu cael ei weithio gan deithiwr o unrhyw sedd teithiwr yn y cerbyd. Unwaith iddo gael ei droi ymlaen, rhaid i'r swîts hwn sbarduno recordio fideo a sain yn unol ag adran 6.1 isod. Rhaid i'r teithiwr allu gweld hysbysiad sy'n dweud sut i stopio'r recordiad sain |

| | | |
|---|---|---|
| 1.27 | Rhaid i'r system gynnwys dangosydd gweledol fydd yn dangos yn glir pryd y mae recordiad sain yn digwydd. Rhaid i'r dangosydd hwn allu cael ei weld gan yr holl deithwyr yn y cerbyd. | Gall hyn fod ar ffurf dangosydd LED sy'n rhan o swits troi'r sain ymlaen, neu LED o bell y gall teithwyr ei weld yn glir. |

| 2.0 Manyleb Dechnegol Gallu Storio | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 2.1 | Isafswm o bedwar diwrnod ar ddeg, (h.y.,14 x 24 awr) o allu recordio | Rhaid i system y camera allu recordio a storio gwerth o leiaf bedwar diwrnod ar ddeg o ddelweddau o faint HD1 (720/288) neu well.<br><br>Rhad trosysgrifo recordiadau wedi 28 diwrnod o ddyddiad eu dal, ac eithrio dan amgylchiadau eithriadol yn dilyn cais gan yr Heddlu neu'r Cyngor. Fodd bynnag, mewn achosion o'r fath, rhaid dileu'r data wedi i'r mater ddod i ben. |
| 2.2 | Rhaid i ddelweddau fod yn glir dan bob amod o oleuni | System i ddarparu delweddau clir mewn heulwen lachar, cysgod, tywyllwch a thywyllwch dudew. Hefyd, pan fo golau cefn cryf yn bresennol. |

| 3.0 Manyleb Dechnegol Pen y Camera | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 3.1 | Camera wedi ei osod fel nad yw'n ymyrryd | Dylai'r camera a holl gydrannau'r system fod wedi eu gosod mewn modd nad yw'n ymyrryd â golwg y gyrrwr na'r olwg o'r drychau, na'r ffordd mae'r cerbyd yn rhedeg fel arfer. |
| 3.2 | Datgysylltu'r camera | Dylai pen y camera fod wedi ei ddylunio fel ei fod yn hawdd i'r sawl sy'n gwneud y gwaith cynnal a chadw ei dynnu a'i roi'n ôl. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 3.3 | Offer arbennig i addasu/symud | I atal ymyrryd amhriodol, dim ond offer a gyflenwir i osodwyr awdurdodedig ddylai allu gwneud gwaith addasu neu symud. |
| 3.4 | Maes gweld i ddal yr holl deithwyr sydd yn y cerbyd | Rhaid i lens y camera fod o fath sy'n dal y gyrrwr a'r holl deithwyr sydd yn y cerbyd ar y ddelwedd a recordiwyd. Ni ddylai dull y lens greu effaith "powlen bysgod". |
| 3.5 | Rhaid i ddelweddau fod yn glir | System i roi delweddau clir dan bob math o amodau goleuni a chaniatau canfod gwahanol liwiau croen |
| 3.6 | Cydnaws i'w ddefnyddio mewn cerbydau sydd â phared<br><br>(tarian) | Rhaid i system y camera allu addasu er mwyn rhoi delweddau clir pan fydd gan gerbyd darian. Gellir gwneud hyn trwy ddefnyddio nifer o bennau camera. |
| 3.7 | Nifer o gamerâu | Dylai'r uned allu cynnal hyd at bedwar (4) camera. Efallai y bydd angen pedwar camera i weithio'n ddigonol mewn cerbydau mwy a/neu rai mathau o gerbydau a adeiladwyd i bwrpas. |

| 4.0 Manyleb Dechnegol - Dyfais Storio | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 4.1 | Gwrthiant gwrthdrawiad a sioc | Dylai'r ddyfais recordio allu gwrthsefyll gwrthdrawiad, yn ddigon i wrthsefyll damwain car nodweddiadol, neu gael ei tharo â gwrthrych mawr, trwm fel cês dillad. |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 4.2 | Rheolydd mewn lleoliad cudd | Dylai'r uned storio gael ei guddio o'r golwg a dim ond y sawl a awdurdodwyd ddylai allu mynd ato. |
| 4.3 | Darparu porth llawrlwytho | Bydd gan y recordydd borth cyfathrebu i'w lawrlwytho gan y sawl a awdurdodwyd. |
| 4.4 | Dylai'r porth llawrlwytho fod mewn man hawdd mynd ato, fel lle cadw menig. | Dylid cadw porth llawrlwytho'r recordydd yn y lle cadw menig os yw hyn yn ymarferol; os nad yw, yna mewn man lle nad oes angen tynnu paneli ac sy'n hygyrch. |
| 4.5 | Hyd cebl y porth llawrlwytho (1 troedfedd o leiaf) | Dylai'r porth llawrlwytho fod o leiaf un droedfedd o hyd er mwyn llawrlwytho'n hawdd. |
| 4.6 | Recordydd i'w osod yn sownd i'r cerbyd | |
| 4.7 | Log i gofrestru mynediad pob defnyddiwr | |
| 4.7.1 | Log i gofrestru addasiadau i baramedrau system y camera | |
| 4.7.2 | Log i gofrestru pob sesiwn llawrlwytho delweddau | |
| 4.7.3 | Log i gofrestru addasu/trin delweddau a lawrlwythwyd | |
| 4.7.4 | Log i gofrestru allforio delweddau a lawrlwythwyd | |

| | | |
|---|---|---|
| 4.7.5 | Log i gofrestru allforio clipiau a lawrlwythwyd | |
| 4.7.6 | Ffeil y log wedi'i gwarchod rhag mynediad heb awdurdod | |
| 4.7.7 | Stamp amser/dyddiad | Rhaid rhoi stamp amser a dyddiad ar bob delwedd a storiwyd. |
| 4.7.8 | Stamp rhif ID y cerbyd | Rhaid i bob delwedd a storiwyd fod â dau faes i adnabod y cerbyd (VIN a phlât rhif). |
| 4.7.9 | Stamp cod ID y rheolydd nad oes modd ei addasu | Rhaid stampio pob delwedd a recordiwyd yn awtomatig gyda chod unigryw nad oes modd ei addasu sydd yn adnabod y rheolydd a ddefnyddiwyd i recordio'r ddelwedd |
| 4.7.10 | Rheolydd (Recordydd Storio) | Gwneuthurwr i roi i Gyngor Casnewydd gyflenwad o offer arbenigol i ganiatau tynnu ymaith y rheolydd a llawrlwytho data pan fydd angen. |

| 5.0 Manylebion ar gyfer recordio fideo a sain | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 5.1 | Recordio delweddau fideo pan fydd y system ar waith (pan nad yw'r sain ar waith). | Dylai'r system recordio delweddau ar isafswm cyfradd o bedair delwedd yr eiliad. |

| | | |
|---|---|---|
| 5.2 | Recordio delweddau fideo pan fydd y sain ar waith. | Dylai'r system recordio delweddau fesul pump ar hugain o ddelweddau yr eiliad yn ystod cyfnodau pan fydd y recordio sain ar waith (naill ai trwy ofyniad amser, neu trwy ei roi ar waith gan swits sbardun y gyrrwr neu fotwm sain y teithiwr). |
| 5.3 | Pan fydd ar waith, rhaid i recordio sain fod mewn amser go-iawn a rhaid ei gydamseru â'r recordiad fideo. | Pan fydd ar waith, rhaid i recordio sain fod mewn amser go-iawn a rhaid ei gydamseru â'r recordiad fideo. |
| 5.4 | System i barhau i recordio delweddau (a sain pan fo hynny'n gymwys) pan fydd yr injan wedi ei diffodd. | Rhaid i'r system barhau i recordio delweddau (a sain pan fo hynny'n gymwys) am 30 munud wedi i'r injan gael ei diffodd. |

| 6.0 Manyleb am roi ar waith trwy sbardun/botwm sain y gyrrwr neu'r teithiwr | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 6.1 | Rhaid i danio botwm sbardun wneud darpariaeth ar gyfer storio delweddau wedi'u gwarchod rhag trosysgrifo pan gaiff ei roi ar waith gan y gyrrwr neu'r teithiwr. | Rhaid ffitio'r system ag o leiaf ddau fotwm sbardun a fydd, unwaith iddynt fod ar waith, yn tanio'r recordio sain a fideo a warchodir (gweler hefyd 1.17 a 1.26 uchod). |
| 6.2 | Gallu i warchod trosysgrifo delweddau mewn argyfwng | Caiff dilyniannau delweddau sy'n deillio o'u rhoi ar waith mewn argyfwng eu recordio mewn ardal o'r cof a warchodir rhag cael eu trosysgrifo |
| 6.3 | Gallu gwarchod rhag trosysgrifo pan roddir ar waith o leiaf 3 gwaith | |

| | | |
|---|---|---|
| 6.4 | Gwarchod rhag trosysgrifo yn hunan-glirio ar amserydd 96 awr | |

| 7.0 Manyleb Dechnegol Llawrlwytho | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 7.1 | Amser llawrlwytho'r cof cyfan i beidio bod yn fwy na 30 munud | Llawrlwytho i'w gwblhau ymhen 30 munud neu lai. |
| 7.2 | Darparu'r meddalwedd, ceblau, allweddi diogelwch angenrheidiol i Dîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd. | |
| 7.3 | Rhaid i'r system fod yn gydnaws â system redeg TG y cytunir arni gyda'r awdurdod lleol | |
| 7.4 | Delweddau a lawrlwythwyd i'w storio mewn cyfrwng heb fod yn hedegog | |
| 7.5 | Delweddau a lawrlwythwyd i'w storio ar fformat diogel | |
| 7.6 | Dilysrwydd delweddau y gellir eu gwirio | Dylai pob delwedd gael ei stampio gydag ID y rheolydd ac ID y cerbyd fel nad oes modd ymyrryd â hwy |

| | | |
|---|---|---|
| | | |
| 7.7 | Darparu cefnogaeth dechnegol i Dîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd pan fo angen. | I helpu i gyrchu'r system os difrodwyd y cerbyd neu'r system os bu damwain ymhen 1 awr yn ystod oriau gwaith arferol ac ymhen 8 awr fel arall. |
| 7.8 | Gwaherddir Llawrlwytho Di-wifr | Ni chaiff yr uned ganiatau llawrlwytho diwifr. Gellir defnyddio diagnostig diwifr. Rhaid analluogi pob caledwedd diwifr. |
| 7.9 | Hidlo'r delweddau penodol am ddigwyddiadau ac amseroedd pryd yr amcanwyd fod y drosedd wedi digwydd. | |

| 8.0 Gofynion o ran Gwybodaeth y System | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 8.1 | Darparu taflen log gwasanaeth gyda phob uned a gyflenwir | Dylai gwneuthurwr yr uned gyflenwi log gwasanaeth gyda'r uned. Dylai'r gwneuthurwr hefyd amgáu cyfarwyddiadau manwl i'r gyrwyr gyda phob uned a gyflenwir. Dylid hefyd roi llawlyfr gosod i osodwyr awdurdodedig a gweithredwyr fflyd. |
| 8.2 | Rhif cyfres i'w ddangos ar y log gwasanaeth | Caiff yr uned ei marcio â rhif cyfres |
| 8.3 | Dyddiad gosod i'w ddangos ar y log gwasanaeth | Darpariaeth i'r gosodwr ddangos y dyddiad gosod |

| | | |
|---|---|---|
| 8.4 | Darparu cerdyn cyfarwyddiadau i'r gyrrwr gyda phob uned a gyflenwir | |
| 8.5 | Darparu llawlyfr gosod i osodwyr a gweithredwyr fflyd. | |
| 8.6 | Cyfarwyddiadau gweithredu clir | Dylai'r system fod â chyfarwyddiadau clir a chryno am sut i'w rhedeg, a'r rheiny wedi eu hysgrifennu gan roi ystyriaeth ddyledus i lefelau amrywiol o lythrennedd. |
| 8.7 | Gosod gan asiantwyr awdurdodedig | Dylai'r uned gael ei gosod gan asiantwyr awdurdodedig y gwneuthurwr. |
| 8.8 | Darparu rhestr o asiantwyr awdurdodedig i Dîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd | Dylai'r gwneuthurwr ddarparu rhestr o'r holl asiantwyr awdurdodedig i Dîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd. |
| 8.9 | Dogfennaeth | Rhaid i'r gwneuthurwr ddarparu cyfarwyddiadau clir a chryno am sut i redeg y system, a'r rheiny wedi eu hysgrifennu mewn iaith lleygwr. (Manylion am sut mae'r system yn recordio'r delweddau) |
| 8.10 | Gwarchod Delweddau | Rhaid gwarchod yr holl ddelweddau a ddaliwyd trwy ddefnyddio meddalwedd amgryptio sydd yn cwrdd â safon gyfredol FIPS 140-2 (lefel 2) neu'r hyn sy'n cyfateb, neu sy'n well na hynny. |

| 9.0 Cyfleuster Archwilio Cerbydau | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |

| | | |
|---|---|---|
| 9.1 | Darparu dangosydd o statws/iechyd y system | Dylai’r gyrrwr fod â dangosydd sy’n dangos pryd y mae’r system ar waith a phryd y mae rhywbeth o’i le. |
| 9.2 | Lleoliad dangosydd statws/iechyd y system i’w weld gan y gyrrwr yn unig | Dylai’r dangosyddion gael eu gosod fel mai’r gyrrwr yn unig sy’n eu gweld. |
| 9.3 | Gofyniad am ddangosydd ychwanegol | Lle bo system wedi ei gosod gyda dangosydd i ddangos fod y system ymlaen, bydd y dangosydd hwn ar wahan i’r rhai a restrir uchod, neu o liw gwahanol, i osgoi unrhyw ddryswch ar ran y gyrwyr sy’n defnyddio’r system. |
| 9.4 | Dyluniwyd/gosodwyd fel bod modd ei phrofi gan Dîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd (neu bobl sy’n gweithredu ar ran y Cyngor – megis archwilwyr cerbydau) | Bydd y system wedi ei dylunio a’i gosod yn y fath fodd fel y bydd yn hawdd i staff Tîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd roi prawf arni i wneud yn siwr fod pob nodwedd yn gweithio a bod delweddau’n cael eu recordio yn ôl y gofyn. |

| 10.0 Gofynion Cyffredinol y System | | |
|---|---|---|
| Cyf | Manyleb | Manylion |
| 10.1 | Gwrthsefyll fandaliaeth ac ymyrraeth | |
| 10.2 | Darparu datganiad cydymffurfio | Yn ychwanegol at brawf ffurfiol ar bob agwedd o ofynion y fanyleb hon, dylai datganiad cydymffurfio gael ei ddarparu a’i lofnodi gan swyddog o’r cwmni. |
| 10.3 | Bod yn ddibynadwy wrth redeg a than amodau amgylcheddol | Dylai’r system redeg yn llawn ac yn ddibynadwy dan yr holl amodau y deuir ar eu traws wrth redeg tacsis. |
| 10.4 | Gallu rhaglennu paramedrau amseru delweddau | Dylid gallu newid amseru a pharamedrau heb orfod newid cydrannau. |

| | | |
|---|---|---|
| 10.5 | Hyfforddiant a Chefnogaeth a Chyfarpar Technegol | Rhaid i'r gwneuthurwr ddarparu Llawlyfr Hyfforddi a Thechnegol i Dîm Trwyddedu Cyngor Casnewydd. |
| 10.6 | Meddalwedd a Chaledwedd | Rhaid i'r gwneuthurwr gyflenwi ceblau a meddalwedd i Gyngor Casnewydd, i'w gosod dan oruchwyliaeth staff awdurdodedig y Cyngor. |
| 10.7 | Cytundeb rhwng gwneuthurwr y camera a Chyngor Casnewydd | Cytundeb i ganiatau i Gyngor Casnewydd gael y feddalwedd berthnasol gan y Gwneuthurwr, fel os daw busnes y Gwneuthurwr i ben, y gall y Cyngor gynnal y system. |
| 10.8 | Rhaid i'r holl gyfarpar gydymffurfio ag unrhyw ofynion deddfwriaethol o ran Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd Cerbydau Modur | |

# Atodiad 19.

## Polisi Systemau Fideo Pwynt Gwrthdaro (SFPG) “Dash Cams”

Camerâu yw systemau SFPG, a adwaenir hefyd fel dash cams cerbydau, sy’n wynebu tuag allan ac yn recordio’r hyn sy’n digwydd y tu allan i’r cerbyd. Maent yn cael eu defnyddio i ddal ffilm os digwydd i’r cerbyd fod mewn digwyddiad traffig y ffordd.

Mae iddynt lawer o fanteision, megis nodi pwy sy’n gyfrifol am achosi damwain, darparu tystiolaeth, datrys anghydfod, ac ambell waith, gallant arwain at ostwng premiymau yswiriant.

Rhaid i berchenogion cerbydau hacni a hurio preifat trwyddedig sydd eisiau gosod system SFPG wneud hynny yn unol â’r polisi hwn a’r amodau sydd ynghlwm.

Mae SFPG/dash cams yn destun Rheoliadau Cyffredinol Diogelu Data (GDPR), ac felly cyn prynu system, cynghorir perchenogion cerbydau i ddarllen Cod Ymarfer Swyddfa’r Comisiynydd Gwybodaeth ar Gamerâu Gwyliadwriaeth a Gwybodaeth Bersonol a Chanllaw i GDPR. Mae mwy o wybodaeth i’w gael yn: https://ico.org.uk/

Dylid nodi mai perchennog y cerbyd yw rheolydd data’r system a’i f/bod yn gyfrifol am y data onid yw’r system yn ymgorffori camerâu CTCC mewnol (gweler y polisi CTCC am fanylion pellach).

Rhaid i systemau sy’n recordio delweddau mewnol ac allanol gydymffurfio â’r polisi hwn, a pholisi a manyleb CTCC yr Awdurdod Trwyddedu.

Amodau i’w gosod ar Drwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat:

1. Ni ddylid gosod unrhyw system SFPG mewn cerbyd oni fydd arno farc CE a’i fod yn cydymffurfio â Chyfarwyddeb y Cyngor 93/68/EEC neu’r hyn sy’n cyfateb.

2. Rhaid i berchennog y cerbyd gynhyrchu polisi SFPG/dash cam sydd yn nodi'n glir y sail gyfreithiol dros brosesu data personol a gesglir, a chyfnod cadw'r data. Dylid cyfleu pwrpas y system wrth unrhyw un sy'n gyrru'r cerbyd.

3. Dylai perchennog y cerbyd hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhen 7 diwrnod o ffitio system SFPG. Dylai hysbysiad o'r fath fod yn ysgrifenedig a bydd yn cynnwys manylion y cerbyd y ffitiwyd y system ynddo a gwneuthuriad, model a rhif marc CE (neu'r hyn sy'n cyfateb) y system SFPG.

4. Dylid arddangos hysbysiad rhoi gwybod, a ddarparwyd gan y cyflenwr, y tu mewn i'r cerbyd ar bob un o ffenestri cefn y teithwyr. Dylid gosod yr hysbysiadau mewn man amlwg lle gall pobl yn y cerbyd a'r tu allan iddo eu darllen. Dylai'r perchennog ofalu bod yr hysbysiadau yn cael eu cadw mewn cyflwr glân a darllenadwy.

5. Dylai'r perchennog sicrhau bod y system yn cael ei chynnal a'i chadw'n gywir ac yn rheoliad, yn unol â chyfarwyddiadau'r gwneuthurwr a chan rywun sydd â'r cymwysterau addas. Dylid cadw cofnod ysgrifenedig o bob gwaith cynnal a chadw, a'u cadw gan y perchennog am o leiaf 12 mis. Dylid peri bod y cyfryw gofnodion ysgrifenedig ar gael pan fydd swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu neu Swyddog Heddlu yn gwneud cais.

6. Pan fydd swyddog o'r Awdurdod Trwyddedu neu swyddog heddlu yn gwneud cais am ddelweddau a adferwyd, dylai'r perchennog wneud yn siwr fod y system SFPG ar gael i weinyddwr y system mor fuan ag sy'n rhesymol ymarferol, a sut bynnag ymhen 7 diwrnod i'r cais.

7. Dylai perchennog y cerbyd gymryd pob cam rhesymol i sicrhau fod unrhyw un sy'n gyrru'r cerbyd yn ymwybodol o bob amod yn ymwneud ag unrhyw system SFPG a osodwyd a'i f/bod wedi cael digon o gyfarwyddiadau am yr angen i'r system fod ar gael cyn gynted ag sy'n rhesymol ymarferol, a sut bynnag ymhen 7 diwrnod o unrhyw gais awdurdodedig am gael unrhyw ddelwedd.

8. Lle bo angen, dylai'r perchennog sicrhau y cyflwynir hysbysiad i'r Comisiynydd Gwybodaeth i ymdrin â'r dibenion y defnyddir y system SFPG ar eu cyfer.

# Atodiad 20.

## Polisi Lifrai'r Cerbyd

Nid yw rhai aelodau o'r cyhoedd yn gwahaniaethu rhwng cerbydau Hurio Preifat a cherbydau Hacni, ac nid ydynt yn sylweddoli nad yw cerbydau Hurio Preifat ar gael i'w hurio'n syth na'u galw ar y stryd. Mae'n bwysig felly bod y cyhoedd yn gallu gwahaniaethu'n hawdd rhwng y gwahanol fathau o gerbyd. Mae creu lifrai penodol i Gerbydau Hacni yn fodd i ddatrys yr anhawster hwn.

Nid yw rhoi arwyddion ar doeau cerbydau Hurio Preifat yn cael ei weld fel arfer da, hyd yn oed os byddant yn dweud 'archebu ymlaen llaw yn unig'.  Y rheswm am hyn yw y gall unrhyw arwydd ar do cerbyd beri i rywun ddrysu rhyngddo a cherbyd Hacni, sydd hefyd ag arwydd ar y to.

Mae gofyn i gerbydau a drwyddedir gan Gyngor Dinas Casnewydd, yn Gerbydau Hacni a Hurio Preifat, arddangos plat adnabod a gyhoeddir gan y Cyngor ar gefn y cerbyd ac arwyddion wedi'u glynu ar ddrysau blaen y cerbydau. Ar hyn o bryd, rhai crwn ac o liw gwyrdd yn bennaf yw'r arwyddion ar ddrysau Cerbydau Hacni a thrionglog ac o liw melyn yn bennaf yw rhai Cerbydau Hurio Preifat. Bwriedir parhau i ddefnyddio'r lliwiau hyn er mwyn gwahaniaethu rhwng y ddau fath o gerbyd.


O 1 Mehefin 2001 ymlaen, yr oedd gofyn i Gerbydau Hacni fod yn ddu, neu o liw a gymeradwywyd gan y Cyngor.  Gall cerbydau Hurio Preifat fod o unrhyw liw onid yw'r cerbyd o'r un dyluniad a golwg â'r cerbydau a "Adeiladwyd i Bwrpas" a drwyddedir ar gyfer y fasnach Cerbydau Hacni yng Nghasnewydd. Ni fydd cerbydau sy'n debyg o ran golwg a lliw i gerbydau a "Adeiladwyd i Bwrpas"  neu Gerbyd Hacni a gymeradwywyd yn cael eu trwyddedu fel cerbydau Hurio Preifat i osgoi unrhyw ddryswch rhwng Cerbyd Hurio Preifat a Cherbyd Hacni.

Rhaid i bob Cerbyd Hacni a drwyddedir gan y Cyngor fod ag arwydd wedi ei oleuo ar y to. Rhaid i'r arwydd ar y to ddweud Tacsi a bod wedi ei oleuo pan fydd ar gael i'w hurio.

Rhaid i Gerbydau Hacni fod ag arwyddion wedi eu glynu ar y ddau ddrws blaen, a'r rhain wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, eu darparu yn unig gan y Cyngor, a bod wedi eu gosod yn yr orsaf brofi a gymeradwywyd. Rhaid i Gerbydau Hurio Preifat fod ag arwyddion wedi eu glynu ar y ddau ddrws blaen, a'r rhain wedi eu cymeradwyo gan y Cyngor, eu darparu yn unig gan y Cyngor, a bod wedi eu gosod yn yr orsaf brofi a gymeradwywyd.

# Atodiad 21

## Lifrai Hurio Preifat Cyngor Dinas Casnewydd




**Lifrai Cerbyd Hacni Casnewydd**



# Atodiad 22.

## Polisi Hysbysebu mewn Cerbydau

Caniateir peth hysbysebu ar Gerbydau Hurio Preifat. Dylai manylion unrhyw arwyddion neu hysbysebion cael eu cyflwyno i ddechrau i Reolwr Trwyddedu’r Cyngor i’r cynnwys gael ei ystyried.

# Atodiad 23.

## Polisi Trwyddedau Cerbydau Limousine

Efallai y gofynnir i awdurdodau trwyddedu lleol drwyddedu limousines estynedig fel Cerbydau Hurio Preifat, er y dylid nodi bod llawer limousine yn Gerbydau PSV.

Lle mae limousine wedi ei fewnforio o wlad arall, bydd angen ardystiad a gymeradwywyd gan VOSA. Yn hanesyddol, bu hyn ar ffurf trefn archwilio Cymeradwyo Cerbyd Sengl (SVA) cyn cael ei gofrestru yn y Deyrnas Unedig. Y Cynllun  Cymeradwyo Cerbyd Unigol y gelwir hyn bellach. Mae’r prawf IVA yn cadarnhau fod y cerbyd a addaswyd o wneuthuriad sy’n ateb rhai safonau diogelwch ac amgylcheddol penodol. Bydd y Cyngor yn mynnu bod cerbydau a fewnforiwyd yn cwrdd â safon IVA a bydd angen tystiolaeth o hyn ar ffurf V5C (Tystysgrif Gofrestru) y cerbyd, a all gyfeirio at IVA dan yr Adran "Nodyn Arbennig"; neu gall y perchennog gael cadarnhad ysgrifenedig gan:

VOSA, Ellipse, Heol Padley, Abertawe, SA1 8AN, fod y cerbyd yn cydymffurfio ag IVA.

Bydd ar berchenogion angen manylion am wneuthuriad a  model y cerbyd, ei rif cofrestru a rhif VIN. Efallai y rhoddir ystyriaeth i oedran cerbydau o’r fath; maent fel arfer yn bum mlwydd oed pan gânt eu hallforio i’r Deyrnas Unedig.

# Atodiad 24.

## Polisi Trwyddedau Cerbydau Anarferol/Digwyddiadau Arbennig

Oherwydd natur unigol "cerbyd arbennig" gan gynnwys cerbydau sy'n cludo cadeiriau olwyn, bydd materion o raid yn codi na fyddai'n gymwys i gerbydau Hurio Preifat confensiynol, a bydd angen felly ystyried a ddylid cynnwys amodau arbennig ar unrhyw drwydded gan gynnwys eithrio o'r "polisi amgylchedd".

**Cerbydau Angladd/ Cerbydau Priodas**

Nid oes angen trwyddedu cerbyd pan gaiff ei ddefnyddio yn unig yng nghyswllt angladd neu sy'n cael ei ddefnyddio yn gyfan gwbl neu yn bennaf gan berson sy'n cynnal busnes Ymgymerwr Angladdau. Nid oes angen trwyddedu cerbyd pan fydd yn cael ei ddefnyddio yn unig ar gyfer y gwasanaeth priodas.

### 4. Cerbydau Contract

Hyd at Ionawr 2008, nid oedd unrhyw ofynion i gerbyd gael ei drwyddedu pan oedd yn cael ei ddefnyddio am gontract gyda sefydliad neu gwmni am gyfnod o saith diwrnod o leiaf, i gludo teithwyr ar log neu am elw dan gontract hurio'r cerbyd. Fodd bynnag, yr oedd yr eithriad hwn yn gymwys yn unig i'r cerbyd a'r gyrrwr a nodwyd yn y contract ac yna yn unig am gyfnod y contract. Nid oedd modd defnyddio unrhyw gerbyd a ddefnyddid am gontract gydag un cwmni ar gyfer unrhyw gontract neu ddiben arall yn ystod cyfnod y contract hwnnw. Bu gofyn i gerbydau sydd yn gwneud gwaith contract wedi'r dyddiad hwnnw gael eu trwyddedu gan y Cyngor er mwyn dal i wneud y gwaith hwnnw: mae hyn yn cynnwys cludiant ysgol.

## POLISI AR GERBYDAU DIGWYDDIADAU ARBENNIG: GAN GYNNWYS LIMOUSINES, CERBYDAU CLUDO CADEIRIAU OLWYN A CHERBYDAU O FRI

Mae'r elfen hon o'r Polisi yn gymwys yn unig i Gerbydau Hurio Preifat.

1. At ddibenion y Polisi hwn, golyga 'cerbyd digwyddiadau arbennig' gerbyd a ddefnyddir ar gyfer achlysur neu achlysuron penodol o natur gyfyngedig, e.e., cludo i bartïon, a heb fod yn gerbyd confensiynol a ddefnyddir ar gyfer gwaith Hurio Preifat safonol.
2. Ymhlith enghreifftiau o gerbydau a all ddod i'r categori 'Digwyddiad Arbennig' y mae limousines estynedig, ceir clasurol, cerbyd sydd â llai na phedair sedd neu sydd â

darpariaethau cadair olwyn - er enghraifft, cerbyd sydd â lifft sy'n gweithio o'r cefn, etc. Gall perchenogion cerbydau o fri a drwyddedwyd fel cerbydau hurio preifat neu gerbydau hurio preifat a ddefnyddir dan amgylchiadau arbennig geisio caniatad yr Awdurdod i hepgor amodau eu trwydded sy'n ymwneud ag arddnagos platiau trwydded, glynion drws a bathodynnau gyrrwr.

3. Nid yw'r elfen hon o'r Polisi yn gymwys yng nghyswllt cerbydau a ddefnyddir yn unig yng nghyswllt priodasau ac angladdau ac sydd felly wedi eu heithrio o Drwyddedu Hurio Preifat.

4. Ni fydd Amodau Trwyddedu Cyffredinol Cerbydau Hurio Preifat fel arfer yn caniatau trwyddedu cerbydau digwyddiadau arbennig am nifer o resymau gan gynnwys arddull a dyluniad y cerbyd a cheir "clasurol" sy'n methu a chwrdd â safonau allyriadau.

5. Gall unrhyw gerbyd digwyddiadau arbennig nas cymeradwywyd ei fath, ac nad yw'n cwrdd â gofynion y Rheoliadau Gwneuthuriad a Defnydd, neu na fyddai fel arall yn cwrdd ag amodau safonol Cerbyd Hurio Preifat, wneud cais i gael ei drwyddedu trwy geisio amrywiad neu eithriad o rai o'r amodau safonol a fyddai fel arall yn gymwys.

6. Caiff pob cerbyd ei ystyried a'i asesu gan y **Rheolwr Trwyddedu** ar ei hawl ei hun, gan ystyried yr isod:

- cyflwr cyffredinol y cerbyd
- nifer y teithwyr y mae gofyn ei drwyddedu ar eu cyfer
- y meini prawf penodol y ceisir eithriad ar eu cyfer
- math o fynediad i gadair olwyn (er enghraifft, cerbydau a lifft yn y cefn)
- math o waith neu gontract y defnyddir y cerbyd ar ei gyfer
- Prif ystyriaeth y Cyngor yn wastad fydd diogelwch a chysur y cyhoedd wrth deithio.

## AMODAU LIMOUSINE

Atodir y set isod o amodau i bob limousine estynedig:

1. Caniateir i limousines fod â'r gyrrwr ar yr ochr chwith neu'r dde.

2. Mae'r rhan fwyaf o limousines estynedig wedi eu hallforio o U.D.A. ac y mae'r gyrrwr ar yr ochr chwith. Argymhellodd yr Adran Drafnidiaeth na ddylai Cynghorau wrthod trwyddedu limousines yn unig am fod iddynt nodweddion sy'n mynd yn groes i'w Polisi presennol, h.y., gyrrwr ar yr ochr chwith. Caniateir limousines gyda seddi sy'n wynebu'r ochr.

3. Un o brif nodweddion limousines estynedig yw eu seddi mainc sy'n wynebu'r ochr. Yn unol â chanllawiau'r Adran Drafnidiaeth uchod, bydd y Cyngor yn ystyried addasrwydd limousines a seddi sy'n wynebu'r ochr ar gyfer eu trwyddedu. Rhaid i'r cerbyd fod a gwregys ar gael i bob teithiwr.

4. Ni fydd angen i limousines arddangos lifrai'r Cyngor ond bydd angen iddynt arddangos plat hurio preifat y Cyngor. (Mae'r plat yn gwahaniaethu Cerbydau Hurio Preifat oddi wrth geir salŵn cyffredin a'u gwneud yn hawdd i'w hadnabod gan y cyhoedd. Fodd bynnag, mae golwg arbennig limousines estynedig yn golygu y bydd yn dra anhebygol drysu rhyngddynt â Cherbyd Hacni neu gerbyd at ddefnydd preifat).

5. Bydd limousines gyda gwydr ag arlliw tywyll ar y ffenestri cefn ar yr ochrau yn cael eu hystyried ar gyfer trwyddedu. Fodd bynnag, byddai gwydr ag arlliw tywyll o flaen sedd y gyrrwr yn dal yn waharddedig yn unol â gofynion cyfreithiol. Yr ydym yn derbyn fod y

preifatrwydd a roddir gan wydr ag arlliw yn lle mae'r teithwyr yn nodwedd ganolog limousine. Fodd bynnag, rhaid i wydr yn safle'r gyrrwr fodloni'r safonau yn Rheoliadau (Gwneuthuriad a Defnydd) Cerbydau'r Ffordd 1986 fel y'u diwygiwyd.

6. Bydd gofyn i limousines feddu ar Dystysgrif Cymeradwyo Cerbyd Sengl (SVA) ddilys neu dystysgrif IVA. (Mae'r prawf SVA neu IVA yn golygu archwilio cerbyd trwy edrych arno, ac yn ardystio ei fod yn ddiogel ac yn addas i fod ar y ffordd).

7. Rhaid ffitio'r limousine â theiars sydd yn cwrdd â'r fanyleb o ran maint a phwysau. (O gofio y bydd y cerbyd yn drymach, rhaid defnyddio teiars o'r pwysau a'r raddfa maint cywir bob amser).

8. Ni ddylid defnyddio unrhyw seddi yn rhan y gyrrwr i gludo teithwyr. (Mae hyn er mwyn sicrhau nad yw teithwyr yn cael eu cludo yn nhu blaen y cerbyd er mwyn gwella diogelwch y gyrrwr a'r teithwyr).

9. Mewn unrhyw hysbyseb sy'n rhoi cyhoeddusrwydd i unrhyw wasanaeth limousine, rhaid i'r Gweithredwr ddatgan fod y cerbyd wedi ei drwyddedu i gludo hyd at isafswm o 8 teithiwr yn unig. Mae hyn i hysbysu cwsmeriaid o uchafswm gallu cludo'r cerbyd).

10. Bydd diodydd alcoholaidd a ddarperir yn y cerbyd dan delerau trwydded briodol a gyhoeddwyd dan Ddeddf Trwyddedu 2003 sy'n ymwneud â gwerthu a chyflenwi alcohol. Er mwyn cydymffurfio â gofynion trwyddedu alcohol a diogelu'r cyhoedd, dylai poteli o alcohol gael eu rhoi mewn lle diogel a dylid eu cymryd ymaith pan fo unrhyw deithiwr dan 18 oed. Rhaid i unrhyw wydrau yn y cerbyd fod naill ai o wydr na all ddryllio neu blastig (diogelu'r cyhoedd).

11. Ni ddylai'r gyrrwr chwarae na chaniatau perfformio unrhyw gyfrwng sydd, oherwydd ei ddosbarthiad oedran neu gynnwys, yn anaddas i oedran y teithwyr yn y cerbyd. (Mae hyn er mwyn gwarchod plant sy'n teithio rhag gweld deunydd anaddas).

12. Os bydd y limousine yn parcio er mwyn darparu rhyw fath o adloniant a reoleiddiwyd i'w deithwyr, rhaid cael trwydded yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003.

13. Ni ellir trwyddedu unrhyw gerbyd a wnaed neu a addaswyd i gynnwys mwy nag wyth teithiwr fel cerbyd Hurio Preifat.

14. Oherwydd natur unigol cerbyd limousine, bydd materion yn codi o raid na fyddai'n gymwys i Gerbydau Hurio Preifat confensiynol, a bydd angen ystyried felly a ddylid cynnwys unrhyw amodau arbennig ar unrhyw drwydded. Bydd y Rheolwr Trwyddedu yn pennu unrhyw amodau arbennig ychwanegol o'r fath. Os nad yw'r perchennog yn fodlon â'r amodau arfaethedig, caiff y mater ei glywed a'i bennu gan y Panel Trwyddedu.

## AMODAU CERBYDAU “O FRI”

15. Bydd yn rhaid i Gerbydau o Fri sydd eisiau eu heithrio o’r gofynion iddynt fod â phlatiau a gorfod arddnagos glynion ar yr ochr gydymffurfio a’r holl Amodau Hurio Preifat ar wahan i Amodau sy’n ymwneud â’r plat a’r glynion ochr (Lifrai).

16. Ni chaiff y cerbyd wneud unrhyw waith am arian oni fydd y cerbyd wedi ei archebu o leiaf 1 awr cyn dechrau’r daith, neu fod gan y gweithredwr gontract ysgrifenedig gyda busnes(au) neu berson penodol.

17. Ni chaniateir mesurydd yn y cerbyd (onid yw’n rhan o’r cerbyd).

18. Rhaid i gerbydau fod dan 7 oed, er yr ystyrir cerbydau hŷn gan y Rheolwr Trwyddedu, a bydd hyn yn bennaf yn caniatau i geir hŷn o’r oes a fu neu geir unigryw gael trwydded.

19. Rhaid i’r cerbyd fod o safon o gysur a chyda chyfarpar sy’n cyfateb i neu yn well na modelau moethus o gerbydau megis Mercedes Benz Dosbarth E neu S, BMW Cyfres 5 a 7, Lexus GS neu LS, Audi A6, A8, Range Rover, Jaguar XF, XJ, Tesla, Maserati Ghibli, Quattro Porte, VW Phantom, Volvo S/V90, etc. (Gall ceir salŵn moethus uwch eu manyleb a cheir MPV gan wneuthurwyr eraill hefyd gael eu hystyried, er enghraifft, Mercedes Vito).

20. Rhaid arddangos plat ffenest “moethus” (“executive”) bob amser yn sgrîn wynt flaen y cerbyd.

21. Ni chaniateir unrhyw hysbysebu yn y cerbyd nac arno o gwbl.

22. Rhaid i yrrwr y cerbyd fod wedi gwisgo’n briodol ar gyfer achlysur ffurfiol mewn siwt ffurfiol (siaced, trowsus neu sgert) ac esgidiau ffurfiol. Ni chaniateir i’r gyrrwr wisgo dillad hamdden.

23. Oherwydd natur unigol cerbyd digwyddiadau arbennig, bydd materion yn codi o raid na fyddai’n gymwys i Gerbydau Hurio Preifat confensiynol, a bydd angen ystyried felly a ddylid cynnwys unrhyw amodau arbennig ar unrhyw drwydded. Bydd y Rheolwr Trwyddedu yn pennu unrhyw amodau arbennig ychwanegol o’r fath. Os nad yw’r perchennog yn fodlon â’r amodau arfaethedig, caiff y mater ei glywed a’i bennu gan y Panel Trwyddedu.

**Dylid nodi y bydd Perchenogion / Gweithredwyr y canfuwyd iddynt dorri’r amodau uchod yn cael statws “moethus” wedi ei gymryd oddi arnynt am gyfnod o 12 mis gan y Rheolwr Trwyddedu ac atelir y cerbyd hyd nes y bydd y cerbyd(au) yn cydymffurfio ag Amodau Cerbyd Hurio Preifat**.

# Atodiad 26.

## Proses ymgeisio Gweithredwr Hurio Preifat

Rhaid i gais am drwydded Gweithredwr Hurio Preifat gael ei wneud ar y ffurflen benodol. Bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn anfon gohebiaeth at berchenogion cerbydau trwy ebost, er y dylid nodi mai cyfrifoldeb y Gweithredwyr yw gofalu bod ceisiadau am adnewyddu yn cael eu gwneud mewn pryd.

I roi digon o amser i ddogfennau gael eu prosesu, dylai ymgeiswyr sicrhau bod yr Awdurdod Trwyddedu yn derbyn eu cais cyflawn, gan gynnwys y ffî ac unrhyw ddogfennau angenrheidiol eraill o leiaf 28 diwrnod cyn i drwydded gweithredwr ddod i ben.

Mae'r holl ffurflenni cais a chanllawiau llawn ar gael ar dudalen gwe Tacsis y Tîm Trwyddedu.

# Atodiad 27

## Amod Trwydded Gweithredwr Hurio Preifat

1.1 Rhaid i'r gweithredwr gynnal digon o wiriadau i fodloni ei hun mai dim ond gyrwyr addas a ddefnyddir (ac y parheir i'w defnyddio) yn ei b/fusnes. Bydd hyn yn cynnwys gwirio a chymryd copi o drwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat pob gyrrwr cyn i'r gyrrwr hwnnw gymryd unrhyw daith a archebwyd. Gall methiant gweithredwr i sicrhau bod gwiriadau priodol yn cael eu cynnal godi cwestiwn am addasrwydd a phriodoldeb y gweithredwr. Hefyd, gall methu a chymryd y camau priodol yng nghyswllt gyrwyr sydd yn torri amodau trwydded dro ar ôl tro fod yn andwyol i barhad addsrwydd a phriodoldeb y gweithredwr.

1.2 Lle bo gweithredwr yn diswyddo neu'n peidio â chyflogi gyrrwr, rhaid iddo/i roi adroddiad am y diswyddo a'r rhesymau dros hyn i'r Awdurdod Trwyddedu ymhen 48 awr o'r diswyddo ddod i rym.

1.3 Rhaid i'r Gweithredwr hysbysu'r Swyddfa Drwyddedu, yn ysgrifenedig, ymhen 5 diwrnod gwaith os bydd ef/hi, unrhyw gyfarwyddwr cwmni, neu unrhyw unigolyn a enwir ar y ffurflen gais:
a) yn newid cyfeiriad cartref
b) os bydd unrhyw gwmni neu bartneriaeth atebolrwydd cyfyngedig yn newid ei swyddfa gofrestredig
c) os gwneir unrhyw newidiadau ym mherchenogaeth / rheolaeth / partneriaeth y gwaith fel y nodir ar eich ffurflen gais. Sylwch y bydd angen i berchenogion newydd neu bartneriaid ychwanegol fod â datgeliad GDG sylfaenol. Ni fydd trosglwyddo trwydded y gweithredwr yn gyflawn hyd nes bydd yr Awdurdod Trwyddedu wedi derbyn copi o'r datgeliad.
d) os bydd cyfarwyddwr neu berson cyfrifol enwebedig yn peidio â chael ei g/chyflogi yn y swydd honno

1.4 Rhaid i'r gweithredwr roi gwybod i'r Awdurdod Trwyddedu os bydd ef/hi neu'r person sy'n rhedeg y busnes yn absennol o redeg y busnes o ddydd i ddydd am gyfnod o 2 fis yn olynol. Wrth wneud hyn, rhaid i'r gweithredwr roi enw'r person fydd yn gyfrifol am redeg y busnes ar ei rh/ran dros dro yn ystod y cyfnod hwn.

1.5 Rhaid i'r Gweithredwr beidio â defnyddio, na hwyluso defnyddio, unrhyw feddalwedd, technoleg na dyfais arall a all atal gweithgareddau cyfreithlon asiantaethau gorfodi neu weithgaredd rheoleiddio'r Awdurdod Trwyddedu.

1.6 Rhaid i'r Gweithredwyr gydymffurfio a phob cais rhesymol a wneir gan swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu.

2. System Gwynion

2.1 Rhaid i Weithredwyr Hurio Preifat neu gynrychiolydd a benodwyd o'r busnes roi ymchwiliad ar waith i unrhyw gwyn a dderbynnir gan y cyhoedd ymhen 48 awr o dderbyn y gŵyn.

2.2 Rhaid i'r gweithredwr gadw cofrestr o gwynion (digidol neu gopi caled), sy'n gorfod cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

a. Enw a chyfeiriad/cyfeiriad ebost yr achwynydd
b. Manylion y gŵyn
c. Amser a dyddiad y digwyddiad honedig
d. Amser a dyddiad y derbyniodd y gweithredwr y gŵyn
e. Sut y derbyniwyd y gŵyn, e.e., ffôn, ebost etc
f. Enw'r person a dderbyniodd y gŵyn.
g. Enw'r sawl yr honnir iddo/i dramgwyddo
h. Os cyfeiriwyd y gŵyn at yr Awdurdod Trwyddedu – amser a dyddiad ei chyfeirio a chan bwy.
i. Manylion y camau a gymerwyd i ddatrys y gŵyn a chan bwy
j. Dyddiad datrys y gŵyn

2.3 Rhaid i gopi o'r gofrestr gwynion fod ar gael i'w archwilio pan fydd swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu yn gwneud cais. Rhaid cadw'r cofnodion am gyfnod o 12 mis.

2.4 Pan fydd gweithredwr yn derbyn cwyn am yrrwr trwyddedig, rhaid iddo/i hysbysu'r achwynydd yn syth o'i hawl i gyfeirio'r gŵyn at yr Awdurdod Trwyddedu.

2.5 Dylai'r Gweithredwr sicrhau yr arddangosir manylion o sut y gall cwsmer gysylltu â'r gweithredwr os cyfyd unrhyw gŵyn am gontract hurio neu gontract hurio honedig yng nghyswllt neu yn deillio o'i f/busnes ar wefan y gweithredwr, ap archebu, neu yn niffyg unrhyw lwyfan archebu arlein, yn y swyddfa archebu.

2.6 Lle derbynnir cwyn gan yr Awdurdod Trwyddedu, rhaid i'r gweithredwr gydymffurfio ag unrhyw gais rhesymol am wybodaeth a/neu ddilyn unrhyw gyfarwyddyd rhesymol a wneir gan swyddog awdurdodedig neu swyddog heddlu parthed y gŵyn

2.7 Rhaid i'r Gweithredwr hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu ymhen 48 awr os derbynia'r gweithredwr gŵyn am yrrwr sy'n gweithio iddo/i lle nodwyd fod a wnelo'r gŵyn ag unrhyw rai o'r canlynol:

a) Honiadau o gamymddwyn rhywiol (gan gynnwys denfyddio iaith rywiol)

b) ymddygiad hiliol

c) trais (gan gynnwys iaith ymosodol)

d) anonestrwydd gan gynnwys dwyn

e) torri rheolau cydraddoldeb

f) unrhyw gamymddwyn difrifol arall (gan gynnwys ymddygiad yn ymwneud â moduro, er enghraifft, gyrru peryglus neu yfed a gyrru).

3. Cofnodion Gyrwyr a Cherbydau

1.1 Rhaid i'r Gweithredwr gynnal a chadw'n gyfoes y cofnodion a ganlyn, a rhaid iddynt fod ar gael yn syth i'w harchwilio ar gais unrhyw swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl yr heddlu:

a) enw a chyfeiriad cartref pob gyrrwr cerbyd hurio preifat cerbyd a gyflogir ganddo/i.

b) manylion gan gynnwys rhif trwydded a dyddiad y daw trwydded gyrrwr hurio preifat i ben am bob gyrrwr cerbyd hurio preifat a gyflogir ganddo/i.

c) enw a chyfeiriad cartref perchennog pob cerbyd hurio preifat cerbyd a redir ganddo/i.

d) manylion, gan gynnwys rhif plat y drwydded hurio preifat a dyddiad dod i ben a rhif cofrestru cerbyd pob cerbyd hurio preifat cerbyd a redir ganddo/i.

**4. Gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**

4.1 Rhaid i bob ymgeisydd am gael neu adnewyddu trwydded Gweithredwr Hurio Preifat gyflwyno datgeliad sylfaenol y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (wedi'i ddyddio o fewn un mis i'r cais) er mwyn bodloni'r awdurdod ei b/fod yn berson 'addas a phriodol'. Yn achos ceisiadau gan gwmni neu sefydliad, rhaid i holl gyfarwyddwyr y cwmni/sefydliad ddarparu datgeliad sylfaenol. Yr ymgeisydd /deiliad y drwydded fydd yn talu cost y gwiriadau hyn.

4.2 Yn dilyn rhoi trwydded, rhaid i ddeiliaid trwydded gyflwyno datgeliad sylfaenol newydd i'r Awdurdod Trwyddedu bob blwyddyn.

4.3 Nid oes angen i ymgeiswyr sydd eisoes â thrwydded gyrrwr cerbyd hacni neu CHP gyda'r awdurdod hwn ddarparu'r datgeliad sylfaenol fel rhan o'u cais am drwydded gweithredwr hurio preifat. Cyhyd ag y bydd deiliaid trwydded yn parhau i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni neu CHP gyda'r awdurdod hwn, ni fydd angen iddynt gyflwyno datgeliad sylfaenol blynyddol.

4.4 a) Rhaid i'r gweithredwr weld tystysgrif sylfaenol GDG (dyddiedig o fewn un mis o'r gwiriad) unrhyw staff all fynd at gofnodion archebu neu anfon cerbydau.

b) Rhaid i'r gweithredwr gadw cofrestr o'r holl staff o'r fath a ddylai gynnwys cofnod o'r amser y cynhaliwyd pob gwiriad GDG. Rhaid i'r gofrestr hon fod ar gael i'w harchwilio gan swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu o wneud cais. Dylai'r gofrestr gynnwys y canlynol:

i. y dyddiad y cychwynnodd cyflogaeth y person yn y swydd honno

ii. y dyddiad y gwiriodd y gweithredwr y dystysgrif GDG

iii. enw'r sawl a wiriodd y dystysgrif GDG

iv. y dyddiad y rhoddodd y person y gorau i wneud y swydd honno.

c) Rhaid cadw'r gofrestr am 12 mis yn unol â'r cofnodion archebu.

d) Os peidia gweithiwr â bod ar y gofrestr ac y daw'n ôl yn nes ymlaen ar y gofrestr, rhaid i'r gweithredwr weld tystysgrif GDG sylfaenol newydd (neu ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfoesi).

1.5 Lle bo'r ymgeisydd/gweithredwr yn cyflogi neu'n bwriadu cyflogi pobl fydd yn rhan o gymryd archebion neu anfon cerbydau, rhaid i'r gweithredwr gynhyrchu polisi am gyflogi cyn-droseddwyr yn y swyddi hynny. Rhaid i'r polisi fod ar gael i'w archwilio ar gais swyddog awdurdodedig o'r Awdurdod Trwyddedu.

1.6 Rhaid i'r Gweithredwr fynnu bod yr holl staff a gyflogir i gymryd archebion neu anfon cerbydau yn adrodd wrtho/i ymhen 48 awr o unrhyw euogfarn, ymrwymo, rhybudd, cerydd neu arest am unrhyw fater troseddol tra'u bod wedi eu cyflogi yn y swydd hon.

1.7 Rhaid i'r gweithredwr wneud yn sicr bod gan unrhyw gwmni/unigolyn allanol sy'n cymryd archebion ac yn anfon cerbydau fesurau diogelu digonol er mwyn amddiffyn plant ac oedolion bregus. Rhaid i'r gweithredwr fynnu gweld tystiolaeth o hyn gan y cwmni cyn caniatau iddynt wneud y tasgau hyn.

5. Hysbysu am Euogfarnau

5.1 Ymhen 48 awr o unrhyw arest a rhyddhau, ac yna wedi unrhyw euogfarn, ymrwymo, rhybudd, cerydd neu arest am unrhyw fater troseddol neu foduro (boed wedi cyhuddo neu beidio) a osodwyd arni/o yn ystod cyfnod y drwydded, rhaid i ddeiliad y drwydded hysbysu'r Awdurdod Trwyddedu gyda manylion llawn y mater(ion).

Yr hyn y mae'n rhaid adrodd amdano:-

a. Unrhyw euogfarn (mater troseddol neu foduro).
b. Unrhyw rybudd (a roddwyd gan yr Heddlu neu unrhyw asiantaeth arall).
c. Cyhoeddi unrhyw wysion Llys Ynadon yn eich erbyn.
d. Rhoi unrhyw rybudd cosb benodol am unrhyw fater.
e. Unrhyw rybudd neu orchymyn am aflonyddu neu fath arall o rybudd neu orchymyn yn y gyfraith droseddol, gan gynnwys gorchmynion ymddygiad gwrthgymdeithasol neu debyg.
f. Arest am unrhyw drosedd (boed wedi cyhuddo neu beidio).
g. Unrhyw ryddhau yn dilyn achos troseddol a wrandawyd mewn llys.
h. Unrhyw achos o wrthod unrhyw fath o drwydded gan unrhyw awdurdod rheoleiddio arall neu atal, diddymu neu beidio ag adnewyddu trwydded o'r fath.

6. Eiddo Busnes

1.1 Rhaid i'r Gweithredwr roi i'r Awdurdod Trwyddedu gyfeiriad yr eiddo yn ardal yr Awdurdod Trwyddedu y rhedir y busnes ohono.

1.2 Lle defnyddir eiddo'r gweithredwr gan y cyhoedd, rhaid cadw'r lle yn lân, wedi ei wresogi, ei awyru a'i oleuo'n ddigonol.

1.3 Dylai’r gweithredwr wneud yn siwr y bydd unrhyw fan aros a ddarperir at ddefnydd darpar-hurwyr â digon o le i eistedd a’i fod ar wahan i unrhyw fan gorffwys i’r gyrwyr a’r ystafell reoli.

1.4 Rhaid arddangos trwydded y gweithredwr hurio preifat mewn man amlwg yn unrhyw eiddo y mae’r gweithredwr yn gweithio ohono. Dylid dileu unrhyw fanylion personol megis cyfeiriad cartref deiliad y drwydded o’r copi arddangos cyn ei arddangos.

1.5 Dylai’r gweithredwr ddarparu copi o’r amodau trwydded hyn i’r cyhoedd os gwneir cais.

7. Cofnodion Archebu

7.1 Rhaid i’r gweithredwr gadw cofnod o bob archeb hurio preifat naill ai yn ysgrifenedig mewn llyfr addas a gwydn sydd â’r tudalennu wedi eu rhifo, neu ar system archebu ac anfon gyfrifiadurol.

Os mai llyfr a ddefnyddir, rhaid i bob cofnod fod yn glir, yn Saesneg ac yn hawdd ei ddarllen, heb ofod rhwng llinellau na thudalennau gwag.

Os mai system archebu gyfrifiadurol a ddefnyddir, rhaid i’r system allu cynhyrchu allbrint o unrhyw gofnodion y bydd swyddog awdurdodedig neu gwnstabl o’r heddlu yn gofyn amdano ar unrhyw adeg.

7.2 Ar gyfer pob archeb a dderbynnir, dylid gwneud cofnod yn y llyfr cofnodi neu’r system archebu ac anfon gyfrifiadurol a ddylai gynnwys:

a) Enw’r sawl sy’n gwneud y cofnod (os nad gwneir gan system gyfrifiadurol)

b) Yr amser a’r dyddiad y gwneir yr archeb, ac

c) Enw’r sawl sy’n archebu

d) Manylion cyswllt y sawl sy’n archebu (cyfeiriad ebost neu rif ffôn)

e) Yr amser a’r lle casglu y cytunwyd arno, neu os oes mwy nag un, yr amser a’r lle casglu cyntaf

f) Y gyrchfan - o leiaf dylai hyn gynnwys y stryd a/neu enw’r adeilad a’r ardal bost. Lle bo modd, dylid cynnwys cod post llawn.

g) Amser cwblhau’r daith

h) Cyfanswm cost y daith gyfan

i) Enw gyrrwr y cerbyd hacni/hurio preifat

j) Rhif trwydded gyrrwr y cerbyd hacni/hurio preifat

k) Rhif cofrestru'r cerbyd a neilltuwyd i'r archeb

l) Enw unrhyw unigolyn a ymatebodd i'r cais i archebu

m) Enw'r sawl a anfonodd y cerbyd (os nas anfonwyd trwy system gyfrifiadurol)

n) Os yn gymwys, enw'r gweithredwr arall y derbyniwyd archeb ganddo/i a/neu i bwy yr is-gontractiwyd yr archeb.

7.3 Rhaid gwneud unrhyw newid i'r cofnod gwreiddiol fel ychwanegiad.

7.4 Rhaid cadw pob cofnod o archebion hurio preifat, boed wedi eu cadw mewn llyfr neu ar fformat digidol, am o leiaf 12 mis o ddyddiad y cofnod diwethaf a bod ar gael yn hawdd i'w ddangos i swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu neu gwnstabl o'r heddlu i'w archwilio ar unrhyw adeg yn ystod yr oriau gweithio.

8. Data Personol

8.1 Rhaid rhoi adroddiad am golli data personol trwy ddwyn neu fel arall wrth yr Awdurdod Trwyddedu yn ysgrifenedig ymhen 24 awr, a hefyd yn syth wrth yr heddlu os amheuir lladrad. Dylid nodi y gall fod angen adrodd am golli data hefyd wrth Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth; am fwy o wybodaeth, gweler: https://ico.org.uk/for-organisations/report-a-breach/

9. Yswiriant

- Rhaid i weithredwyr sicrhau bob amser fod polisi yswiriant mewn grym i bob cerbyd hurio preifat sy'n cael eu rhedeg, sydd yn ymdrin â chludo teithwyr am elw trwy archebu ymlaen llaw yn unig, neu fath o sicrwydd sy'n cydymffurfio â gofynion Rhan VI Deddf Trafnidiaeth y Ffyrdd 1988.

- Rhaid i unrhyw eiddo sy'n rhoi mynediad i aelodau'r cyhoedd ddod dan yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus.

- Rhaid i weithredwyr sicrhau, lle daw cerbyd dan bolisi yswiriant fflyd, fod gyrwyr yn ymwybodol o gynnwys y polisi, gan gynnwys ei gyfyngiadau a'i eithriadau. Rhaid i'r gweithredwr gadw cofnod, wedi ei lofnodi gan y gyrrwr, yng nghofnod ffeil pob unigolyn pan gwblheir hyn. Rhaid dangos copi o gofnod unrhyw unigolyn i unrhyw swyddog awdurdodedig yr Awdurdod Trwyddedu os gwneir cais.

10. Rhannu Taith/Ceir rhannu

10.1 Adeg archebu, rhaid gwneud hurwyr unigol yn ymwybodol o archebion sy'n rhan o siwrne rhannu taith/rhannu ceir, a chydsynio'n benodol i hyn.

10.2 Fel rhan o gynlluniau rhannu taith/rhannu ceir, rhaid i weithredwyr gynnig y dewis i'r sawl sy'n hurio i rannu yn unig gyda theithwyr eraill o'r un rhyw. Os bydd y sawl sy'n hurio yn cymryd y dewis hwn, ni ellir ychwanegu teithwyr o'r rhy arall i'r un archeb.

11. Safonau Gwasanaeth

11.1Rhaid i'r gweithredwr roi gwasanaeth prydlon, effeithlon a dibynadwy i aelodau'r cyhoedd ar bob adeg resymol, ac i'r perwyl hwn rhaid gwneud y canlynol yn benodol:

a) Darparu technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, cyfleusterau a staff digonol, fel sy'n briodol.

b) Sicrhau'r lefel uchaf o wasanaeth a gofal i gwsmeriaid.

c) Sicrhau, pan fo cerbyd hurio preifat wedi ei hurio i fod mewn lle ac ar amser a bennwyd, y dylai'r cerbyd fod yn y lle ac ar yr amser hwnnw yn brydlon, oni fydd wedi ei oedi neu ei atal am reswm digonol.

d) Sicrhau bod unrhyw gyfleusterau teliffon a chyfarpar radio (y gall fod angen Trwydded Radio OFCOM ar eu cyfer) yn cael eu cynnal a'u cadw mewn cyflwr da ac y caiff unrhyw ddiffygion eu trwsio'n syth.

12.1. Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus

12.1 Ni ellir defnyddio Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSV) ar gyfer archeb hurio preifat heb ganiatâd gwybodus y sawl sy'n hurio.

<u>Nodiadau</u>

I. Dylid darllen yr amodau hyn ar y cyd â darpariaethau Rhan II Deddf Llywodraeth Leol (Darpariaethau Amrywiol) 1976.

II. Rhaid i weithredwyr gynnal eu busnes yn unol â’r holl ddarpariaethau statudol perthnasol. Mae hyn yn cynnwys deddfwriaeth iechyd, diogelwch a lles, deddfwriaeth amgylcheddol a deddfwriaeth cydraddoldeb.

III. Rhaid i’r Gweithredwr beidio â methu na gwrthod derbyn archeb gan neu ar ran person anabl sydd â ‘chi cymorth’ pan mai’r rheswm dros fethu neu wrthod yw y bydd ‘ ‘ci cymorth’ gyda’r person anabl.

IV. Caiff methiant i ddatgan unrhyw euogfarn o fewn yr amser angenrheidiol, ynghyd a natur yr euogfarn, ei gymryd i ystyriaeth wrth benderfynu a yw deiliad trwydded yn berson addas a phriodol i ddal trwydded gyrrwr cerbyd hacni/hurio preifat. Gall hyn arwain at atal, diddymu neu wrthod adnewyddu trwydded y gyrrwr hurio preifat.

V. Gall unrhyw drosedd yn erbyn yr amodau trwyddedu arwain at atal neu ddiddymu’r drwydded.

VI. Gall unrhyw berson sy’n teimlo iddo/i gael ei d/thramgwyddo gan unrhyw amodau a nodir yn y drwydded apelio at lys ynadon ymhen 21 diwrnod o osod yr amodau.

VII. Dylid adnewyddu trwydded ymlaen llaw er mwyn sicrhau cysondeb. Nid oes cyfnod awtomatig o ras. Mae rhedeg cerbydau hurio preifat yn drosedd.

Rhaid i bob gweithredwr gydymffurfio â’u hymrwymiadau dan Ddeddf Diogelu Data 2018 a dylent fod wedi cofrestru gyda’r Comisiynydd Gwybodaeth.